Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif/Number: 48/2014

Rhwystrau y mae Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol yn eu Hwynebu wrth Droi at Wasanaethau Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddwch a Thrais Rhywiol

Rhwystrau y mae Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol yn eu Hwynebu wrth Droi at Wasanaethau Cam-drin Domestig, Stelcio, Aflonyddwch a Thrais Rhywiol

Shannon Harvey, Martin Mitchell, Jasmin Keeble, Carol McNaughton Nicholls a Nilufer Rahim
Ymchwil Gymdeithasol NatCen

Safbwyntiau'r ymchwilwyr yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid safbwyntiau Llywodraeth Cymru o reidrwydd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Robert Willis

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parch Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 02929 82 6970

robert.willis@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2014

ISBN 978-1-4734-1418-1

© Hawlfraint y Goron 2014

Tabl cynnwys

Geirfa acronymau 3
Diffiniadau o fathau o gam-drin 4
Diffiniadau o gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaethau rhyw 4

1 Rhagarweiniad a methodoleg 7
2 Adolygiad o dystiolaeth 12
3 Rhwystrau unigol a rhyngbersonol o droi at wasanaethau 20
4 Rhwystrau strwythurol a diwylliannol yn y ddarpariaeth gwasanaeth 29
5 Arferion addawol a chyfleoedd i ddatblygu 42
6 Argymhellion 53

Cyfeiriadau 57
Atodiad A. Adolygiad Llawn o Dystiolaeth 62
Atodiad B. Sampl a gyflawnwyd 81
Atodiad C. Canllawiau pynciau cyfweld a chwestiynau ar-lein 84

Geirfa acronymau

BME	Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
CPS	Gwasanaeth Erlyn y Goron
DA	Cam-drin domestig
DASH RIC	Rhestr Wirio Asesiad Risg Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddwch CAADA (Co-ordinated Action Against Domestig Abuse)
DASH/SV	Cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddwch a thrais rhywiol
D/SV	Trais domestig a rhywiol
GRC	Tystysgrif Cydnabod Rhyw
HBV	Trais seiliedig ar “Anrhydedd”
IDVA	Cynghorwr Annibynnol ar Drais Domestig
IPV	Trais gan bartner mynwesol
ISVA	Cynghorwr Annibynnol ar Drais Rhywiol
LHDTh	Lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol
MARAC	Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth
QUILTBAG	Gwrywgydiol ac yn cwestiynu, heb benderfynu, rhyngrywiol, lesbiaidd, trawsrywiol, deurywiol, cynghreiriol a di-ryw, hoyw a genderqueer
REA	Asesiad Cyflym o’r Dystiolaeth
SARC	Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol
SRE	Addysg rhyw a pherthnasoedd
SV	Trais rhywiol

Diffiniadau o fathau o gam-drin

Cam-drin domestig yw unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad rheoli, gorfodol neu fygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng y rhai sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd yn neu sydd wedi bod yn bartneriaid mynwesol neu'n aelodau o'r teulu, waeth beth yw eu rhyw neu rywioldeb. Gall hyn gwmpasu ond nid yw'n gyfyngedig i'r mathau canlynol o gam-drin: seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol (Y Swyddfa Gartref, 2013).

Diffinnir **Stelcio** ac **Aflonyddwch** yn y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997, gan gynnwys diwygiadau a wnaed trwy'r Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012. Mae stelcio'n golygu bod unigolyn yn gwirioni ar ac/neu'n mynd i obsesiwn â rhywun arall, trwy ddangos patrwm o gyswllt parhaus a mynych gyda, neu ymdrechion i gysylltu â dioddefwr penodol. Aflonyddwch yw unrhyw fath o ymddygiad parhaus sy'n achosi gofid neu drallod i rywun arall (Y Swyddfa Gartref, 2012).

Trais rhywiol yw unrhyw weithred rywiol a gyflawnir heb i ganiatâd gael ei roi (Basile a Saltzman, 2009), gan gynnwys gweithredoedd sy'n droseddau dan y Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003.

Trosedd casineb yw trosedd y mae'r dioddefwr neu unrhyw un arall yn ystyried iddi gael ei chymell gan elyniaeth neu ragfarn seiliedig ar anabledd, hil, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw gwirioneddol neu ganfyddedig person (ACPO & CPS, 2007). Mae **achos o gasineb** yn cael ei gymell gan yr un elyniaeth neu ragfarn ond nid trosedd mohono.

Diffiniadau o gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaethau rhyw

Amlygodd y cyfranogwyr ymchwil gyfyngiadau'r acronym **LHDTh**, gan nodi y gallai hepgor pobl sy'n adnabod eu hunain mewn ffyrdd eraill, a gallai gael ei ddefnyddio heb wir gynnwys pobl ddeurywiol a thrawsryweddol. Fodd bynnag, nid oedd cytundeb bras ymhlith y cyfranogwyr ar acronymau eraill. Felly, defnyddiwn LHDTh fel acronym a ddeellir ar raddfa eang, ond defnyddiwn ni

ef yn yr ystyr ehangaf, gan gwmpasu ystod y ffyrdd y dynododd ein cyfranogwyr ymchwil eu hunain.

Cyfeiria **deurywioldeb** at bobl sy'n cael eu denu gan fwy nag un rhyw. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n ystyried dynion a menywod yn ddeniadol, pobl sydd wedi'u denu gan mwyaf i un rhyw ond sy'n cydnabod nad yw hyn yn gyfyngedig, pobl sy'n ystyried eu bod yn cael eu denu at unigolion waeth beth yw eu rhyw, a phobl sy'n dadlau'r syniad mai dim ond dau ryw sy'n bodoli. Mae rhai pobl yn gwrthod y term "deurywiol", am ei fod yn awgrymu fod yna ddau ryw, a defnyddiant dermau fel **panrywiol**, **hollrywiol**, a **chyfunrhywiol** (Barker et al, 2012).

Defnyddir **trawsrywiol/trawsryweddol** yn yr adroddiad hwn fel term ymbarél i gyfeirio at ystod amrywiol o bobl sy'n teimlo nad yw eu hunaniaeth rhyw yn cyfateb yn llwyr i'r rhyw a bennwyd iddynt adeg eu genedigaeth (Roch et al, 2010). Mae hyn yn cynnwys pobl sydd wedi trawsnewid neu sydd wrthi'n trawsnewid ac sy'n byw'n amser llawn naill ai fel dynion neu fenywod. Mae'n cynnwys hefyd pobl nad ydynt yn byw fel gwryw na benyw ond mewn **rhyw heb fod yn ddeuaidd**. Gallai'r bobl hyn adnabod eu hunain fel gwryw neu fenyw neu heb fod yn wryw nac yn fenyw, neu symud rhwng rhywiau. Roedd hyn yn cynnwys pobl oedd yn adnabod eu hunain yn **genderqueer** ac yn **androgynaidd** ymhlith ein cyfranogwyr. Mae termau eraill y mae pobl heb fod yn ddeuaidd yn eu defnyddio'n aml yn cynnwys androgyn, amlrywedd a thrydydd rhyw (Scottish Trans[1]).

Defnyddiwn **cis** (talfyriad o **cis-rhyw**) i gyfeirio at bobl nad ydynt yn adnabod eu hunain yn drawsrywiol. Defnyddid y rhagddodiad *cis* ("ar ochr") dros y ddau ddegawd diwethaf fel dewis arall i dermau fel "heb fod yn drawsrywiol" oherwydd gellir ystyried bod hwnnw'n cyflwyno pobl sy'n drawsrywiol fel pobl annormal. Mae pobl cis yn cael profiad o "a match between the gender they were assigned at birth, their bodies, and their personal identity" (Schilt a Westbrook, 2009).

[1] http://www.scottishtrans.org/guidance/transgender-umbrella/androgyne-people/

Mae pobl **ryngrywiol** yn cael eu geni â nodweddion rhywiol neu atgynhyrchiol nad ydynt yn gweddu'n glir i ddiffiniadau traddodiadol y gwryw neu'r fenyw. Efallai fydd neu na fydd person rhyngrywiol yn uniaethu â rhyw deuaidd. Yn yr adroddiad hwn, ni chyfeirir at bobl ryngrywiol fel naill ai trawsrywiol neu cis.

1 Rhagarweiniad a methodoleg

1.1 Yn 2012, dechreuodd Lywodraeth Cymru ymgynghoriad a adnabyddir erbyn hyn fel y *Bil Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)*. Awgrymodd rhanddeiliaid mewn ymgyngoriadau Bil cynnar y gallai pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LHDTh) brofi rhwystrau penodol wrth ofyn am gymorth (Faraz Bhula, 2012).

1.2 Ochr yn ochr â datblygiad gwasanaeth cam-drin domestig i ddynion Cymru[2], mae rhywfaint o ymchwil wedi'i gynnal yn ymwneud â phrofiadau dynion hoyw a deurywiol o gam-drin domestig. Fodd bynnag, mae pobl LHDTh yn parhau i gael eu tangynrychioli mewn atgyfeiriadau i Linell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan a Chynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol ar draws Cymru, er gwaetha'r ffaith fod y dystiolaeth yn awgrymu eu bod yn cael profiad o gamdriniaeth ddomestig a rhywiol ar gyfraddau tebyg i fenywod heterorywiol a cis (Donovan et al, 2006; Henderson, 2003). Mae'r ddarpariaeth gwasanaethau yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU wedi parhau i ganolbwyntio ar anghenion menywod heterorywiol, cis ac mae'r wybodaeth am unrhyw wahaniaethau yn anghenion cymorth pobl LHDTh yn gyfyngedig.

1.3 Gan geisio datblygu creadigaeth polisïau a deddfwriaeth ymhellach yn y maes hwn, mae Llywodraeth Cymru (2013) yn ymroi i ddynodi'r rhwystrau a wynebir gan bobl LHDTh wrth droi at wasanaethau cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol. Comisiynwyd Ymchwil Gymdeithasol NatCen ym mis Ionawr 2014 i gynnal yr ymchwil hon.

Nodau a dulliau

Nodau a chwmpas yr ymchwil

1.4 Canolbwyntiodd yr astudiaeth hon ar brofiadau cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol pobl LHDTh yng Nghymru. Canolbwyntiodd yr ystyriaeth o brofiadau pobl LHDTh o stelcio ac aflonyddu ar achosion lle'r oedd hyn yn croesi ar draws cam-drin

[2] Cymru Ddiogelach Cynllun Dyn

domestig neu drais rhywiol, yn hytrach na stelcio ac aflonyddu fel rhan o drosedd casineb.

1.5 Nod yr ymchwil oedd:

- Nodi'r rhwystrau o droi at wasanaethau cymorth cam-drin domestig, stelcio, aflonyddu a thrais rhywiol y gallai pobl LHDTh gael profiad ohonynt;
- Nodi enghreifftiau o arfer effeithiol wrth liniaru'r rhwystrau hyn;
- Cynnig argymhellion sy'n gysylltiedig â datblygiad gwasanaethau i'r dyfodol sy'n cefnogi'r bobl LHDTh hynny sy'n cael profiad o gamdriniaeth ddomestig, stelcio ac aflonyddu ac/neu drais rhywiol.

Dulliau

1.6 Defnyddiwyd dyluniad ymchwil tri cham gennym, gan gynnwys Asesiad Cyflym o Dystiolaeth, cyfweliadau ansoddol a chyflwyniadau ysgrifenedig. Mae dull ansoddol yn galluogi archwiliad manwl o ffenomenon cymdeithasol ac mae'n gweddu'n ddelfrydol i archwilio materion sensitif a chymhleth.

1.7 Dynodwyd deunydd darllen perthnasol trwy bedwar cwestiwn yr **Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth**, gan fynd i'r afael â'r rhwystrau cyffredinol mae pobl yn eu hwynebu i droi at wasanaethau cymorth ar gyfer cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol, rhwystrau penodol y mae pobl LHDTh yn dod ar eu traws, unrhyw rwystrau ychwanegol i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ac enghreifftiau o arfer gorau sy'n lliniaru'r rhwystrau hyn. Adolygwyd 46 erthygl a llywiodd canfyddiadau o'r adolygiad o dystiolaeth gamau nesaf yr ymchwil. Mae methodoleg fanwl ar gael yn Atodiad A.

1.8 Cynhaliwyd **cyfweliadau ansoddol** unigol gyda 18 gweithiwr proffesiynol. Dewiswyd y cyfranogwyr i gynrychioli ystod ac amrywiaeth o sectorau a phrofiadau, gan gynnwys gwasanaethau gwirfoddol a statudol a sefydliadau cymunedol ar draws y sectorau trais domestig a rhywiol ac LHDTh. Cymerodd y cyfweliadau ddull ymatebol (gan ddilyn llinellau ymholi) a chawsant eu teilwra i rolau unigol. Canolbwyntiwyd ar wasanaethau ar gyfer pobl LHDTh oedd yn cael profiad o gamdriniaeth yng Nghymru, rhwystrau y gallent eu hwynebu wrth droi at y

gwasanaethau hyn, enghreifftiau o ymarfer effeithiol i liniaru'r rhwystrau a'r argymhellion hyn i'w datblygu i'r dyfodol. Darperir y sampl a gyflawnwyd yn Atodiad B ac mae'r canllawiau pynciau cyfweld ar gael yn Atodiad C.

1.9 Derbyniwyd **cyflwyniadau ysgrifenedig ar-lein** gan 34 o bobl LHDTh sy'n byw yng Nghymru trwy borth ar-lein wedi'i ddylunio i bwrpas, dienw a diogel. Anfonwyd gwahoddiadau i gymryd rhan trwy'r e-bost neu'r post at ystod o ddarparwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid yng Nghymru ac fe'u hyrwyddwyd ar y cyfryngau cymdeithasol. Gofynnwyd cwestiynau demograffig a phenagored i gyfranogwyr oedd yn dynodi eu bod yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol ac/neu drawsrywiol ac a oedd yn 16 oed neu'n hŷn. Gwahoddwyd y bobl oedd wedi a'r bobl oedd heb gael profiad o'r mathau hyn o gamdriniaeth i gymryd rhan. Archwiliodd y cwestiynau penagored brofiadau'r cyfranogwyr o gamdriniaeth, eu profiadau a'u safbwyntiau ar y rhwystrau a allai fodoli wrth geisio troi at wasanaethau, sut gallai'r rhwystrau hyn gael eu goresgyn, a syniadau ar gyfer datblygu gwasanaethau i'r dyfodol. Darperir y sampl a gyflawnwyd yn Atodiad B ac mae cwestiynau ar-lein ar gael yn Atodiad C.

1.10 Cynhaliwyd dadansoddiad o gyfweliadau ansoddol a chyflwyniadau ar-lein gan ddefnyddio'r dull *Framework*, a gefnogir gan becyn meddalwedd NVivo10. Mae'r dull hwn yn hwyluso dadansoddi fesul achos a thema mewn matrics cyffredinol. Mae'r dull yn sicrhau dadansoddiad grymus a systematig sydd wedi'i seilio yn safbwyntiau ac adroddiadau'r cyfranogwyr.

Ystyriaethau moesegol

1.11 Cymeradwywyd yr astudiaeth gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil NatCen, sy'n cynnwys arbenigwyr proffesiynol allanol a staff uwch NatCen. Ystyriwyd nifer o ystyriaethau moesegol ar gyfer yr astudiaeth hon, gan gynnwys sensitifrwydd y cwestiynau a ofynnwyd i gyfranogwyr ar-lein a goblygiadau anhysbysedd ar gyfer diogelu. Roedd pob tudalen o'r porth ar-lein yn cynnwys rhifau ffôn a dolenni i gefnogaeth ar gam-drin domestig a rhywiol, roedd y cyfranogwyr yn gallu neidio dros gwestiynau sensitif a darparwyd un botwm i adael yn syth i wefan BBC News.

Adolygwyd ymatebion ar-lein yn gyson ar gyfer datgeliadau o niwed ar ddigwydd, sylweddol i berson adnabyddadwy, a fyddai wedi'u hadrodd i'r awdurdodau perthnasol. Cyn cymryd rhan, rhoddwyd gwybodaeth i bob cyfranogwr am y cyfyngiad hwn i gyfrinachedd.

Y gallu i gyffredinoli a chyfyngiadau

1.12 Cymerwyd dull hyblyg o droi at recriwtio gennym, gan fonitro'r sampl wrth i'r ymchwil fynd yn ei blaen i sicrhau ein bod yn ymgorffori safbwyntiau ystod amrywiol o bobl. Lle nodasom nad oedd rhai grwpiau'n cael eu cynrychioli, gwnaethom ganolbwyntio ar eu hannog i gymryd rhan, er enghraifft trwy hyrwyddo'r astudiaeth trwy sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl LHDTh hŷn. Cynrychiolwyd ystod amrywiol o nodweddion ar draws y meini prawf samplu, ac eithrio amrywiaeth ethnig: roedd pob ymatebwr ar-lein yn Wyn. Er bod rhwystrau penodol yn ymwneud ag ethnigrwydd wedi'u cwmpasu yn y cyfweliadau ansoddol gyda gweithwyr proffesiynol, adroddodd y gweithwyr proffesiynol hefyd niferoedd isel iawn o ddefnyddwyr gwasanaeth LHDTh oedd yn bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Efallai bod y ffaith na wnaeth unrhyw un LHDTh oedd yn bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ymateb mewn amgylchedd ar-lein dienw amlygu'r heriau penodol y mae'r grŵp hwn o bobl yn debygol o'u hwynebu wrth droi at wasanaethau. Gallai ymchwil bellach a ddyluniwyd yn benodol i gysylltu'n sensitif â'r grŵp hwn ddatgelu rhwystrau ychwanegol oedd heb eu datgelu yn yr astudiaeth hon.

Fframwaith, diffiniadau a strwythur damcaniaethol

Diffiniadau a therminoleg

1.13 Rhestrir y diffiniadau cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol a ddefnyddir yn yr astudiaeth hon yn yr eirfa ar flaen yr adroddiad hwn, ynghyd â'r derminoleg a ddefnyddir mewn perthynas â chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhyw.

1.14 Cyfeiria LHDTh at bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, yn ogystal â chyfranogwyr yn yr astudiaeth a ddynododd gyfeiriadedd rhywiol heb fod yn heterorywiol a rhywiau heb fod yn ddeuaidd eraill.

Cyfeiria'r term "cis" at bobl nad ydynt yn dynodi eu hunain yn drawsrywiol.

1.15 Defnyddiwn y term "pobl sydd wedi cael profiad" o gamdriniaeth, yn hytrach na "dioddefwr" neu "goroeswr". Adlewyrcha hyn ddiffyg tystiolaeth gan bobl sydd wedi cael profiad o gamdriniaeth o ran pa derm sydd fwyaf derbyniol a diffyg consensws penodol ymhlith safbwyntiau pobl LHDTh (Donovan a Hester, 2010; Rowlands, 2006).

Fframwaith damcaniaethol a strwythur yr adroddiad

1.16 Mae ein dadansoddiad yn tynnu oddi ar fframwaith damcaniaethol i ofyn am help ar gyfer trais gan bartner mynwesol a gynigir gan Liang a chydweithwyr (2005). Dadleuwyd ganddynt fod gofyn am help yn cael ei ddylanwadu gan ffactorau unigol, rhyngbersonol a chymdeithasol-ddiwylliannol. Mae ffactorau unigol yn ymwneud ag amgyffrediad y dioddefwyr o'u hunain ac o'r gamdriniaeth, er enghraifft profiad o hunan-feio. Mae ffactorau rhyngbersonol yn ymwneud â'u perthnasoedd uniongyrchol, ac yn benodol tactegau a ddefnyddiwyd gan y cyflawnydd i atal hunan ofyn. Mae rhwystrau cymdeithasol-ddiwylliannol yn ymwneud ag ystod eang o ffactorau'n ymwneud â'r rhwystrau strwythurol a diwylliannol mewn cymdeithas a'r ddarpariaeth gwasanaeth, megis pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn teimlo nad yw gwasanaethau cam-drin domestig prif ffrwd yn ddiwylliannol sensitif.

1.17 Yn y bennod nesaf, cyflwynir y canfyddiadau o'r Asesiad Cyflym ar Dystiolaeth. Canolbwyntia Pennod 3 ar rwystrau unigol a rhyngbersonol y mae pobl LHDTh yn cael profiad ohonynt wrth droi at wasanaethau priodol, sy'n canolbwyntio ar eu hamgylchiadau a'u profiadau unigol a'u perthnasoedd gyda phobl eraill. Canolbwyntia Pennod 4 ar rwystrau strwythurol a diwylliannol yn y ddarpariaeth gwasanaethau (rhwystrau cymdeithasol-ddiwylliannol). Amlinella Pennod 5 feysydd arfer a chyfleoedd addawol presennol ar gyfer datblygu gwasanaethau ymhellach. Mae Pennod 6 yn gosod argymhellion i Lywodraeth Cymru wella mynediad pobl LHDTh i wasanaethau cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol priodol.

2 Adolygiad o dystiolaeth

2.1 Dyluniwyd gwasanaethau trais domestig a rhywiol yn bennaf gan gadw menywod heterorywiol, cis mewn cof, gan ymateb i gorff tystiolaeth cryf sy'n dangos bod y mathau hyn o gamdriniaeth yn cael eu profi amlaf gan fenywod ac yn cael eu cyflawni gan ddynion. Fodd bynnag, er bod rhwystrau cyffredinol i droi at wasanaethau ar gyfer cam-drin domestig, trais rhywiol, stelcio ac aflonyddu, mae ein hadolygiad o'r dystiolaeth bresennol yn dangos bod pobl LHDTh yn wynebu rhwystrau penodol sydd weithiau'n wahanol i'r rhai sy'n cael eu profi gan fenywod heterorywiol, cis. Dros y degawd diwethaf, mae'r ymchwilwyr wedi canolbwyntio'n fwyfwy ar fynd i'r afael â'r bwlch tystiolaeth hwn.

2.2 Cyflwyna'r bennod hon y dystiolaeth allweddol yn y maes hwn sy'n berthnasol i ganfyddiadau'n hymchwil sylfaenol yng Nghymru. Mae'r adolygiad o dystiolaeth llawn ar gael yn Atodiad A.

Rhwystrau unigol a rhyngbersonol

2.3 Awgryma'r dystiolaeth bresennol y gallai pobl LHDTh wynebu ystod o rwystrau sy'n gysylltiedig â'u hamgyffrediad o'u hunain ac o gam-drin (rhwystrau unigol) a chamau gweithredu'r bobl y mae ganddynt berthynas gyda nhw (rhwystrau rhyngbersonol).

2.4 Ar y cyfan, nid yw pobl sy'n cael profiad o gam-drin domestig yn gofyn am help oherwydd nid ydynt yn cydnabod eu profiad fel camdriniaeth (WNC, 2009; Todahl et al, 2009). Hwyrach fod rhwystr ychwanegol fan hyn i bobl LHDTh sy'n anymwybodol y gall cam-drin domestig ddigwydd mewn perthnasoedd un rhyw, ac felly nid ydynt yn cydnabod eu profiad fel camdriniaeth (Rowlands, 2006; Donovan, 2011; Richards et al, 2003). At hynny, canfu Hardesty (2011) fod lesbiaid wedi adrodd nad oeddent yn gwybod iddynt gael eu "cwmpasu" gan ddeddfau cam-drin domestig a bod ganddynt hawl i alw'r heddlu pan oedd yn digwydd.

2.5 Lle teimla pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn ansicr, neu gywilydd ynghylch eu rhywioldeb, gallai camdrinwyr ddefnyddio ymdeimlad negyddol yr unigolyn o'i hun i ymarfer rheolaeth drostynt (Hardesty, 2011; Robinson & Rowlands, 2006; Duke & Davidson, 2009). Gallai camdrinwyr ddefnyddio tactegau'n seiliedig ar gyfeiriadedd rhywiol neu

hanes rhyw, fel “datgelu” bod rhywun yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol i’w rheoli (Hester et al, 2012; Ard a Makadon, 2011; Duke a Davidson, 2009). Gallai’r camdriniwr geisio ynysu’r dioddefwr (Constable et al, 2011), a allai, yn ei dro, gyfrannu at ei ofnau o fod yn unig (Donovan, 2011), ofn y bydd eu cymuned yn troi cefn arnynt (Hardesty, 2011) neu golli eu cysylltiad mwyaf sicr â’r gymuned LHDTh (Duke a Davidson, 2009), a chynyddu teimlad o ymrwymiad i’r partner camdriniol ac anallu i adael y berthynas (Bornstein et al, 2006).

2.6 Yn gysylltiedig â hyn, awgryma Roch a’r cydweithwyr (2010) y gallai pobl drawsrywiol hefyd feddu ar euogrwydd heb ei ddatrys a hunangasineb am fod yn drawsryweddol, sy’n ei gwneud hi’n anodd derbyn eu bod yn haeddu cefnogaeth.

2.7 Yn ogystal â chael profiad o gamdriniaeth gan bartneriaid mynwesol, awgryma canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron ar briodasau dan orfod a mathau eraill o drais seiliedig ar “anrhydedd” y gallai pobl LHDTh wynebu’r mathau hyn o gamdriniaeth gan berthnasau neu bobl eraill yn eu cymuned o ganlyniad i’r ffordd y caiff eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw eu dirnad. Noda’r CPS y gallai hyn gynnwys y defnydd o briodasau dan orfod i “wella” pobl LHDTh, neu ddefnyddio trais “cywirol”. Mae taflen wybodaeth yr Uned Priodasau dan Orfod (2013) ar bobl LHDTh a phriodasau dan orfod yn rhoi manylion astudiaethau achos o bobl hoyw a lesbiaidd sy’n cael eu gwthio neu eu twyllo gan berthnasau i deithio i wledydd De Asia a’r Dwyrain Canol a’u gorfodi i briodi. Yn yr astudiaethau achos hyn, disgrifia bobl nid yn unig priodas dan orfod ond eu profiadau o drais corfforol, carchariad a bygythiadau i ladd gan aelodau’r teulu.

2.8 Ychydig iawn o brofiad sy’n ymwneud yn benodol â phrofiad pobl LHDTh o stelcio ac aflonyddu. Nododd Rowlands (2006) mewn sampl heb fod yn gynrychioladol o ddynion hoyw a gafodd brofiad o gam-drin domestig yng Nghymru, fod chwarter ohonynt wedi cael eu stelcio gan eu partner camdriniol.

2.9 Ceir trafodaeth gyfyngedig hefyd o drais rhywiol yn erbyn pobl LHDTh yn y deunydd darllen. Dadleua Todahl a’i gydweithwyr (2009) fod pobl LHDTh sy’n profi trais rhywiol yn wynebu diffyg ymwybyddiaeth ar ddwy

sail: diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol am gymunedau LHDTh yng nghymdeithas y brif ffrwd a thrafodaeth gyfyngedig am drais rhywiol mewn cymunedau LHDTh. Canfu Allen (dyfynnwyd yn Rumney, 2009) hefyd fod dynion hoyw'n amharod i ystyried eu profiad o ryw anghydsyniol fel "trais". Canfu Hester a'i gydweithwyr (2012) fod trais rhywiol yn cael ei "guddio" yn arbennig mewn cymunedau trawsrywiol ac yn annhebygol o gael ei drafod.

Rhwystrau strwythurol a diwylliannol yn y ddarpariaeth gwasanaethau

2.10 Fodd bynnag, mae'r ymchwil bresennol yn amlygu, ochr yn ochr â'r rhwystrau unigol a rhyngbersonol fod materion strwythurol a diwylliannol pwysig yn y ffordd y dylunnir a chyflwynir gwasanaethau trais domestig a rhywiol cyflwyno a allai atal pobl LHDTh rhag mynd atynt.

2.11 Awgryma'r ymchwil y gall ofnau pobl LHDTh o gael profiad o homoffobia/ffobia o bobl ddeurywiol/trawsrywiol gan ddarparwyr gwasanaeth fod yn seiliedig ar eu profiadau blaenorol o wahaniaethu cymdeithasol (Chan, 2005) a thrawma seicolegol a chorfforol, gan gynnwys gwrthodiad y teulu, areithiau casineb, troseddau casineb a bwlio (Ard a Makadon, 2011). Mae'r profiadau hyn yn llywio'r gred fod rhagfarn yn "hydreiddio" darpariaeth gwasanaeth (Richards et al, 2003) a phryderon am orfod "datgelu" eich rhywioldeb er mwyn gofyn am help (Robinson a Rowlands, 2006; Ard a Makadon, 2011). Er enghraifft, mae pobl LHDTh yn hynod wyliadwrus o gysylltu â'r heddlu.

2.12 Mae darparwyr gwasanaeth eu hunain yn cydnabod bod diffyg allgymorth i ddioddefwyr LHDTh (Ciarlante a Fountain, 2010). Yn aml, mae'r wybodaeth sydd ar gael am gam-drin domestig yn cyfeirio dim ond at berthnasoedd heterorywiol (Bornstein et al, 2006; Donovan a Hester, 2011) a cheir diffyg gwybodaeth gyffredinol am gam-drin domestig mewn perthnasoedd un rhyw (Bornstein et al, 2006). Yn astudiaeth Rowlands yng Nghymru, adroddodd y dynion hoyw (2006) eu bod yn teimlo nad oedd ganddynt yr amser i wneud yr "ymchwil" angenrheidiol i ddarganfod pa wasanaethau oedd yn bodoli ar eu cyfer. Canfu Roch a'i gydweithwyr fod pobl drawsrywiol yn credu nad oedd gwasanaethau cam-drin domestig yn fodlon nac yn gallu'u cynorthwyo.

2.13 At hynny, mae pobl LHDTh mewn perygl o gael profiad o aflonyddwch yn seiliedig ar eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw yn y broses o geisio mynd at wasanaethau'n gorfforol. Adroddodd y menywod trawsrywiol a gymerodd ran yn ymchwil Comisiwn Cenedlaethol y Menywod ofn i fynd allan yn gyhoeddus yn eu hardal leol, er enghraifft oherwydd ymosodiad diweddar ar fenyw drawsrywiol arall neu yn sgil cael eu haflonyddu gan blant ysgol. Teimlai menywod trawsrywiol fod diffyg gorfodaeth yn erbyn pobl sy'n cam-drin menywod trawsrywiol yn eiriol (WNC, 2009).

2.14 Dynodwyd ystod o stereoteipiau negyddol, sy'n gysylltiedig yn bennaf ag ymddygiad rhywiol pobl LHDTh ar draws nifer o astudiaethau. Mae pobl LHDTh wedi sôn am bryder ynghylch eu profiad o stereoteipiau negyddol sydd wedi'u hatal rhag rhoi gwybod am eu profiadau o drais rhywiol (Todahl et al, 2009; Rumney, 2009). Er enghraifft, mae'r stereoteipiau'n cynnwys y syniad y byddai trais rhywiol yn llai trawmatig i ddynion hoyw na dynion neu fenywod heterorywiol (Rumney, 2009); bod pobl drawsrywiol yn rhywiol reibus (Todahl et al, 2009) a'u bod wedi 'twyllo'r' treisiwr yn fwriadol am eu rhyw "real" tybiedig (Gooch, 2012). Dywedodd menywod lesbiaidd a deurywiol wrth Hester a'i gydweithwyr (2012), o gael eu treisio gan fenyw, cafodd y darparwyr gwasanaethau hi'n "anodd dychmygu" merch yn treisio.

2.15 Yn olaf, noda Gooch (2012) y gall pobl drawsrywiol gael eu heithrio o wasanaethau oherwydd eu hanes o ran rhyw, er enghraifft cael eu heithrio o wasanaeth i ferched yn unig oherwydd iddynt gael eu pennu'n wryw pan gawsant eu geni. Dadleua Todahl a'i gydweithwyr (2009) fod meddygon a nyrsys yn cael eu hystyried yn bobl â diffyg parch at bobl drawsrywiol, gan arwain at bobl drawsrywiol yn cael profiad o gywilydd pellach wrth roi gwybod am drais rhywiol.

Rhwystrau croestoriadol

2.16 Mae pobl LHDTh o **leiafrifoedd ethnig** yn wynebu rhwystrau i fynd at wasanaethau oherwydd y croestoriad o brofiadau o hiliaeth a homoffobia mewn sefydliadau, ac weithiau oherwydd homoffobia yn eu cymunedau eu hunain. Noda Miles-Johnson (2013) fod aelodau cymunedau lleiafrifol

yn fwy amharod i adrodd ar drosedd yn gyffredinol oherwydd y profiadau cymunedol o erledigaeth gan yr heddlu, ac mae Chan (2005) yn cytuno fod gan bobl hoyw o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig resymau ychwanegol i beidio ag ymddiried yn yr heddlu, oherwydd y profiadau o hiliaeth, a'r ddarpariaeth ddiwylliannol neu ieithyddol amhriodol.

2.17 Awgryma Donovan a Hester (2008) fod **pobl LHDTh ifanc** (dan 25 oed) yn hynod agored i gam-drin domestig am nifer o resymau: hwyrach eu bod yn ystyried mai eu perthynas gyntaf sy'n cadarnhau eu hunaniaeth; nid oes ganddynt fodelau o ran sut dylai perthynas un rhyw gadarnhaol fod; bod eu perthynas wedi'i gwreiddio yn eu rhwydweithiau cyfeillgarwch LHDTh a bod ganddynt ddiffyg adnoddau i chwilio am help.

2.18 Wrth ddadansoddi eu set data cenedlaethol o ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n troi at wasanaethau Cynghorwr Annibynnol ar Drais Domestig sy'n rhan o'r rhaglen Insights, canfu CAADA (2013) fod y nifer fach o bobl LHDTh sy'n mynd at y gwasanaethau hyn wedi cael profiad **ddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl** lefel uwch na dioddefwyr heterorywiol cam-drin domestig. Awgryma CAADA mai un esboniad i hyn o bosibl yw bod y rhwystrau y gallai pobl LHDTh eu hwynebu wrth droi at wasanaethau olygu eu bod yn gofyn am help yn nes ymlaen, a bod eu hanghenion wedyn wedi mynd yn fwy "cymhleth."

Arfer effeithiol wrth liniaru rhwystrau

2.19 Mae'r rhan ganlynol yn cyflwyno arferion effeithiol a ddynodwyd yn y deunydd darllen presennol, ond hwyrach nad oes modd eu trosglwyddo'n uniongyrchol i'r cyd-destun Cymreig. Ym Mhennod 5, adlewyrchwn ar rai o'r arferion a awgrymir fan hyn, o fewn cyd-destun yr ymchwil gyda darparwyr a phobl LHDTh yng Nghymru. Gosodir ein hargymhellion ein hunain ar gyfer gwella mynediad i wasanaethau yng Nghymru ym Mhennod 6.

Codi ymwybyddiaeth

2.20 Awgryma Donovan (2011) gynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth mewn cymunedau LHDTh o gam-drin domestig. Gallai hyn gynnwys ymgyrchoedd addysg ac allgymorth ymwybyddiaeth gyhoeddus cenedlaethol a lleol (Ciarlante a Fountain, 2010), neu ymgyrchoedd

hysbysebu sy'n defnyddio lluniau o gyplau un rhyw a geirfa niwtral o ran rhyw (Duke a Davidson, 2009). Dadleua McClennan (2005) y byddai sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar raddfa ehangach yn lleihau'r gwarthnod i rywun mewn perthynas un rhyw i ofyn am gymorth.

2.21 Yn ogystal â sicrhau nad yw deunyddiau'n tybio heterorywioldeb (Constable, 2011) a'u bod yn cynnwys pobl drawsrywiol (Roch et al, 2010), mae Roch a'i chydweithwyr yn argymell bod asiantaethau'n hysbysebu'n glir y byddant yn gweithio gyda phobl drawsrywiol (neu fenywod trawsrywiol ar gyfer sefydliadau menywod yn unig). Awgryma Gooch (2012) roi posteri i fyny sy'n cadarnhau pobl drawsrywiol yn ogystal â phobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol mewn gwasanaethau, a rhoi ystyriaeth i doiledau yn y gwasanaeth fel safle cam-drin posibl i bobl drawsrywiol gan ddefnyddwyr eraill y gwasanaeth a allai cam-enwi eu rhyw.

Gwella gwasanaethau prif ffrwd

2.22 Yn yr un modd, awgryma'r deunydd darllen weithgareddau codi ymwybyddiaeth sydd wedi'u targedu at wasanaethau cam-drin domestig, yr heddlu a'r Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth am gam-drin domestig mewn perthnasoedd LHDTh (Donovan, 2010 & 2011). Awgryma Roch a'i chydweithwyr (2010) y dylai staff gael hyfforddiant ar brofiadau unigryw ac anghenion penodol pobl drawsrywiol sy'n cael eu cam-drin yn y cartref.

2.23 Mae canfyddiadau Duke a Davidson (2009) yn cefnogi manteision "Model Rhaglennu Cadarnhaol pobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol, gan gynnwys hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau i oroeswyr, hysbysebu effeithiol, croesgydweithredu rhwng asiantaethau cymunedol ac adnoddau ac atgyfeiriadau cadarnhaol i bobl lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol (Duke a Davidson, 2009).

Gwasanaethau a rhaglenni arbenigol

2.24 Yn ogystal â'r angen am ddarpariaeth brif ffrwd fwy cynhwysol, awgryma rai ymchwilwyr ddarparu gwasanaethau cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol i bobl LHDTh. Canfu Bornstein a'i gydweithwyr (2006) na fyddai pobl LHDTh sy'n cael profiad o gam-drin domestig a

oedd yn troi at raglenni cam-drin domestig LHDTh arbenigol wedi gofyn am gefnogaeth o raglen y brif ffrwd.

Ymholiadau arferol ac asesu risgiau

2.25 Awgryma Ard a Makadon (2011) y dylai gweithwyr proffesiynol ymholi'n sensitif am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhyw cyn sgrinio ar gyfer cam-drin domestig, a dadleuant lle na ddefnyddir ymholiadau arferol eisoes, mae'n bosibl y caiff trothwy is ei warantu ar gyfer ymholiadau cam-drin domestig i bobl drawsrywiol oherwydd ymddengys eu bod yn cael profiad o gyfraddau trais uwch nag aelodau eraill y gymuned LHDTh.

Addysg rhyw a pherthnasoedd

2.26 Dadleua Donovan a Hester (2008) fod addysg rhyw a pherthnasoedd yn cael ei hyrwyddo'n aml fel arf i atal cam-drin domestig a rhywiol ond bod yr addysg hon yn canolbwyntio'n aml iawn ar ryw a pherthnasoedd heterorywiol. Codwyd y diffyg cynrychiolaeth hwn o berthnasoedd un rhyw gan gyfranogwyr ymgynghoriad Comisiwn Cenedlaethol y Menywod (2009) i lywio strategaeth genedlaethol Trais yn Erbyn Menywod.

I gloi

2.27 Darpar y dystiolaeth bresennol ddealltwriaeth fras o'r rhwystrau y gallai pobl LHDTh gael profiad ohonynt wrth droi at wasanaethau priodol ar gyfer camdriniaeth. Fodd bynnag, erys bylchau penodol:

- Canolbwyntia'r ymchwil bresennol yn bennaf ar gam-drin domestig mewn perthnasoedd mynwesol, heb fawr o dystiolaeth ar fathau eraill o gam-drin domestig fel cam-drin teuluol;
- Ceir dealltwriaeth gyfyngedig o'r rhwystrau a wyneba pobl LHDTh wrth geisio troi at wasanaethau ar gyfer stelcio ac aflonyddu, a thrais rhywiol;
- Yn aml, mae'r ymchwil bresennol yn methu gwahanu canfyddiadau rhwng profiadau penodol menywod lesbiaidd a hoyw, dynion hoyw, dynion deurywiol, dynion trawsrywiol, menywod trawsrywiol a phobl eraill a ddynodir ar y sbectrwm trawsrywiol/trawsryweddol.

2.28 Cyflwyna'r penodau canlynol ganfyddiadau o'n hymchwil ansoddol yng Nghymru, a dynnodd oddi ar y dystiolaeth bresennol i archwilio ymhellach y cyd-destun Cymreig penodol a'r bylchau yn y dystiolaeth sydd ar gael.

3 Rhwystrau unigol a rhyngbersonol o droi at wasanaethau

3.1 Dadleua Liang a'i gydweithwyr (2005) wrth i fodelau chwilio am help dueddu i ganolbwyntio ar yr "individual help-seeker's internal, cognitive processes", mae'n wir hefyd y bydd yr helpwr a ddewisir gan y dioddefwr yn "influence how she defines the problem and whether she chooses to seek help again."

3.2 Yn ein hastudiaeth, pwysleisiodd darparwyr gwasanaeth trais domestig a rhywiol yn benodol bwysigrwydd rhwystrau unigol a rhyngbersonol ar gyfer pobl LHDTh wrth droi at gefnogaeth briodol. Canolbwyntiodd ymatebion y gweithwyr proffesiynol hyn ar ffactorau'n gysylltiedig â chanfyddiadau a chredoau unigol pobl LHDTh (er enghraifft, ddim yn credu y gall camdriniaeth ddigwydd mewn perthnasoedd un rhyw) neu berthnasoedd rhyngbersonol (er enghraifft, ofn y bydd y cyflawnydd yn datgelu eu rhywioldeb). O gymharu, rhoddodd pobl LHDTh a ymatebodd ar-lein bwyslais penodol ar y rhwystrau a grëwyd gan strwythurau a diwylliant y gwasanaethau.

3.3 Amlinella'r bennod hon ffyrdd y gall profiadau pobl LHDTh o gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol wahaniaethu i brofiadau pobl heterorywiol, cis ac archwilia'r rhwystrau unigol a rhyngbersonol a allai atal pobl LHDTh rhag troi at wasanaethau priodol. Ym Mhennod 4, awn ymlaen i ganolbwyntio ar y rhwystrau strwythurol a diwylliannol yn y ddarpariaeth gwasanaethau, neu rwystrau "cymdeithasol ddiwylliannol" (Liang et al, 2005).

Profiadau penodol pobl LHDTh o gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol

3.4 Wrth reswm, gall profiad pobl LHDTh o gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol fod yn debyg iawn i brofiad pobl heterorywiol cis, ond gall fod yn wahanol hefyd ac ymwneud yn benodol â'u cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw. Dengys Ffigur 1 ar y dudalen nesaf ffyrdd y mae profiadau cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol ymhlith cyfranogwyr wedi ymwneud yn benodol â'u cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw. Yn bwysig, amlygodd pobl LHDTh a gweithwyr proffesiynol ffyrdd y mae profiadau pobl o gam-drin

domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol wedi gorgyffwrdd â, neu wedi'i gymhlethu gan gamdriniaeth, aflonyddwch, trais a bygythiadau y tu allan i'w perthnasoedd agos.

Ffigur 1. Croestoriadau o achosion o gasineb gyda cham-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol



Camdriniaeth ddomestig gan aelodau'r teulu sy'n gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhyw

3.5 Adroddodd y cyfranogwyr ar-lein a phroffesiynol fod pobl LHDTh yn hynod debygol o gael profiad o gamdriniaeth ddomestig gan

> Mae'r teulu wedi bygwth talu llofrudd os bydd hi'n [dod allan], mae'r meddyg wedi dweud wrthi ei bod hi'n ffiaidd a'i bod hi'n bechod gwarthus dweud hyn.
>
> *Sefydliad cymuned LHDTh*

aelodau'r teulu sy'n cael trafferth derbyn cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw'r unigolyn. Nodwyd y gallai hyn hefyd effeithio ar bobl drawsrywiol sydd mewn perthynas fynwesol pan fyddant yn datgelu hyn a gallai camdriniaeth ddomestig fod yn gysylltiedig â'r ffaith nad yw eu partner yn derbyn eu hunaniaeth rhyw. Awgrymodd sefydliad cymuned drawsrywiol y gallai hyn fod yn hynod heriol i ddynion trawsrywiol pan fyddant yn penderfynu trawsnewid, er enghraifft os ydynt mewn perthynas gyda phartner gwryw cis heterorywiol, gallai eu partner deimlo bod ei hunaniaeth ei hun fel dyn syth yn cael ei herio.

3.6 Awgrymodd gweithwyr proffesiynol hefyd y gallai cam-drin domestig teuluol wrth ddatgelu rhywioldeb fod yn berygl arbennig i bobl LHDTh o rai crefyddau neu gymunedau ethnig lleiafrifol, yn ogystal â phobl LHDTh gydag anableddau dysgu y gallai eu teuluoedd fod yn amharod i dderbyn eu bod yn "deall" eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw. Disgrifiodd darparwr gwasanaeth sut gallai menywod lesbiaidd a deurywiol gael eu gorfodi i briodi oherwydd bod aelodau eu teuluoedd o'r farn y byddent yn "dod dros y peth" o briodi a chael teulu. Credwyd bod dynion hoyw a deurywiol hefyd mewn perygl o briodas dan orfod, ond awgrymodd gweithiwr proffesiynol fod aelodau'r teulu'n fwy tebygol o oddef dynion oedd yn cael perthynas y tu allan i'r briodas, o'r un rhyw er mwyn cadw'r wyneb o briodas heterorywiol, ond petai menywod yn ymddwyn fel hyn, byddent mewn perygl o fynd trwy gamdriniaeth bellach gan aelodau'r teulu.

> Ar y cyfan [mewn rhai cymunedau lleiafrifoedd ethnig], rydych chi i fod i dderbyn pwy ydych chi a dyna sut cawsoch eich geni a dyna hi. Felly os oeddech yn gwneud rhywbeth i'r gwrthwyneb, nid yw hynny'n dderbyniol i'r norm bondigrybwyll.
>
> *Darparwr gwasanaeth cam-drin domestig*

3.7 Teimlwyd y byddai pobl drawsrywiol o leiafrifoedd ethnig yn wynebu pwysau i beidio â thrawsnewid oherwydd bod disgwyl iddynt "dderbyn...y ffordd y cawsoch eich geni," ac yn yr un modd gallent fod mewn perygl o gael eu cam-drin gan aelodau'r teulu o ddatgelu eu rhywioldeb.

> Cefais bost cas. Cafodd fy nghath ei lladd ac wedyn cefais gerdyn cydymdeimlad gan y person a laddodd y gath. Rydw i wedi cael fy ngalw'n enwau. Gwnaeth fy chwaer fygwth ymosod arnaf gyda gwydr yn nhe angladd fy mam
>
> *Dyn cis hoyw 36-45 oed*

3.8 Gallai cam-drin domestig gael ei waethygu wedyn gan gyn bartneriaid neu aelodau'r teulu'n rhoi gwybod i'r cymdogion am gyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw'r unigolyn, gan arwain atynt yn cael profiad o droseddau casineb neu achosion o gasineb gan gymdogion hefyd.

Trais rhywiol fel math o drosedd casineb

3.9 Yn ogystal â'r cyfranogwyr yn rhoi gwybod am drais (rhywiol), ymosodiad rhywiol a cham-drin rhywiol mewn plentyndod, roedd tystiolaeth hefyd fod pobl LHDTh yn mynd trwy gamdriniaeth rywiol a bygythiadau fel math o drosedd casineb, yn benodol oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw. Adroddodd un pâr lesbiaidd am fygythiadau o drais dros y ffôn. Awgrymodd gweithiwr proffesiynol fod "rheolaeth" ar fenywod yn arbennig o gryf mewn rhai cymunedau o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn gludwyr ac yn stiwardiaid sicrhau "anrhydedd" yn y teulu. Lle nad oedd menywod yn cydymffurfio â'r model heterorywiol, cis, ystyriwyd ymosodiadau a thrais yn ffordd o ailddatgan rheolaeth y gwryw.

Stelcio ac aflonyddu rhywioledig

3.10 Disgrifiodd y cyfranogwyr ar-lein ystod o enghreifftiau o stelcio ac aflonyddu a fyddai'n fwy tebygol o gael eu diffinio fel trosedd casineb, yn hytrach na bod yn gysylltiedig â cham-drin domestig. Fodd bynnag, gwnaethon nhw ddisgrifio hefyd lle mae stelcio ac aflonyddu'n seiliedig ar eu cyfeiriadedd rhywiol yn gorgyffwrdd gyda thrais rhywiol.

> Clustfeiniodd yr heddlu ar y ffôn a chlywed bygythiadau o drais ond gwnaethant ddim byd ond mynd i dŷ'r bachgen a siarad gyda'i rieni.
> *Menyw cis lesbiaidd 46-55 oed*

Camdriniaeth ddomestig yn arwain at ddigartrefedd ac mewn perygl o fynd trwy drais rhywiol a throseddau casineb

3.11 Disgrifiodd gweithwyr proffesiynol y perygl y gall cam-drin domestig, ac yn benodol camdriniaeth gan y teulu arwain at bobl LHDTh yn mynd yn ddigartref. Ystyriwyd bod

> Roeddwn i mewn perthynas gamdriniol am bum mlynedd… Mae'r person dal yn ceisio fy aflonyddu ac mae'n bwlio fy ffrindiau a'm teulu trwy'r rhyngrwyd. Mae gormod o ofn arnaf fynd i weld fy nheulu yn yr ardal y dihangais oddi wrthi, felly rwy'n dibynnu ar y teulu i ddod i'm gweld i.
> *Dyn cis hoyw 36-45 oed*

pobl ifanc mewn perygl penodol o hyn a gall digartrefedd wneud pobl LHDTh yn hynod agored i droseddau casineb, achosion o gasineb a thrais rhywiol. Fel y disgrifir yn Ffigur 1, disgrifiodd un gweithiwr proffesiynol weithio gyda pherson trawsrywiol ifanc a wnaed yn ddigartref ac a gafodd brofiad o drais rhywiol yn dilyn hynny wrth werthu rhyw i oroesi.

Rhwystrau unigol i droi at wasanaethau

3.12 Amlygodd cyfranogwyr ar-lein a phroffesiynol bedwar maes lle gallai gwybodaeth, canfyddiadau a chredoau unigol pobl LHDTh eu hatal rhag troi at gefnogaeth briodol:

- Gwybodaeth am gam-drin ym mherthnasoedd pobl LHDTh;
- Gwybodaeth a chysylltioldeb â gwasanaethau cyfeillgar i bobl LHDTh;
- Hyder yn eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw; a
- Beio'u hunain mewn perthynas â'u profiad o gamdriniaeth.

Gwybodaeth am gam-drin ym mherthynas pobl LHDTh

3.13 Awgrymodd y cyfranogwyr proffesiynol y gallai pobl LHDTh ystyried bod y gymuned LHDTh yn "bobl hapus a llon" a bod perthnasoedd un rhyw yn aml yn cael eu hystyried gan bobl LHDTh yn ystrydebol fwy cyfartal, mwy agored i drafod problemau ac o bosibl yn fwy gofalgar. Awgrymwyd bod y canfyddiad hwn wedi atal pobl rhag dynodi eu profiadau o gam-drin domestig.

3.14 Awgrymodd y cyfranogwyr hefyd y gallai'r diffyg adnabyddiaeth hon o'u profiadau eu hunain o gamdriniaeth fod yn gysylltiedig â'r ffordd y trafodir cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol fel materion sy'n effeithio'n bennaf ar bobl cis, heterorywiol. Disgrifiodd un cyfranogwr proffesiynol sut (er gwaethaf bod yn ymwybodol o gam-drin domestig) iddi adnabod ei phrofiadau ei hun o gam-drin domestig am y tro cyntaf wrth ddarllen adroddiad ymchwil penodol i bobl LHDTh.

Gwybodaeth a chysylltioldeb â gwasanaethau neu gymuned gyfeillgar i bobl LHDTh

3.15 Dywedodd pobl LHDTh oedd wedi ac oedd heb gael profiad uniongyrchol o gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol nad oedd ganddynt "unrhyw syniad" ble i ddechrau chwilio am gefnogaeth gyfeillgar i bobl LHDTh. Dywedodd pobl eraill y byddent yn ymddwyn yn "annibynnol" ac yn ceisio datrys y materion eu hunain pe na allent ddod o hyd i wasanaeth yr oeddent yn credu ei fod yn gyfeillgar i bobl LHDTh.

> Roedd angen help arnaf ond nid oeddwn yn gwybod sut i'w gael neu a oedd unhryw help ar gael i mi.
> *Menyw cis lesbiaidd 56-65 oed*

3.16 Credai pobl LHDTh a darparwyr gwasanaeth cam-drin/trais rhywiol fod diffyg gwybodaeth a mynediad i wasanaethau'n waeth i bobl LHDTh nad oeddent wedi "datgelu" (yn agored am eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw i bobl eraill) neu'n gallu cysylltu â chymuned LHDTh anffurfiol. Nododd un darparwr gwasanaeth trais rhywiol yr ymddengys y cafwyd cynnydd diweddar ym mharodrwydd pobl drawsrywiol i ddod atynt trwy "glywed ar lafar" fod y gwasanaeth yn trin pobl drawsrywiol yn dda. Teimlai'r darparwyr fod yr anallu hwn i gael gwybodaeth mor anffurfiol yn cael ei waethygu i bobl ifanc sy'n newydd i gymunedau LHDTh a phobl a allai gael eu hynysu ohono mewn ardaloedd gwledig.

Hyder yn eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw

3.17 Awgrymodd y gweithwyr proffesiynol fod pobl LHDTh sy'n hapus gyda'u hunaniaeth yn teimlo'n llai pryderus ynghylch gofyn am help. Fodd bynnag, lle nad ydynt "wedi datgelu'u rhywioldeb ac yn hapus", un o'r ofnau mwyaf am droi at wasanaethau oedd y byddai'n rhaid iddynt ddatgelu eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw er mwyn gwneud hynny. Yn ychwanegol at hyn oedd yr ofn y galla'r wybodaeth "ledu" i'r gymuned ehangach gyda'r posibilrwydd o ganlyniadau negyddol, gyda phobl yn byw mewn

> Weithiau mae gan bobl eu taith bersonol eu hunain ac yn cael problem yn derbyn eu bod yn lesbiaidd neu'n hoyw ac weithiau'n gallu creu eu rhwystrau eu hunain; nid ydynt yn gwybod sut i ddelio â hynny.
> *Darparwr gwasanaeth tai*

cymunedau gwledig lle'r oedd "pawb yn adnabod pawb", gan wynebu rhwystrau penodol yn hyn o beth.

3.18 Yn gysylltiedig â hyn, awgrymwyd y gallai pobl sydd yn y broses o drawsnewid rhyw brofi teimladau negyddol o gwmpas rhannau penodol o'r corff, ac felly, gallent fod yn amharod i gysylltu â gwasanaethau lle cânt eu hamlygu'n gorfforol, megis gwasanaethau ymosodiad rhywiol fforensig. Nododd darparwr trais rhywiol fod hyn eisoes yn broses fewnwthiol i unrhyw un, ond y gallai deimlo'n "fwy mewnwthiol" i bobl drawsrywiol, sy'n wynebu cael eu corff wedi'i archwilio mewn rhyw maen nhw "eisoes yn ceisio symud oddi wrtho."

3.19 Awgrymodd y darparwyr nad oeddent yn monitro cyfeiriadedd rhywiol na rhyw y defnyddwyr gwasanaeth fel mater o arfer, mewn amgylchiadau anodd, teimlent y dylai'r dewis o ran datgelu gael ei "arwain" orau gan eu cleientiaid a mwy na thebyg nad oedd hi'n briodol delio â materion fel "datgelu rhywioldeb" mewn adeg o argyfwng. Esboniodd y darparwyr na fyddent yn "ymchwilio i fywydau pobl" yn rhy ddwfn a theimlent y byddai'n rhy gymhleth ceisio mynd i'r afael â materion o gamdriniaeth a dod i delerau gyda'u hunaniaeth ar yr un pryd.

> Nid wyf yn credu eu bod yn gallu delio â'r materion ychwanegol hynny o ddod allan. Oherwydd os ydych chi'n dod o deulu neu gymuned lle mae diwylliant, anrhydedd a chywilydd yn beth mawr, mae troi at loches neu gefnogaeth gan 'rywun o'r tu allan' yn beth mawr. Felly maen nhw eisoes wedi croesi pont fawr iawn.
>
> *Darparwr gwasanaeth cam-drin domestig*

3.20 O gymharu, darparodd y cyfranogwyr ar-lein farn arall y gallai cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw, neu'r ffaith eu bod mewn perthynas un rhyw neu heb fod yn rhyw deuaidd fod yn wybodaeth bwysig er mwyn mynd i'r afael â'u hachos a'u hanghenion fel unigolyn. Trafodir hyn ymhellach yn y bennod nesaf.

> Ar ôl blwyddyn, dechreuais ymladd yn ôl a byw gydag euogrwydd hynny. Yn anffodus, euthum â hyn i'm perthynas nesaf ac euthum yn gamdriniwr wrth chwarae'r dioddefwr…Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau cam-drin yn canolbwyntio ar fenywod ac nid oeddwn yn ymwybodol o unrhyw gefnogaeth i ddynion hoyw
>
> *Dyn cis hoyw 36-45 oed*

Hunanfeio mewn perthynas â'u profiadau o gamdriniaeth

3.21 Disgrifiodd cyfranogwyr ar-lein sut

mae hunanfeio mewn perthynas â'u profiadau o gamdriniaeth wedi'u hatal rhag troi at gefnogaeth. Ond, roedd eu disgrifiadau'n amlygu'r ffyrdd yr oedd yr hunanfeio hyn yn codi o gael gwasanaethau heb fod yn gadarnhaol nac yn ymatebol. Er enghraifft, disgrifiodd un dyn hoyw fod y ffaith nad oedd yn gwybod fod yna wasanaethau a allai fod wedi'i gefnogi wedi'i arwain (yn ei farn ef) i "ymladd nôl" yn erbyn ei bartner camdriniol.

Rhwystrau rhyngbersonol i droi at wasanaethau

3.22 Ar ben gwybodaeth, canfyddiadau a chredoau unigol pobl LHDTh mae ffactorau rhyngbersonol sy'n gweithredu i'w hatal rhag gofyn am help. Dynododd y cyfranogwyr proffesiynol ac ar-lein ddau faes allweddol lle'r oedd pobl LHDTh yn cael profiad o rwystrau rhyngbersonol penodol i droi at gefnogaeth:

- Cael profiad o dactegau rheoli gan y cyflawnydd sy'n canolbwyntio ar gyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw'r unigolyn
- Pryder y gallai troi at wasanaethau arwain at fathau eraill o gamdriniaeth, megis digwyddiadau casineb neu gamdriniaeth gan bobl eraill yn eu cymuned.

Rheolaeth gan gyflawnwyr

3.23 Awgrymodd y gweithwyr proffesiynol y gallai cyflawnwyr cam-drin domestig chwarae ar ofnau pobl o gael eu datgelu, a bod eu diffyg hyder yn eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw (a ddisgrifir uchod), yn eu hatal rhag gofyn am gefnogaeth. Darparodd un gweithiwr proffesiynol ystod o enghreifftiau o ran sut gallai cyflawnwyr reoli pobl drawsrywiol, megis dal arian yn ôl am driniaeth hormonaidd neu ddillad i'w hatal rhag byw yn y rhyw maent yn ceisio trawsnewid iddo. Gall hyn greu gwir rwystr a fyddai'n atal pobl drawsrywiol rhag troi at wasanaethau rhyw deuaidd (merched yn unig neu ddynion yn unig).

Pryder am gynyddu mathau eraill o gamdriniaeth

3.24 Mae pryder am waethygu'r gamdriniaeth trwy roi gwybod amdani'n gyffredin ymhlith menywod cis, heterorywiol sy'n cael eu cam-drin yn y cartref. Fodd bynnag, disgrifiodd y cyfranogwyr ar-lein a phroffesiynol

sut roedd pobl LHDTh yn ofni trais a chamdriniaeth gan bobl ar wahân i'r cyflawnydd o adrodd yn ei gylch.

3.25 Roedd gofidiau penodol am heddweision yn eu lifrai'n dod i gartrefi pobl LHDTh, o bosibl oherwydd yr ôl-effeithiau posibl yn y gymuned leol petai pobl eraill yn dod i wybod am eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw.

3.26 Disgrifiodd darparwr gwasanaeth y ffordd, yn eu profiad nhw o gefnogi dynion hoyw, fod "y gymuned yn cymryd ochr y cyflawnydd" a bod y person a gafodd ei gam-drin yn teimlo fod pobl yn "mynd yn ei erbyn gyda'i gilydd". Awgrymodd darparwr arall petai pobl LHDTh ddu ac o leiafrifoedd ethnig yn datgelu camdriniaeth mewn perthynas un rhyw, roeddent yn rhoi eu hunain mewn perygl o fynd trwy drais seiliedig ar "anrhydedd" neu briodas dan orfod.

I gloi

3.27 Mae ymatebion gan gyfranogwyr proffesiynol ac ar-lein yn dangos ffyrdd y mae pobl LHDTh yn profi rhwystrau unigol a rhyngbersonol mewn ffyrdd penodol sy'n gysylltiedig â'u cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw.

3.28 Fodd bynnag, wrth greu anhawster wrth droi at wasanaethau, nid yw'r rhwystrau hyn yn esbonio'n llawn dangynrychiolaeth pobl LHDTh ymhlith defnyddwyr gwasanaeth trais domestig a rhywiol. Yn y bennod nesaf, awn y tu hwnt i'r rhwystrau unigol a rhyngbersonol i archwilio rhwystrau strwythurol a diwylliannol yn y ffordd y mae gwasanaethau trais domestig a rhywiol yn cael eu darparu yng Nghymru ar hyn o bryd.

4 Rhwystrau strwythurol a diwylliannol yn y ddarpariaeth gwasanaeth

4.1 Amlygodd pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol, androgynaidd, panrywiol, genderqueer a rhyngrywiol a gymerodd ran yn yr astudiaeth ffactorau unigol a rhyngbersonol sy'n ymddwyn fel rhwystrau i ofyn am help ar gyfer cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol, a amlinellwyd yn y bennod flaenorol. Fodd bynnag, darparwyd ganddynt hefyd adroddiadau cyfoethog o'r ffyrdd y gall agweddau ac arferion darparwyr gwasanaeth, ac yn y gymuned ehangach wneud iddynt deimlo wedi'u heithrio a'u hatal rhag troi at gefnogaeth briodol.

4.2 Adlewyrchwyd y rhwystrau strwythurol a diwylliannol hyn mewn cyfweliadau proffesiynol hefyd. Adlewyrchodd rheolwyr ac ymarferwyr mewn sefydliadau LHDTh a gwasanaethau trais domestig a rhywiol ar y rhwystrau strwythurol yn y ffordd y dyluniwyd a chyflwynwyd gwasanaethau o ganlyniad i fod yn llai hygyrch a chynhwysol i bobl LHDTh.

4.3 Dynodwyd pedwar rhwystr strwythurol a diwylliannol i droi at gefnogaeth briodol gan gyfranogwyr yr astudiaeth ac fe'u trafodir yn fanwl yn y bennod hon:

- Heterorywioldeb tybiedig yn y ddarpariaeth gwasanaeth;
- Darpariaeth gwasanaeth rhyw deuaidd (merched yn unig neu ddynion yn unig).
- Lefel annigonol o amrywiaeth, gwybodaeth a sgiliau staff; a
- Lleihau profiadau pobl LHDTh o gamdriniaeth.

Heterorywioldeb tybiedig mewn darpariaeth gwasanaeth

4.4 Nododd y cyfranogwyr yn y cyflwyniadau ar-lein eu bod yn cael profiad o heterorywioldeb tybiedig ar draws ystod o wasanaethau yr ânt atynt yn eu bywydau pob dydd, fel meddygon teulu'n cynnig cyngor atal cenhedlu amhriodol mewn perthynas un rhyw i ferched. Os ydy unigolyn yn cael profiad o gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol, mae hyn yn eu rhwystro rhag gofyn am help eu meddyg teulu, ond yn

effeithio ar eu hamgyffrediad o'r tebygolrwydd y bydd darparwyr gwasanaethau cam-drin a thrais rhywiol yn hollgynhwysol.

4.5 Nododd y cyfranogwyr ar-lein a phroffesiynol fod y wybodaeth sydd ar gael am gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol yn tueddu i ganolbwyntio ar fenywod mewn perthnasoedd heterorywiol. Nododd cyfranogwr ar-lein bod hyn yn ei gwneud hi'n "anodd dechrau siarad", tra teimlai un arall petai'n ffonio llinell gymorth a bod y person yn tybio'u bod yn heterorywiol mai "gwastraff amser fyddai"."

4.6 Roedd y darparwyr gwasanaeth yn glir bod y gwasanaethau cam-drin domestig sydd ar gael yng Nghymru yn rhai "mynediad agored" a gall pobl LHDTh fynd atynt yn yr un ffordd â phobl cis, heterorywiol. Fodd bynnag, nododd y darparwyr hefyd oherwydd bod mwyafrif y dioddefwyr trais domestig a rhywiol yn fenywod cis heterorywiol, bod y gwasanaethau'n cael eu hyrwyddo mewn ffordd sy'n adlewyrchu hyn. Mae gwasanaethau trais rhywiol, ar y llaw arall, yn llai tebygol o fod yn fynediad agored ac felly mae angen i'r asiantaeth atgyfeirio, fel meddyg teulu, wybod bod y gwasanaeth ar gael i bawb.

> Byddwn yn dweud ein bod ni'n gweithio gydag unrhyw un. Byddwn ni'n dweud hynny, ond dydw i ddim yn meddwl fod y neges yn cyrraedd y cymunedau hynny, os ydych chi'n fy neall i?
>
> *Darparwr gwasanaeth cam-drin domestig*

> Heb yr anogaeth honno o weld pethau ar y waliau, o weld yr enfys, o weld pethau 'rydym yn gyfeillgar i LHDTh', rydych chi'n cael llawer o bobl sy'n amharod i droi at ddarparwyr gwasanaeth oherwydd nid ydynt yn gwybod a fydd rhywbeth fel gwahaniaethu'n cael ei ddelio ag ef.
>
> *Darparwr gwasanaeth* LHDTh

4.7 Dadleuodd darparwyr gwasanaeth LHDTh yn benodol fod profiadau bywyd pobl LHDTh o heterorywioldeb tybiedig wrth droi at wasanaethau'n golygu, ar y cyfan, eu bod yn annhebygol o droi at wasanaethau cam-drin/trais rhywiol heb sicrwydd penodol fod y gwasanaeth yn gyfeillgar i bobl LHDTh. Mae hyn oherwydd na theimlant y bydd gwasanaethau cam-drin/trais rhywiol yn fwy cyfeillgar i bobl LHDTh na gwasanaethau eraill maen nhw wedi troi atynt yn y gorffennol.

4.8 Cadarnhaodd y cyfranogwyr ar-lein y farn hon, gan fynegi diffyg ffydd fod gwasanaethau cam-drin/trais rhywiol wedi “symud ymlaen” o ran cynhwysiant pobl LHDTh. Ond, hyd yn oed lle mae gwasanaethau’n hysbysebu eu bod yn gyfeillgar i bobl LHDTh, nid yw hyn o reidrwydd yn ddigon i bobl LHDTh fod yn ffyddiog fod y gwasanaeth yn gynhwysol i bobl mewn perthynas un rhyw.

> Nid ydw i’n argyhoeddig fod gwasanaethau wedi symud ymlaen; maen nhw’n dweud y pethau iawn ond yr hyn y mae ei angen yn fwy na dim yw marchnata gweledol – gyda delweddau o drais un rhyw; rhaid i’r staff sy’n darparu’r gwasanaethau hynny gael eu hyfforddi, eu rheoli, eu monitro’n ddigonol etc i sicrhau bod y gwasanaeth o’r un safon â’r rhai sy’n heterorywiol
>
> *Person genderqueer sydd wedi cael ei gam-drin yn y cartref*

Darpariaeth gwasanaeth rhyw deuaidd

4.9 Mae’r gwasanaethau trais rhywiol arbenigol yng Nghymru’n niwtral o ran rhyw gan mwyaf, sy’n golygu bod modd i bobl o bob rhyw fynd atynt. Er y gall Cynghorwyr Annibynnol Cymru ar Drais Domestig weithio’n ddamcaniaethol gyda phob rhyw, teimlai’r darparwyr fod y ddarpariaeth gwasanaeth cam-drin domestig yng Nghymru’n parhau’n benodol o ran rhyw gan mwyaf. Teimlasant fod hyn yn gofyn yn gyffredinol fod pobl sy’n gofyn am help ar gyfer cam-drin domestig yn dynodi eu hunain yn wryw neu’n fenyw ac wedyn yn mynd at wasanaeth un rhyw.

4.10 Mae sector y menywod wedi sefydlu achos sefydledig ar gyfer y ddarpariaeth gwasanaethau menywod yn unig ar gyfer menywod cis, heterorywiol (Canolfan Adnoddau’r Menywod, 2007; Comisiwn Cenedlaethol y Menywod, 2010). Fodd bynnag, amlygodd y cyfranogwyr yn ein hastudiaeth yr anawsterau y mae’r ddarpariaeth gwasanaeth rhyw deuaidd yn eu cyflwyno i bobl drawsrywiol a phobl nad ydynt yn dynodi eu hunain yn fenyw neu’n wryw. Nodwyd ganddynt hefyd yr anghyfartaledd yn y ddarpariaeth sydd ar gael i ddynion o gymharu â menywod, sydd â goblygiadau i ddynion hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

> Mae’n [Trawsnewid] broses hylifol iawn ac yn ymwneud â hunanadnabyddiaeth. Yn anffodus, bydd llochesi’n ei wneud ar ryw a pha ryw ydych chi ar hyn o bryd.
>
> *Darparwr gwasanaeth cam-drin domestig*

Mynediad gwasanaeth i bobl o rywiau heb fod yn ddeuaidd

4.11 Mae darpariaeth gwasanaeth rhyw deuaidd yn cyflwyno anawsterau hefyd i bobl sy'n cael eu cam-drin yn y cartref nad ydynt yn dynodi eu hunain naill ai'n wryw neu'n fenyw, naill ai oherwydd eu bod yn dynodi'u hunain yn rhywun sydd heb fod yn ddeuaidd (er enghraifft, fel genderqueer), neu oherwydd eu bod yn y broses o drawsnewid ond nad ydynt o reidrwydd yn dynodi eu hunain yn wryw neu'n fenyw ar yr adeg y mae angen y gwasanaeth arnynt.

4.12 At ei gilydd, mae troi at wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru'n gofyn i'r unigolyn ddynodi ei hun yn wryw neu'n fenyw. Fodd bynnag, awgrymodd y darparwyr gwasanaeth petai rhywun yn gofyn am help nad oeddent yn dynodi eu hunain yn wryw neu'n fenyw y byddent yn hyblyg a byddai'r flaenoriaeth bob amser ar ddiogelwch yr unigolyn. Darparwyd enghraifft o hyn gan Gymru Ddiogelach, a gefnogodd defnyddiwr gwasanaeth heb fod yn ddeuaidd trwy gael dau weithiwr oedd yn cydgyflwyno cefnogaeth, un o Gynllun Dyn ac un o'r Uned Diogelwch i Fenywod.

> Os ydy rhywun yn dynodi ac yn dewis dynodi ei hun yn ddyn, maen nhw'n mynd at Gynllun Dyn. Neu'n dynodi'n fenyw yn dynodi gyda Chymorth i Fenywod.
>
> *Darparwr gwasanaeth cam-drin domestig*

4.13 Er yn ymarferol y gall darparwyr gwasanaeth addasu'n hyblyg i sicrhau bod pobl yn cael cefnogaeth waeth beth yw eu dynodiad rhyw, adroddodd y cyfranogwyr ar-lein fod eu pryder am gael eu dynodi mewn rhyw deuaidd yn eu hatal, neu wedi'u hatal yn flaenorol rhag troi at gefnogaeth.

> Gan fod fy mhartner [camdriniol] (ar y pryd) yn 'fenywaidd, nid oeddwn yn teimlo'n gysurus yn gofyn am gyngor/cefnogaeth gan sefydliadau (cam-drin domestig) a fyddai'n fy ystyried yn y rôl 'gwryw' neu wrywaidd.
>
> *Person genderqueer sydd wedi profi camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol*

Mynediad pobl drawsrywiol i wasanaethau cam-drin domestig

4.14 Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 i rym ar 1 Hydref 2010, gan wahardd defnyddwyr gwasanaeth rhag gwahaniaethu, aflonyddu neu erlid pobl ar sail ailbennu rhyw. Daeth y Cod Ymarfer statudol ar gyfer gwasanaethau

i rym ar 6 Ebrill 2011, gan osod yn glir fod ailbennu rhyw yn broses bersonol, nid meddygol ac 'ni ddylid gofyn i bobl drawsrywiol fel mater o arfer i gyflwyno'u Tystysgrif Cydnabod Rhyw".

4.15 Mynegwyd pryderon mewn cyfweliadau proffesiynol a chyflwyniadau ar-lein, sydd, yn groes i'r Ddeddf Cydraddoldeb, yn dweud nad yw rhai gwasanaethau cam-drin domestig i fenywod yn unig yng Nghymru bob amser yn derbyn menywod trawsrywiol.

> Yr hyn rwy'n ei ddweud yw na fyddant [staff y lloches] yn ei enwi mwy na thebyg, ond ni fyddant yn ymateb i chi neu ni fyddant yn dychwelyd eich galwad nac yn dweud, o na bydd hynny'n anodd iawn; neu, rydym yn llawn, pan fydd Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan yn dweud bod ganddynt dri lle.
>
> *Darparwr gwasanaeth*

4.16 Mae gweithwyr proffesiynol sy'n atgyfeirio defnyddwyr gwasanaeth at lety mewn argyfwng am gam-drin domestig yn dweud pan fyddant yn gwneud atgyfeiriad ar gyfer menyw drawsrywiol, maen nhw'n dweud wrth ddarparwr y lloches ei bod hi'n drawsrywiol oherwydd eu bod yn poeni am roi menyw drawsrywiol "mewn sefyllfa lle meddylia ei bod hi'n mynd i loches ac yn cael ei dal mewn rhyw ddadl wleidyddol" ynghylch ai gwryw neu fenyw ydy hi. Fodd bynnag, nodwyd ganddynt fod yr arfer hwn wedi golygu iddynt gael mwy o anawsterau wrth ddod o hyd i leoedd am loches i fenywod trawsrywiol na menywod cis.

4.17 Nid awgrymodd y cyfranogwyr y byddai menywod trawsrywiol yn cael profiad o wahaniaethu gan aelodau staff mewn llochesi, ond yn hytrach gallent gael profiad o wahaniaethu ac aflonyddwch gan ddefnyddwyr gwasanaeth eraill a byddai staff y lloches yn methu delio â hyn.

4.18 Awgrymodd y cyfranogwyr fod rhai darparwyr gwasanaeth cam-drin domestig "wedi drysu o gwmpas y diffiniad o ddyn a menyw", gan ganolbwyntio ar ailbennu rhyw fel proses feddygol – yn benodol, pa organau cenhedlu oedd gan yr unigolyn adeg yr atgyfeiriad oedd yn cael eu defnyddio i'w diffinio'n wryw neu'n fenyw – yn hytrach na'i deall fel proses bersonol.

> Mae pobl drawsrywiol a llochesi'n ofid arall…Mae gan unigolyn ddigon i ddelio ag ef mewn lloches heb orfod ymdopi â ffobia trawsrywiol/homoffobia gan bobl/ teuluoedd eraill yno.
>
> *Menyw cis lesbiaidd 18-25 oed*

Enghraifft achos: menyw drawsrywiol yn chwilio am loches o fewn y flwyddyn ddiwethaf

Roedd menyw drawsrywiol yn byw gyda'i phartner camdriniol, ond ni theimlai y gallai adael oherwydd nid oedd ganddi ddigon o arian i ddechrau ei chartref ei hun, ac nid oedd hi am ddatgelu'r gamdriniaeth ddomestig i'r awdurdod lleol er mwyn cael tŷ. Roedd y trais corfforol a rhywiol yn mynd "allan o reolaeth" ond roedd hi dal ddim eisiau adrodd i'r heddlu yn ei gylch. I ddechrau, nid oedd hi am fynd i'r lloches ychwaith, ond cytunodd wneud hynny yn y pen draw. Ffoniodd ei gweithiwr cymdeithasol "sawl lloches cyn cael lloches i'w derbyn hi". I ddechrau, gofynnodd y gweithiwr cymorth i'r llochesi a oedd ganddynt le, dywedwyd wrthi fod yna le ac wedyn gofynnodd a fyddent yn derbyn menyw drawsrywiol. Dywedodd rai ohonynt 'Bydd rhaid i fi ffonio chi'n ôl' ac ni wnaethant hynny ac wedyn dywedodd rhai eraill 'Wel na, byddai hynny ychydig yn anodd i ni."

4.19 Ni chafodd ddynion trawsrywiol yr un anawsterau wrth droi at wasanaethau i ddynion ag y cafodd fenywod trawsrywiol o fynd at wasanaethau i fenywod. Fodd bynnag, mae llai o ddarpariaeth gwasanaeth ar gael i ddioddefwyr gwrywaidd yn gyffredinol (trafodir ymhellach isod). Awgrymwyd hefyd y gallai rhai dynion trawsrywiol deimlo'n anniogel mewn gwasanaethau i wrywod yn unig, yn enwedig os oeddent wedi cael eu cam-drin gan ddyn, a hwyrach fod yna sefyllfaoedd lle byddai'n fwy priodol i ddyn trawsrywiol fynd i wasanaeth i fenywod na gwasanaeth i ddynion.

Gwasanaethau sydd ar gael i ddioddefwyr gwrywaidd a menywod sy'n cyflawni

4.20 Nododd y cyfranogwyr fod darpariaeth gwasanaeth cam-drin domestig cyfyngedig ar hyn o bryd i ddioddefwyr gwrywaidd neu ar gyfer menywod sy'n cyflawni yng Nghymru. Mae'r ddarpariaeth gyfyngedig hon yn cael effaith ar ddynion hoyw, deurywiol a thrawsrywiol sy'n gofyn am help o ran erledigaeth ac i fenywod lesbiaidd a deurywiol sydd eisiau cymorth mewn perthynas â'u defnydd o drais.

4.21 Nododd y cyfranogwyr hefyd er y gallai rhai menywod mewn perthynas â'r rhyw arall aros yn y berthynas a chael cymorth wrth i'w partner fynychu rhaglen i gyflawnwyr, mae'r dewis hwn yn annhebygol o fod ar gael i

Os byddai unrhywbeth yn dechrau gwaethygu (cam-drin emosiynol/seicolegol) efaillai y ceisiaf ddatrys y berthynas, gyda'r tramgwyddwr yn cael cymorth. Ond byddai hyn yn anodd…cyfyngedig yw'r rhaglenni i dramgwyddwyr ac mae gan rai eithriadau o ran rhyw.

Menyw cis lesbiaidd 18-25 oed

fenywod lesbiaidd a deurywiol sy'n cael eu cam-drin gan bartner benywaidd. Ar y cyfan, mae'r rhaglenni cyfyngedig i gyflawnwyr sydd ar gael yn darparu gwasanaethau wedi'u targedu dim ond at ddynion, neu nid oeddent yn rhedeg grwpiau rhyw cymysg.[3]

Amrywiaeth, gwybodaeth a sgiliau annigonol y staff

4.22 Amlygodd y cyfranogwyr ystod o faterion yn ymwneud ag amrywiaeth, gwybodaeth a sgiliau darparwyr gwasanaeth.

4.23 Amlygodd y cyfranogwyr proffesiynol ac ar-lein nifer o feysydd lle'r roeddent yn teimlo y gallai gwybodaeth a sgiliau darparwyr gwasanaeth y sector statudol a gwirfoddol fod yn ddiffygiol:

Er nad wyf yn hyrwyddo agenda wahaniaethol, dydw i ddim yn credu bod gan fwyafrif y bobl QUILTBAG hyder fod gan staff rheng flaen asiantaethau'r llywodraeth ddigon o sgiliau a phrofiad i allu ymateb yn briodol ac yn gydlynol i bryderon QUILTBAG.

Dyn cis hoyw 46-55 oed sydd wedi bod trwy drais rhywiol

- Dealltwriaeth o sut gallai camdriniaeth gael ei chyflawni mewn ffyrdd sy'n benodol i bobl LHDTh, gan gynnwys sut gall cam-drin domestig a thrais rhywiol orgyffwrdd gyda throseddau casineb ac achosion o gasineb;
- Dealltwriaeth o sut gall profiadau oes pobl LHDTh o wahaniaethu o gwmpas cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhyw effeithio arnynt yn gofyn am help;
- Gwybodaeth am berthnasoedd un rhyw ac amrywiaeth mewn cyfeiriadedd rhywiol;
- Gwybodaeth am ailbennu rhywedd, y broses o drawsnewid a dynodi rhyw heb fod yn ddeuaidd; ac
- Arbenigedd mewn darparwyr gwasanaeth LHDTh i ymateb yn briodol i drais domestig a rhywiol.

4.24 Amlygodd y cyfranogwyr hefyd ddiffyg amrywiaeth canfyddedig ymhlith staff, cynhwysodd awgrymiadau y dylai fod mwy o bobl LHDTh sy'n darparu gwasanaethau cam-drin/trais rhywiol ac nad yw darparwyr

[3] Mae'r llinell ffôn Respect sydd ar gyfer pobl sy'n poeni am eu hymddygiad camdriniol yn cynnwys Cymru ac mae'n derbyn galwadau gan bobl o bob rhyw.

gwasanaeth LHDTh bob amser yn adlewyrchu amrywiaeth ethnig Cymru.

Deall profiadau penodol pobl LHDTh o gamdriniaeth

4.25 Fel yr eglurwyd yn Ffigur 1 yn y bennod flaenorol, gall profiadau pobl LHDTh o gam-drin domestig a thrais rhywiol orgyffwrdd gyda'u profiadau o droseddau casineb neu achosion o gasineb mewn nifer o ffyrdd. At hynny, gallai'r cyflawnwyr ddefnyddio tactegau camdriniol sy'n gysylltiedig â'u cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw, megis bygwth 'datgelu rhywioldeb' rhywun fel lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol neu ddefnyddio'r rhagenwau anghywir ar gyfer rhywun trawsrywiol.

4.26 At hynny, er bod y diffiniad cam-drin domestig yn cynnwys camdriniaeth a gyflawnwyd gan aelodau'r teulu ar wahân i bartner mynwesol, mae'r gwasanaethau cam-drin domestig sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd yn ymateb yn bennaf i drais gan bartner mynwesol. Disgrifiodd y cyfranogwyr ar-lein ystod o ymddygiadau camdriniol gan aelodau'r teulu oedd yn gysylltiedig â'u cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw a allai syrthio o fewn y diffiniad ond esboniodd un darparwr cam-drin domestig sut byddai darparu cefnogaeth ar gyfer camdriniaeth deuluol yn "eithriad" ar gyfer achosion "risg uchel iawn".

4.27 Ar y cyfan, teimlai'r cyfranogwyr fod darparwyr gwasanaeth yn tueddu i beidio â gwerthfawrogi sut gall gwahanol fathau o drais a chamdriniaeth orgyffwrdd. Yn aml, darperir gwasanaethau ar gyfer cam-drin domestig a rhywiol ar wahân i wasanaethau ar gyfer troseddau casineb, a gallai fod gan bobl LHDTh ddiffyg hyder yng ngallu'r darparwyr gwasanaeth i ddeall sut mae'r rhain yn gorgyffwrdd ac yn darparu gwasanaeth "cydgysylltiedig" iddynt.

4.28 Disgrifiodd y cyfranogwyr achlysuron hefyd lle gwnaeth y darparwyr gwasanaeth iddynt deimlo fel petai eu profiad o gam-drin wedi'i achosi gan eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw. Er enghraifft, disgrifiodd dyn hoyw deimlo fel petai gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol o'r farn fod ei brofiadau o gam-drin/trais rhywiol o ganlyniad i'r ffaith ei fod yn hoyw.

4.29 Teimlai'r cyfranogwyr ei bod hi'n bwysig i weithwyr proffesiynol ddeall profiadau penodol i bobl LHDTh, heb dybio bod unrhyw gamdriniaeth a brofwyd ganddynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'u cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw.

Deall effaith gwahaniaethu ar ofyn am help

4.30 Yr ymateb gwasanaeth sydd ar gael ar y raddfa ehangach ar hyn o bryd ar gyfer cam-drin domestig yw'r gefnogaeth i ddioddefwyr risg uchel trwy gyfuniad o Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a'r Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol, dan gadeiryddiaeth yr heddlu. Er y gallai unrhyw un sy'n cael ei gam-drin yn y cartref fod yn amharod i gynnwys yr heddlu ac asiantaethau statudol eraill, hwyrach fod pobl LHDTh a dynion hoyw'n benodol wedi bod yn destun gwahaniaethu yn hanesyddol gan yr heddlu ac asiantaethau statudol eraill ac yn yr achosion hyn byddant yn annhebygol iawn o ofyn am help gan y gwasanaethau hyn.

> Gwelais 3 seicotherapydd gwahanol…ond roedd pob un o'r 3 yn heterorywiol ac roedd gennyf ymdeimlad cryf eu bod o'r farn mai fi oedd y broblem am fy mod i'n hoyw. Ni allwn siarad am fy mhrofiadau oherwydd yr ymdeimlad hwnnw o 'achosi'r peth fy hun'.
>
> *Dyn cis hoyw 36-45 oed sydd wedi bod trwy gam-drin domestig a thrais rhywiol*

> Felly, dim ond rhyw 14 blynedd rydym yn sôn amdanynt [ers i'r heddlu ddechrau cyflogi Swyddogion Cydraddoldeb], ond mae gennych yr holl ddiffyg ffydd yn yr heddlu cyn hynny. Felly nid yw llawer o bobl dros 35 yn [adrodd] yn draddodiadol. Nid oherwydd eu bod yn casáu'r heddlu neu beth bynnag – nid ydynt erioed wedi'i wneud, ni welant y pwynt, oherwydd ni chredant y bydd unrhyw beth yn cael ei wneud.
>
> *Sefydliad cymunedol* LHDTh

> Roedd angen cefnogaeth arnaf i drafod fy nheimladau a chael rhywun i'm credu ar ol i seicolegydd… ddweud wrthyf fod rhaid fy mod i wedi eisiau rhyw os ymatebodd fy ngorff a 'mynd yn wlyb'. Cymerodd flynyddoedd i mi ddod dros y niwed a wnaeth y seicolegydd hwnnw.
>
> *Menyw ddeurywiol 26-35 oed sydd wedi cael profiad o gam-drin domestig a thrais rhywiol*

4.31 O ran camdriniaeth rywiol, mae'r ddarpariaeth gwasanaeth yn cynnwys astudiaeth fforensig a gwasanaethau meddygol trwy Ganolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol a ariennir gan yr heddlu a'r GIG ac felly'n awgrymu rhwystrau tebyg i bobl LHDTh y teimlant iddynt gael profiadau gwael gyda'r heddlu a meddygon teulu yn y

gorffennol. Mae gwasanaethau therapiwtig ar gael hefyd, gan gynnwys sesiynau cynghori trwy SARCs a thrwy wasanaethau trais rhywiol y sector gwirfoddol. Fodd bynnag, yn ogystal â disgrifio safbwyntiau negyddol o'r heddlu, disgrifiodd y cyfranogwyr ar-lein ystod o brofiadau negyddol o'r gwasanaethau seiciatryddiaeth, seicotherapi a chynghori. Roedd y profiadau negyddol hyn yn cynnwys cyfranogwyr yn teimlo bod staff wedi 'patholegeiddio' eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw neu wedi dangos diffyg dealltwriaeth o'u rhywioldeb.

Gwybodaeth am berthnasoedd un rhyw ac amrywiaeth mewn cyfeiriadedd rhywiol

4.32 Yn ogystal â diffyg dealltwriaeth o brofiadau penodol pobl LHDTh o gamdriniaeth, adroddodd y cyfranogwyr hwyrach nad oedd y gweithwyr proffesiynol oedd ynghlwm wrth ymateb i gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol yn "deall" perthnasoedd un rhyw yn ehangach nac yn deall amrywiaeth mewn cyfeiriadedd rhywiol. Roedd hyn yn cynnwys y ffaith fod gweithwyr proffesiynol yn teimlo'n anghysurus ynghylch gofyn i bobl am eu cyfeiriadedd rhywiol. Disgrifiodd un gweithiwr cam-drin domestig proffesiynol mewn swydd flaenorol na allai ofyn i fenywod duon ac o leiafrifoedd ethnig am eu cyfeiriadedd rhywiol oherwydd ei fod yn "rhy sensitif."

> Rhaid i chi ofyn [am gyfeiriadedd rhywiol]? Os na wnewch chi, gallai'r fenyw honno fod mewn mwy o berygl neu'n fwy agored i niwed. Mae'n rhaid i chi ofyn.
>
> *Darparwr gwasanaeth cam-drin domestig*

4.33 Awgrymodd y cyfranogwyr hwyrach nad yw'r heddlu'n adnabod cam-drin domestig ymhlith pobl LHDTh lle nad yw eu perthynas yn "ffitio i syniad cul o syniad heddwas penodol o berthynas." Er bod amrywiaeth o weithwyr proffesiynol wedi awgrymu angen i ddeall ffyrdd y gallai perthnasoedd pobl LHDTh fod yn wahanol i berthnasoedd heterorywiol ac/neu cis, mae'n bosibl fod hyn hefyd yn peryglu sefyllfa lle

> Mae'n anodd gofyn am help ta beth ond mae'n anos oherwydd y rhwystrau o beidio â theimlo croeso gan bobl nad ydynt yn deall am berthnasoedd un rhyw…Weithiau nid ydych am leoedd arbenigol, rydych chi am i bawb fod yn hyddysg am gydraddoldeb.
>
> *Menyw cis ddeurywiol 36-45 oed sydd wedi cael profiad o gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddwch*

ystyrir bod perthynas pobl LHDTh yn hynod broblematig neu'n debygol o fod yn gamdriniol. Er enghraifft, rhannodd gweithiwr proffesiynol farn a allai gael ei hystyried yn ystrydebol, gan awgrymu bod dynion hoyw a deurywiol yn fwy tebygol o fod mewn perthnasoedd amryfal ac yn cael eu "cam-drin fel ei gilydd".

4.34 Adroddodd y cyfranogwyr fod gan weithwyr proffesiynol safbwyntiau ystrydebol eraill am bobl hoyw, lesbiaid a deurywiol a'u perthnasoedd, er enghraifft ystyriwyd bod pobl ddeurywiol yn "haerllug" a "heb fod yn wirioneddol hoyw nac yn wirioneddol heterorywiol."

4.35 Roedd diffyg gwybodaeth hefyd am y gwahanol ffyrdd y gallai pobl ddynodi eu cyfeiriadedd rhywiol. Er enghraifft, disgrifiodd cyfranogwr iddo gael "ymatebion negyddol" pryd bynnag yr oedd yn dynodi'i hun yn panrywiol, a disgrifiodd gweithiwr proffesiynol ddiffyg dealltwriaeth y gallai pobl sy'n dynodi eu hunain yn ddeurywiol gael eu denu at bobl o ryw heb fod yn ddeuaidd.

Gwybodaeth am ailbennu rhyw a'r broses o drawsnewid

4.36 Rhannodd y cyfranogwyr nifer o enghreifftiau o weithwyr proffesiynol oedd yn dangos diffyg gwybodaeth mewn perthynas ag ailbennu rhyw a'r broses o drawsnewid. Roedd hyn yn cynnwys diffyg gwybodaeth mewn perthynas â hawliau pobl drawsrywiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

> Roedd dadl enfawr [gyda'r heddlu] sef 'ydyn ni'n galw'r person yma'n fe neu'n hi?', ond mewn gwirionedd fy nheimlad i oedd y dylai fod beth bynnag oedd y person yn teimlo oedden nhw. Ond rhaid iddynt drafod hynny wrth ddelio gyda rhywun gwirioneddol sensitif, hollbwysig – wyddoch chi, mae'n achos a all lethu rhai am amser hir iawn, am byth hyd yn oed. Ac ar y pwynt hwnnw, mae'n rhaid iddyn nhw drafod sut cyfeirir atynt o ran eu rhyw.
>
> *Darparwr gwasanaeth trais rhywiol*

4.37 Adroddodd y gweithwyr proffesiynol ar achosion lle'r oedd darparwyr gwasanaethau'n ansicr ynghylch pa ragenwau i'w defnyddio gyda pherson trawsrywiol a rhannodd pobl drawsrywiol brofiadau o gam-ddynodi eu rhyw gan ddarparwyr gwasanaethau neu cael eu gofyn am Dystysgrif Cydnabod Rhyw.

Gwybodaeth am gam-drin domestig a rhywiol mewn gwasanaethau LHDTh

4.38 Nododd y gweithwyr proffesiynol nad oes darparwyr gwasanaeth LHDTh arbenigol ar hyn o bryd sy'n darparu cefnogaeth cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol yng Nghymru.[4] Fodd bynnag, disgrifia darparwyr gwasanaeth LHDTh sut mae pobl sy'n cael profiad o gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol yn tueddu i ofyn am help gan eu sefydliadau yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, nid yw gweithwyr proffesiynol mewn sefydliadau LHDTh o reidrwydd yn meddu ar arbenigedd o gwmpas trais domestig a rhywiol a hwyrach nad ydynt wedi'u cysylltu'n dda â gwasanaethau cam-drin/trais rhywiol priodol.

4.39 At hynny, nododd gweithwyr proffesiynol yn y sector LHDTh fod lefelau cyllid yn isel iawn i sefydliadau LHDTh, ac o ganlyniad mae llawer yn cau yn fuan ar ôl iddynt agor. Golyga hyn nad yw gweithwyr proffesiynol yn eu swyddi'n ddigon hir yn aml iawn i ddatblygu arbenigedd yn y meysydd hyn, nac i ddatblygu perthynas gyda gwasanaethau cam-drin/trais rhywiol.

Lleihau profiad pobl LHDTh o gamdriniaeth

4.40 Awgrymodd y cyfranogwyr ar-lein a phroffesiynol y gall darparwyr gwasanaethau leihau profiadau pobl LHDTh o gamdriniaeth weithiau, o gymharu â pha mor ddifrifol y byddent yn ystyried menywod heterorywiol, cis sy'n adrodd ynghylch camdriniaeth. Teimlai'r cyfranogwyr fod heddweision yn hynod debygol o leihau profiadau pobl LHDTh o gamdriniaeth, yn enwedig mewn achosion o gam-drin domestig.

> Ni fyddaf yn mynd at yr heddlu eto gan nad ydynt wedi helpu o gwbl, gan ddweud nad oes dim byd y gallant ei wneud hyd nes i mi gael niwed corfforol.
>
> *Dyn cis hoyw 36-45 oed sydd wedi cael profiad o aflonyddwch ar-lein*

> Ni fyddwn yn mynd at yr heddlu am unrhyw beth ar wahân i ymosodiad neu fygythiad corfforol neu rywiol gyda thystiolaeth ffisegol e.e. difrod i eiddo neu lythyr bygythiol, oherwydd ni fyddwn yn disgwyl cael fy nghmryd o ddifrif.
>
> *Menyw drawsrywiol sydd wedi cael profiad o gam-drin domestig, trais rhywiol ac aflonyddwch*

4.41 Disgrifiodd y cyfranogwyr ar-lein y byddent yn amharod i gysylltu â'r heddlu oherwydd teimlant na

[4] Mae'r sefydliad Broken Rainbow yn Llundain yn cynnig llinell gymorth cam-drin domestig sy'n cwmpasu Cymru, yr oedd darparwyr gwasanaeth yn ymwybodol ohono.

fyddent yn cael eu cymryd “o ddifrif” neu nid oedd yr heddlu “yn deall”. Lle llywiwyd y gred hon gan brofiadau gwael blaenorol o gysylltu â’r heddlu, gallai’r profiadau gwael hyn fod mewn perthynas â throseddau casineb yr oeddent wedi cael profiad ohonynt, ond byddai’n lleihau’r tebygolrwydd y byddent yn adrodd ynghylch cam-drin/trais rhywiol hefyd. Disgrifiodd un cyfranogwr lesbiaidd ei bod hi’n teimlo bod gan yr heddlu “fwy o ddiddordeb yn fy ffordd o fyw nag [mewn] helpu.”

4.42 Nododd gweithwyr proffesiynol cam-drin domestig fod y gweithdrefnau asesu risg presennol (Rhestr Wirio Dynodi Risg CAADA Cam-drin, Steclio ac Aflonyddu) wedi’u dylunio i asesu’r risg i ddioddefwragedd mewn perthynas gyda dyn. Awgrymodd gweithwyr proffesiynol y gallai’r arf fod yn llai dibynadwy wrth asesu’r risg mewn perthnasoedd un rhyw, neu pan oedd aelod o’r teulu’n cam-drin, ond ni allent ddweud yn sicr ai dyma oedd yr achos.

I gloi

4.43 Er bod pobl LHDTh yn wynebu rhwystrau unigol a rhyngbersonol i ofyn am help ar gyfer cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol, hysbysir y rhwystrau hyn yn gryf gan realiti’r rhwystrau strwythurol a diwylliannol sy’n wirioneddol bodoli mewn gwasanaethau a’u profiadau blaenorol o ymatebion gwael i’w hanghenion penodol.

4.44 Er bod rhai arferion addawol yn bodoli ac yn cael eu trafod yn y bennod nesaf, mae’r ddarpariaeth gwasanaethau cam-drin/trais rhywiol yng Nghymru’n gogwyddo tuag at fenywod heterorywiol, cis gan mwyaf ac felly ystyrir ei bod yn gyffredinol anymatebol i anghenion penodol pobl LHDTh.

5 Arferion addawol a chyfleoedd i ddatblygu

5.1 Fel yr amlygodd y penodau blaenorol, mae pobl LHDTh yng Nghymru'n wynebu ystod o rwystrau i fynd at gefnogaeth briodol, y mae llawer ohonynt yn gysylltiedig â strwythurau a diwylliannau'r gwasanaethau eu hunain. Fel y mae'r adolygiad o dystiolaeth yn dangos, nid yw'r heriau hyn o reidrwydd yn unigryw i Gymru, ond yn debygol o adlewyrchu heriau tebyg ar draws y DU.

5.2 Mae'r bennod hon yn gosod rhai enghreifftiau cyfyngedig o arfer addawol yng Nghymru ar hyn o bryd, cyn amlygu meysydd lle ceir cyfleoedd penodol i ddatblygu'r ymateb i bobl LHDTh sy'n cael profiad o gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol. Gosodir yr argymhellion penodol ar sut gallai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r cyfleoedd hyn ym Mhennod 6.

Arferion addawol

5.3 Cafodd cyfranogwyr proffesiynol drafferth i ddynodi enghreifftiau o arferion addawol yn y ddarpariaeth gwasanaethau cam-drin/trais rhywiol i bobl LHDTh yng Nghymru, gan nodi nad oes gwasanaethau LHDTh penodol ar hyn o bryd ar wahân i'r Llinell Gymorth Trais Domestig LHDTh Cenedlaethol yn Llundain a redir gan Broken Rainbow. Roedd yr enghreifftiau o arfer addawol a roddwyd yn cynnwys:

> [Yn y dyfodol, byddaf yn mynd at yr] heddlu yn y lle cyntaf; rydw i wedl gweld bod y gwasanaeth troseddau casineb yn cael eu rheoli a'u cyflwyno'n dda, byddwn yn ymddiried ynddynt ac yn gobeithio y byddant yn rhoi fi mewn cysylltiad gyda chefnogaeth briodol.
> *Dyn cis hoyw 36-45 oed sydd wedi cael profiad o stelcio*

- Cymru Ddiogelach sy'n darparu eu ffurflenni adrodd i sefydliad LHDTh ei gyhoeddi, er mwyn i bobl LHDTh wybod yn union pa wybodaeth y bydd angen iddynt ei darparu pan fyddant yn adrodd;
- Teimlwyd bod y Ganolfan

> Yn y diwedd, euthum i sesiynau cynghori eto dros iselder yn gyffredinol…ac wedyn siaradon nhw drwy fy nheimladau a'r hyn oedd wedi digwydd yn fynych, fe'm calonogwyd nad fy mai i ydoedd ac nad oeddwn yn ei haeddu a helpodd fi i ddatblygu strategaethau ymdopi sydd wedi gweithio llawer yn well.
> *Menyw cis ddeurywiol 26-35 oed sydd wedi bod trwy gam-drin domestig a thrais rhywiol*

Rhagoriaeth LHDTh sydd bellach wedi cau yn ffynhonnell gymorth ddefnyddiol i ddarparwyr gwasanaeth cam-drin/trais rhywiol.

5.4 Disgrifiodd y cyfranogwyr ar-lein rai profiadau cadarnhaol o ofyn am help yn ffurfiol. Fodd bynnag, nid oedd y profiadau cadarnhaol a ddisgrifiodd y cyfranogwyr gyda darparwyr cam-drin/trais rhywiol arbenigol (naill ai yn y sector statudol neu wirfoddol) ond yn hytrach gyda gwasanaethau cyffredinol fel yr heddlu, cynghorwyr a meddygon teulu. O gymharu â'r profiadau gwael o'r gwasanaethau hyn a ddisgrifiwyd yn y bennod flaenorol, disgrifiodd y cyfranogwyr a gafodd brofiadau cadarnhaol o'r gwasanaethau hyn eu bod wedi'u rheoli'n dda, yn ddibynadwy, yn gefnogol, yn "ymwybodol iawn o faterion LHDTh" ac yn cynnig cefnogaeth i drafod eu teimladau ac yn eu calonogi nad eu bai hwy oedd y gamdriniaeth.

> Rydym yn lwcus iawn, roedd ganddynt [yr heddlu] adran amrywiaeth dda iawn gyda dau swyddog amrywiaeth wedi'u lleoli'n briodol, un yn y dwyrain ac un yn y gorllewin, ac maen nhw'r un mor debygol o'n ffonio ni a gofyn am bethau yn y gymuned drawsrywiol neu feddwl am wir faterion a dweud 'Mae hyn wedi digwydd, beth yw dy farn di?'
>
> *Sefydliad cymunedol trawsrywiol*

5.5 Ymddengys bod y profiadau cadarnhaol o'r heddlu wedi'u cysylltu'n arbennig ag adrodd ar droseddau casineb, a disgrifiodd darparwyr gwasanaeth LHDTh fanteision rolau penodol o fewn yr heddlu sydd wedi'u targedu at y gymuned LHDTh, fel Uned Amrywiaeth Heddlu Gogledd Cymru.

5.6 Mae rhai gwasanaethau cam-drin domestig, fel Cymorth i Fenywod Gorllewin Cymru (astudiaeth achos isod) wedi canolbwyntio ar sicrhau bod menywod trawsrywiol yn cael eu cynnwys yn eu gwasanaethau i fenywod yn unig, ac wedi datblygu darpariaeth lloches i ddynion (gan gynnwys dynion hoyw a deurywiol).

Enghraifft o achos: Cefnogi dynion a menywod trawsrywiol sy'n ffoi rhag camdriniaeth ddomestig

Mae Cymorth i Fenywod Gorllewin Cymru'n cyflwyno ystod o wasanaethau cam-drin domestig; dwy loches, un Cynghorwr Annibynnol ar Drais Domestig, cymorth ac allgymorth fel y bo'r angen, a phrosiect plant a phobl ifanc. Maen nhw wedi cefnogi dynion ers sawl blwyddyn trwy eu Cynghorwr Annibynnol ar Drais Domestig, ac yn fwy diweddar, cymorth ac allgymorth fel y bo'r angen, ond eleni maen nhw wedi ehangu eu darpariaeth llochesi i dderbyn dynion a'u plant sy'n ffoi rhag camdriniaeth.

Gan gadw lloches gymunedol i fenywod yn unig, mae uned loches wasgaredig ar wahân ar gael i ddioddefwyr sy'n ddynion a'u plant. Mae gan yr uned yr un cyfleusterau diogelwch (er enghraifft, botymau panig) a chymorth staffio yn union â'r prif loches.

Mae Cymorth i Fenywod Gorllewin Cymru'n glir bod eu lloches i fenywod yn unig ar gael i bawb sy'n dynodi mai menywod ydyn nhw. Maen nhw wedi cefnogi menywod trawsrywiol yn y lloches i fenywod yn unig ac yn dweud mai'r brif her wrth gefnogi menywod trawsrywiol yw rheoli'r trigolion eraill i sicrhau nad yw menywod trawsrywiol yn cael eu haflonyddu. Pan fo hyn wedi digwydd, gwnaethant "ddelio ag ef yn yr un ffordd rydym yn delio ag unrhyw wahaniaethu." Disgwylir i drigolion beidio â gwahaniaethu yn erbyn trigolion eraill ar sail nodwedd warchodedig, a gofynnir i unrhyw drigolion sy'n aflonyddu preswylydd arall yn gyson i adael.

5.7 Fodd bynnag, yn absenoldeb lloches sydd o fewn cyrraedd digonol i bobl drawsrywiol, mae sefydliadau cymunedau trawsrywiol wedi sefydlu neu wrthi'n sefydlu eu tai cymunedol eu hunain (un yng Ngogledd Cymru ac un yn Ne Cymru). Er bod y rhain yn darparu un o'r ychydig ddewisiadau sydd ar gael i bobl drawsrywiol sy'n ffoi rhag cam-drin domestig, nid gwasanaethau cam-drin/trais rhywiol arbenigol mohonynt ac nid oes ganddynt yr un nodweddion diogelwch â lloches (er enghraifft, ni chaiff cyfeiriadau'r tai eu diogelu).

Cyfleoedd i ddatblygu

5.8 Disgrifiodd pobl LHDTh a gymerodd ran ar-lein dair nodwedd fras y byddent yn chwilio amdanynt mewn gwasanaethau cam-drin/trais rhywiol os oedd angen iddynt fynd atynt yn y dyfodol: mynediad hyblyg a chyfrinachol, cynwysoldeb LHDTh, a staff hyddysg ac amrywiol. Mae Tabl 1 isod yn amlinellu'r materion allweddol i bobl LHDTh dan bob thema, ac fe'u trafodir yn fanwl isod.

Tabl 1. Nodweddion y ddarpariaeth gwasanaeth cefnogol o bobl LHDTh

Mynediad hyblyg a chyfrinachol	Cynwysoldeb LHDTh	Staff hyddysg ac amrywiol
• Dewis i fynd at gefnogaeth heb fod wyneb yn wyneb e.e. ar-lein, ffôn • Gwasanaeth galw heibio neu amser apwyntiadau cyfleus • Mynd i'r afael â phryderon am gyfrinachedd	• Hyrwyddo gwasanaethau – iaith gynhwysol a gweithio mewn partneriaeth rhwng sectorau cam-drin/trais rhywiol a LHDTh • Codi ymwybyddiaeth o brofiadau pobl LHDTh o erledigaeth • Mynediad cyfartal i wasanaethau'r brif ffrwd • Mae darpariaeth cam-drin/trais rhywiol LHDTh arbenigol ar gael	• Mae'r staff yn deall profiadau penodol pobl LHDTh o gam-drin/trais rhywiol • Mae'r staff yn deall amrywiaeth cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaethau rhyw • Nid yw'r staff yn tybio bod pawb yn heterorywiol neu'n meddu ar agweddau ystrydebol am bobl LHDTh • Mae aelodau'r staff yn amrywiol o ran eu cyfeiriadedd rhywiol ac/neu hunaniaeth rhyw

Mynediad hyblyg a chyfrinachol

5.9 Mae mynediad hyblyg a chyfrinachol i wasanaethau'n flaenoriaeth i bobl sy'n cael profiad o gam-drin domestig/trais rhywiol, waeth beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw (Comisiwn Cenedlaethol y Menywod, 2010). Fodd bynnag, ceir agweddau penodol ar brofiadau pobl LHDTh sy'n gwneud hyn yn hynod ddymunol.

5.10 Disgrifiodd y cyfranogwyr fanteision gwasanaethau ar-lein, yn enwedig ar gyfer cyswllt cychwynnol. I bobl LHDTh, gall y cyswllt cychwynnol ar-lein fod yn ffordd o wirio ydy'r gwasanaeth cam-drin/trais rhywiol yn cynnwys pobl LHDTh ac i bobl drawsrywiol yn arbennig, mae hyn yn osgoi'r risg y bydd eu rhyw'n cael ei gam-ddynodi gan y darparwr gwasanaeth.

> Rydych chi'n cymryd y cyfan gyda'i gilydd. Rydych chi'n cymryd seibiant pan ffoniwch y gwasanaeth ac yn dweud fy enw i yw [enw benywaidd], maen nhw'n dweud 'Ydych chi'n siŵr?' Wel pa ran gawsoch broblem yn ei deall?
>
> *Menyw drawsrywiol*

5.11 Mae gwasanaethau ar-lein a dros y ffôn yn cynnig cyfrinachedd hefyd, a all fod o gymorth i bobl sy'n poeni am orfod datgelu eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw i ddarparwyr gwasanaeth. Ar hyn o bryd, mae

> [Yn y dyfodol, byddwn yn defnyddio] mannau galw heibio, byddai'n well gennyf wneud y cyswllt cyntaf trwy'r cyfryngau cymdeithasol a hoffwn ddefnyddio'r ffôn ond eto mae gwasanaeth cwsmeriaid yn hollbwysig.
>
> *Menyw cis ddeurywiol 36-45 oed sydd wedi bod trwy gam-drin domestig, stelcio, aflonyddu a thrais rhywiol*

Llinell Gymorth Trais Domestig a Rhywiol Cymru Gyfan yn darparu gwasanaethau ffôn ac e-bost, ond nid yw pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ymhlith eu galwyr.[5]

5.12 Amlygodd yr ymatebwyr proffesiynol ac ar-lein bwysigrwydd tryloywder ochr yn ochr â chyfrinachedd, er enghraifft bod yn glir ynghylch beth fydd yn digwydd pan fyddant yn troi at wasanaeth a pha wybodaeth y bydd disgwyl iddynt ei darparu. Fel y trafodwyd gennym yn y bennod flaenorol, gallai fod gan bobl LHDTh brofiadau negyddol hanesyddol o'r system cyfiawnder troseddol a gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol, sy'n gwneud tryloywder am y gwasanaethau sydd ar gael yn hynod bwysig.

5.13 Yn yr un modd â menywod heterorywiol, cis, amlygodd pobl LHDTh bwysigrwydd gwasanaethau galw heibio neu amser cyfleus am apwyntiad.

Cynwysoldeb LHDTh

Hyrwyddo gwasanaethau

5.14 Tuedda pobl LHDTh i deimlo bod gwasanaethau cam-drin/trais rhywiol yn cael eu hyrwyddo tuag at fenywod heterorywiol, cis sy'n eu hatal rhag troi at y gwasanaethau hynny. Awgrymodd gweithwyr proffesiynol a chyfranogwyr ar-lein ystod o ffyrdd y gallai hyrwyddo gwasanaethau cam-drin/trais rhywiol fod yn fwy cynhwysol:

> O leiaf yn y gwasanaethau [LHDTh] hoffwn iddynt wybod ein bod ni'n bodoli...a gofyn i bobl wirfoddoli, er mwyn i ni allu bod yn gynrychioliadol hefyd...Ac mae'n bosibl nad yw [pobl LHDTh] o reidrwydd eisiau gwasanaeth penodol, ond maen nhw am wybod ydy'r gwasanaeth hwn yn ddiogel iddynt a dyna'r neges rydw i wir eisiau ei chyfleu.
>
> *Darparwr trais rhywiol sydd wrthi'n datblygu gwasanaeth newydd*

- Dylai deunyddiau sy'n hyrwyddo gwasanaethau gyfeirio'n glir eu bod yn cynnwys pobl LHDTh, er enghraifft trwy gael baner yr enfys ar y wefan, ar y deunyddiau wedi'u hargraffu neu mewn ystafelloedd aros.

[5] Nid yw'r llinell gymorth yn cofnodi ydy'r galwr yn drawsrywiol ai peidio ac ond yn cofnodi eu cyfeiriadedd rhywiol os darperir hwn yn ddigymell.

- Iaith niwtral o ran rhyw mewn deunyddiau hyrwyddo wrth ddisgrifio dioddefwyr a chyflawnwyr cam-drin/trais rhywiol.

> [Byddwn i'n osgoi] unrhyw sefydliad cefnogi camdriniaeth nad oedd yn dweud yn amlwg ei fod yn gyfeillgar i bobl LHDTh
>
> *Menyw cis lesbiaidd*

- Gweithio mewn partneriaeth rhwng darparwyr gwasanaeth cam-drin/trais rhywiol a darparwyr gwasanaeth LHDTh yn y gymuned LHDTh. Er enghraifft, awgrymodd darparwr gwasanaeth LHDTh y dylai gwasanaethau cam-drin/trais rhywiol gael stondinau mewn digwyddiadau fel yr ŵyl Pride ym mis Awst ac mewn digwyddiadau eraill y gymuned LHDTh. Teimlwyd bod y cyfyngiadau ariannu ar sefydliadau cam-drin/trais rhywiol yn arwain atynt i beidio â chysylltu'n rhagweithiol gyda chymunedau LHDTh. Er bod y cyfranogwyr yn gydymdeimladol ar y cyfan â'r cyfyngiadau y mae sefydliadau cam-drin/trais rhywiol yn eu hwynebu, gallai diffyg ymgysylltiad rhagweithiol y sector gyda'r gymuned LHDTh beryglu gwaethygu'r amgyffrediad "nad oes ganddynt ddiddordeb" ym mhrofiadau pobl LHDTh o gamdriniaeth.

> Ond mae llawer o'r bobl sy'n dod i'r digwyddiadau eraill, nid dim ond Pride, yn gwneud hynny oherwydd eu bod yn credu ynddynt, nid oherwydd eu bod yn cael rhywbeth yn ôl amdano o ran TOIL, neu chi'n gwybod tâl goramser nac unrhyw beth. Mae gennyf gydymdeimlad enfawr â…phroffesiwn y darparwr gwasanaeth, ond mae pob un ohonom yn yr un sefyllfa. Mae pob un ohonom yn ymladd am arian ac amser a phobl…byddai peidio â dod yn draddodiadol yn golygu nad oes ganddynt ddiddordeb mewn gwirionedd, a dydw i ddim yn teimlo hynny.
>
> *Proffesiynol*

5.15 Yn ogystal â chefnogaeth i hyrwyddo gwasanaethau i bobl LHDTh yn gyffredinol, awgrymwyd bod angen i'r ffocws penodol gael ei roi ar hyrwyddo gwasanaethau i bobl drawsrywiol. Mae hyn oherwydd, fel y mae'r gweithwyr proffesiynol yn awgrymu, mae pobl drawsrywiol yn wynebu

> Mae [pobl drawsrywiol] yn cael eu tangynrychioli'n aruthrol o ran cael gwasanaethau, ac yn cael eu gorgynrychioli'n aruthrol o ran profiad o drais domestig. Ble mae'r dioddefwyr hyn yn mynd? Dylai Llywodraeth Cymru fod yn anelu at eu cyrraedd nhw.
>
> *Gweithiwr cam-drin domestig proffesiynol*

lefelau trais a chamdriniaeth hynod uchel a bod angen “ymdrech gytunedig a thargedig i gyrraedd pobl drawsrywiol”.

Ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth

5.16 Yn ogystal â hyrwyddo bod gwasanaethau cam-drin/trais rhywiol ar gael i bobl LHDTh, amlygodd y cyfranogwyr yr angen i hyrwyddo ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol *o fewn* cymunedau LHDTh yn fwy cyffredinol. Awgrymwyd y dylai'r cyhoeddusrwydd hwn gynnwys codi ymwybyddiaeth o bobl LHDTh fel dioddefwyr a chyflawnwyr camdriniaeth.

5.17 Fodd bynnag, awgrymwyd o fewn hwn y byddai angen ymgysylltiad mwy gweithgar ar gyfer codi ymwybyddiaeth mewn cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn benodol a byddai “rhoi poster i fyny” yn annigonol. Yn benodol, awgrymodd un darparwr y gallai dull cymunedol, hawliau dynol o fynd i'r afael â materion “anrhydedd” a “chywilydd” ar gyfer pobl LHDTh dduon ac o leiafrifoedd ethnig fod yn fwy llwyddiannus, yn yr un modd â'r model presennol a ddefnyddir gan y darparwr gwasanaeth trais pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig arbenigol yn erbyn merched a menywod BAWSO wrth herio anffurfio organau cenhedlu benywaidd.

> Bydd pobl [mewn cymunedau pobl dduon ac o leiafrifoedd ethnig] yn edrych ar [boster] ac yn dweud ‘Beth maen nhw'n sôn amdano?' Mae angen ychydig arnynt, mae angen cyd-destun, mae angen ychydig mwy o ymgysylltiad, esboniad arnynt. Felly, mae'n mynd yn ddwfn i mewn i'r materion, oherwydd ni fydd poster yn gwneud hynny. Os oes gennych gredoau cryf iawn sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn eich gwerthoedd, ni waeth pa mor wael maen nhw wedi'u hysbysu, ni fydd poster yn newid dim.
>
> *Darparwr Gwasanaeth Cam-drin Domestig*

Mynediad cyfartal i wasanaethau prif ffrwd

5.18 Mynegodd y cyfranogwyr wahanol safbwyntiau o ran p'un ai y dylai gwasanaethau arbenigol fod ar gael neu beidio i bobl LHDTh sy'n cael profiad o gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol. Fodd bynnag, ni waeth a oeddent yn ffafrio gwasanaethau arbenigol, roedd pobl LHDTh yn glir y dylent allu troi at wasanaethau cam-drin/trais rhywiol y brif ffrwd yn gydradd â phobl heterorywiol, cis.

5.19 Lle nad oedd gan ddarparwyr gwasanaeth cam-drin/trais rhywiol feini prawf penodol oedd yn eithrio rhai pobl LHDTh (er enghraifft, menywod yn unig), roeddent yn tueddu i gredu fod pobl LHDTh yn gallu troi at eu gwasanaethau'n gydradd. Er enghraifft, awgrymodd cyfranogwr petai person hoyw'n cael ei atgyfeirio at Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth, ni fyddai cyfeiriadedd rhywiol y person hwnnw "ar eu radar" a byddent yn edrych ar yr achos yr un ffordd ag y byddent ar unrhyw un arall. Awgrymodd cyfranogwr arall nad yw menywod lesbiaidd a deurywiol yn wynebu unrhyw rwystrau penodol wrth droi at wasanaethau, gan y gallant droi at bob un o'r gwasanaethau â menywod heterorywiol, cis. Er bod y darparwyr gwasanaeth hyn yn ymddwyn yn ffyddiog ac yn ymdrechu i drin pawb yn gydradd, mae hyn yn awgrymu hefyd fethiant i ystyried sut gallai profiad pobl LHDTh o wahaniaethu fel grŵp effeithio ar eu gallu i droi at wasanaethau yn yr un ffordd â phobl eraill.

5.20 O'r pryder mwyaf, fodd bynnag, yw'r adroddiadau y gallai rhai llochesi cam-drin domestig i fenywod yn unig fod yn ymdrechu i eithrio menywod trawsrywiol rhag troi at eu gwasanaethau. Mae gan wasanaethau i fenywod hawl i ofyn i bobl sy'n mynd at eu gwasanaethau am dystysgrif geni i gadarnhau eu rhyw cyfreithiol. Fodd bynnag, mae anwybyddu'r ffaith y byddai disgwyl i wasanaethau cydradd a chynhwysol ymateb i bobl yn y rhyw y cyflwynant eu hunain i wasanaeth, gan ofyn i fenywod trawsrywiol sy'n ffoi cam-drin domestig i ddarparu eu tystysgrif geni er mwyn mynd at wasanaeth yn hynod broblematig:

> Ceir hefyd y syniad hollbresennol y gallai cyflawnydd wisgo ffrog a cheisio mynd at lochesi (sydd, hyd eithaf fy ngwybodaeth, heb ddigwydd unrhyw le yn y byd erioed – a hefyd darparwyr gwasanaethau sy'n cyflwyno gwasanaethau i fenywod lesbiaidd a deurywiol, yn dechnegol gallai eu partneriaid benywaidd hefyd droi at yr un gwasanaeth; maent yn delio â hyn yn effeithiol trwy weithdrefnau asesu risgiau).
>
> *Gweithiwr cam-drin domestig*

- Gŵyr darparwyr gwasanaeth cam-drin domestig yn dda fod pobl sy'n ffoi rhag camdriniaeth ddomestig yn aml yn gorfod gwneud hynny'n gyflym a hwyrach na allant fynd â dogfennau hanfodol gyda nhw, gan gynnwys eu tystysgrif geni.

- Mae angen i bobl drawsrywiol sy'n briod gael caniatâd eu gŵr/gwraig i gael Tystysgrif Cydnabod Rhyw (ac felly, tystysgrif geni ddiwygiedig), neu fel arall bydd angen iddynt ysgaru eu gŵr/gwraig[6]. Gall cyflawnwyr wrthod rhoi caniatâd am gydnabyddiaeth rhyw lawn er mwyn rheoli eu partner trawsrywiol ymhellach, ynghyd ag atal eu partner rhag diwallu'r gofyniad i fyw yn eu rhyw am ddwy flynedd. Trwy ofyn am dystysgrif geni ddiwygiedig, mae darparwyr gwasanaeth cam-drin domestig yn peryglu cynllwynio'n ddiofal gyda'r cyflawnwyr y gamdriniaeth.

Gwasanaethau arbenigol

5.21 Awgrymodd y cyfranogwyr oedd yn hyrwyddo gwasanaethau cam-drin/trais rhywiol LHDTh arbenigol wasanaethau ar eu pen eu hunain, fel llety sydd ond ar gyfer pobl LHDTh, a chynnig gweithwyr LHDTh arbenigol mewn gwasanaethau prif ffrwd megis gwasanaethau cam-drin/trais rhywiol a'r heddlu.

5.22 Teimlwyd bod gwasanaethau arbenigol yn hynod bwysig wrth ddiogelu pobl LHDTh rhag mynd trwy wahaniaethu seiliedig ar eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw ar y pwynt gofyn am help. Tybiodd y cyfranogwyr mewn gwasanaeth arbenigol, bydd gweithwyr yn cael eu hyfforddi a'u sgilio i weithio'n briodol gyda phobl LHDTh, ac mewn gwasanaeth ar ei ben ei hun, bydd pobl LHDTh yn cael eu diogelu rhag gwahaniaethu gan ddefnyddwyr gwasanaeth eraill.

> Byddai lloches(i) ar wahân yn cael ei sefydlu ar gyfer y gymuned LHDTh o bosibl, ond mewn byd delfrydol, ni fyddai angen ystyried hyn ond mae gan unigolion ddigon i ddelio ag ef pan fyddant mewn lloches heb orfod ymdopi â thrawsffobia/homoffobia potensial gan y bobl/teuluoedd eraill yno.
>
> *Menyw cis lesbiaidd 18-25 oed*

5.23 Mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi ceisio cael cyllid i ddatblygu lloches arbenigol i bobl drawsrywiol, ond nid ydynt wedi bod yn llwyddiannus gyda hyn eto. Mynegodd y cyfranogwyr safbwyntiau cymysg am fanteision lloches arbenigol. Er y byddai lloches arbenigol yn sicrhau bod menywod trawsrywiol sy'n ffoi camdriniaeth yn cael eu

[6] Disgwylir i'r ddarpariaeth hon, o dan Ddeddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013, ddod i rym, yn ôl Gweinidog Cydraddoldebau y DU, ar 10 Rhagfyr 2014.

diogelu rhag gwahaniaethu pan fyddant mewn lloches, teimlwyd na ddylid defnyddio unrhyw ddarpariaeth arbenigol i atal menywod trawsrywiol rhag troi at wasanaethau prif ffrwd fel menywod. Ni ddylid disgwyl i bobl drawsrywiol ddatgelu eu hanes pennu rhyw wrth droi at wasanaethau a dylai unrhyw ddarpariaeth arbenigol fod *yn ogystal â* mynediad cyfartal i ddarpariaeth y brif ffrwd, *nid yn hytrach na* mynediad i ddarpariaeth y brif ffrwd.

Staff deallus ac amrywiol

5.24 Yn olaf, nododd y cyfranogwyr angen clir i hyfforddi gweithwyr proffesiynol yn y sector gwirfoddol a statudol sy'n dod i gysylltiad â phobl LHDTh sy'n mynd trwy gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol.

5.25 Teimlai'r cyfranogwyr fod angen i weithwyr proffesiynol ddatblygu eu gwybodaeth o gwmpas:

- Profiadau pobl LHDTh o gam-drin/trais rhywiol a sut gallai'r rhain wahaniaethu o brofiadau menywod heterorywiol, cis;
- bywydau pobl LHDTh yn fwy bras, gan gynnwys amrywiaeth mewn cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhyw.

5.26 Yn gysylltiedig â hyn, roedd y cyfranogwyr yn poeni eu bod yn aml yn dod ar draws credoau ystrydebol gan weithwyr proffesiynol a bod angen hyfforddi a monitro darparwyr i fynd i'r afael â hyn.

Mae angen i'r heddlu… ddeall y gall cam-drin domestig ddigwydd mewn cyplau un rhyw a'r rhyw cyferbyniol ac weithiau, gall fod yn uniongyrchol gysylltiedig â bod yn LHDTh ac ar adegau eraill hwyrach nad ydynt yn ffactor yn y gamdriniaeth.

Menyw cis ddeurywiol 26-35 oed sydd wedi bod trwy gam-drin domestig a thrais rhywiol mewn plentyndod ac oedolaeth

5.27 Mae'n aneglur ydy amgyffrediad rhai cyfranogwyr nad yw gweithwyr cam-drin/trais rhywiol proffesiynol mor amrywiol o ran cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhyw'n gywir ai peidio. Fodd bynnag, dylai darparwyr gwasanaeth cam-drin/trais rhywiol

[Byddwn yn mynd at wasanaethau] deallus cydradd ac amrywiol, nid at griw o wirfoddolwyr dosbarth canol a'r rhai y gwyddoch nad oes ganddynt syniad am wir amrywiaeth. Gall atgyfnerthu'ch cred a sylwadau'ch partneriaid na fydd neb yn poeni iot amdanoch chi, byddan nhw'n credu mai chi sydd wedi'i achosi!

Menyw cis ddeurywiol 36-45 oed sydd wedi cael profiad o gam-drin domestig, stelcio, aflonyddu a thrais rhywiol

fod yn ymwybodol o'r amgyffrediad hwn wrth hyrwyddo'u gwasanaethau ac ystyried ffyrdd o ddangos i bobl LHDTh yr amrywiaeth ymhlith eu staff. Ar y llaw arall, gwelir bod sefydliadau LHDTh yn ddiffygiol o ran amrywiaeth ethnig ac yn yr un modd, dylent ystyried ffyrdd o ddangos eu hamrywiaeth.

I gloi

5.28 Mae'r bennod hon wedi amlinellu ystod o gyfleoedd i ddatblygu darpariaeth gwasanaeth ar gyfer pobl LHDTh sy'n cael profiad o gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol. Er bod hyn yn awgrymu bod angen gwneud llawer o waith i sicrhau bod pobl LHDTh yn cael eu cefnogi'n effeithiol, mae llawer o'r materion a drafodir uchod yn cael eu cydgysylltu'n gryf a gellir mynd i'r afael â nhw trwy newidiadau cymharol fach.

5.29 Amlinellir ein hargymhellion i'r ffordd y dylai Llywodraeth Cymru ymateb i'r cyfleoedd hyn ar gyfer datblygu yn y bennod nesaf.

6 Argymhellion

Mae'r bennod hon yn gosod yr argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru, a ddyluniwyd i wella argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau priodol ar gyfer pobl LHDTh sy'n mynd trwy gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol yng Nghymru. Mae'r argymhellion yn cwmpasu'r tri maes a amlinellir ym Mhennod 5 lle nodwyd cyfleoedd ar gyfer datblygu ac argymhellion ar fonitro ac arfarnu effeithiolrwydd y mesurau hyn.

Wrth fynd i'r afael â'r argymhellion hyn, dylai Llywodraeth Cymru fod yn ystyriol o'r amgylchiadau ariannol anodd y mae darparwyr gwasanaeth cam-drin domestig, trais rhywiol a LHDTh yn gweithredu ynddynt ar hyn o bryd. Gallai fod angen cefnogaeth ariannol ychwanegol ar ddarparwyr gwasanaeth ar gyfer hyrwyddo a hyfforddiant, ac os ydy Llywodraeth Cymru'n anelu at gynyddu'r atgyfeiriadau i bobl LHDTh i wasanaethau cam-drin/trais rhywiol, mae'n debygol y bydd angen adnoddau ar ddarparwyr i gynyddu nifer y bobl y gweithiant gyda nhw. Cydnabyddwn hefyd fod Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithredu mewn cyd-destun o galedi ariannol, ac mae rhai argymhellion yn debygol o orfod cael eu blaenoriaethu dros rai eraill. Disgwylir y byddai'r blaenoriaethau hyn yn digwydd trwy ymgynghori'n agos gyda'r sectorau cam-drin/trais rhywiol a LHDTh.

Fodd bynnag, er bod cyfyngiadau cyllidebol yn cyflwyno her i Lywodraeth Cymru a darparwyr gwasanaeth, nid yw canfyddiadau'n hymchwil yn cefnogi angen am fuddsoddiadau arwyddocaol mewn darpariaeth arbenigol. Yn hytrach, awgryma'n canfyddiadau angen i ganolbwyntio ar hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant yn y gwasanaethau sy'n bodoli i'w gwneud nhw'n fwy hygyrch ac yn gynhwysol i bobl LHDTh.

Mynediad hyblyg a chyfrinachol

1. Dylai cymorth ffôn ac ar-lein presennol ar gyfer trais domestig a rhywiol a ariennir gan Lywodraeth Cymru gael ei hysbysebu'n glir fel un sydd ar gael i bobl LHDTh, mewn unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo ac ar hafan gwefannau'r gwasanaethau hyn.
2. Ymchwilio i ymarferoldeb datblygu a hyrwyddo ymhellach wasanaethau ar-lein yng Nghymru, yn arbennig fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cyngor a

chefnogaeth. Enghraifft o'r math hwn o gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yw Llinell Gymorth Trais Domestig Broken Rainbow, sy'n cynnig sgwrsio ar-lein a chymorth drwy'r e-bost.[7]

3. Annog darparwyr gwasanaeth i gyhoeddi gwybodaeth glir am yr hyn sy'n digwydd pan fydd rhywun yn datgelu camdriniaeth iddynt, gan gynnwys y cynnwys unrhyw ffurflenni y bydd disgwyl iddynt eu llenwi a lefel y cyfrinachedd ac anhysbysedd.

Cynwysoldeb pobl LHDTh

4. Annog darparwyr gwasanaeth i hyrwyddo'u gwasanaethau'n fwy cynhwysol i bobl LHDTh, er enghraifft trwy ddangos pobl LHDTh yn eu deunyddiau hyrwyddo neu ddefnyddio baner yr enfys[8].
5. Cefnogi darparwyr gwasanaeth i gynnal gweithgareddau allgymorth sy'n targedu pobl LHDTh, er enghraifft mewn digwyddiadau LHDTh, mewn partneriaeth gyda darparwyr gwasanaeth LHDTh a sefydliadau cymunedol.
6. Cefnogi darparwyr gwasanaeth LHDTh a sefydliadau cymunedol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol ymhlith pobl LHDTh.
7. Annog cynnydd mewn gweithio mewn partneriaeth rhwng darparwyr gwasanaeth trais domestig a rhywiol a sefydliadau LHDTh.
8. Dylai Adran Tai Llywodraeth Cymru fapio'r graddau y mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cael ei gweithredu'n gywir gan ddarparwyr llety argyfwng dros dro (llochesi) i fenywod yn unig mewn perthynas ag atgyfeiriadau menywod trawsrywiol i'r gwasanaethau hyn.
9. Dylai Adran Tai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau clir i ddarparwyr llochesi sy'n cyflwyno gwasanaethau rhyw deuaidd ar sicrhau mynediad cyfartal i'r gwasanaethau hyn i bobl drawsrywiol. Dylid annog awdurdodau lleol i sicrhau bod unrhyw dendrau neu geisiadau am grant ar gyfer darpariaeth lloches yn cynnwys asesiad ar sut bydd mynediad cyfartal i bobl drawsrywiol yn cael ei gyflawni gan y darparwr.

[7] Deallwn fod y materion hyn wrthi'n cael eu hystyried fel rhan o arfarniad o Linell Gymorth Cymru Gyfan, y disgwylir iddi gefnogi'r argymhelliad hwn.

[8] Er y cefnogir baner yr enfys fel symbol o gynhwysiant gan rai cyfranogwyr, teimla pobl eraill nad yw'n dangos yn ddigonol cynhwysiant i bobl ddeurywiol a thrawsrywiol. Felly, dylid ei ystyried yn un arf ymhlith ystod o ffyrdd y mae darparwyr yn hyrwyddo cynhwysiant.

10. Ymchwilio i werth darparu gweithwyr LHDTh mewn gwasanaethau cam-drin domestig a rhywiol, ac/neu weithwyr cam-drin/trais rhywiol arbenigol mewn gwasanaethau LHDTh. Dylid treialu unrhyw gynllun o'r fath ar raddfa fach a'i arfarnu'n gywir gyda chynllun clir i ddarparu parhad y cyllid os bydd yn effeithiol.
11. Datblygu cynllun clir sy'n gosod sut bydd gwasanaethau cam-drin domestig ar gael i bobl yng Nghymru nad ydynt yn dynodi eu hunain yn wryw neu'n fenyw, er enghraifft trwy sicrhau bod darpariaeth yn cael ei chynnwys yn y portffolio gwasanaethau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Dylai'r cynllun hwn hefyd beidio â chyfaddawdu argaeledd y gwasanaethau i fenywod yn unig (lle deellir bod "menywod yn unig" yn cynnwys menywod trawsrywiol yn llwyr).

Staff deallus ac amrywiol

12. Cefnogi darparwyr gwasanaeth trais domestig a rhywiol i sicrhau y gall eu staff ddangos dealltwriaeth o brofiadau bywyd pobl LHDTh, yr amrywiaeth o ran cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaethau rhyw a phrofiadau penodol pobl LHDTh o gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol. Gallai'r gefnogaeth hon gynnwys hyfforddiant ffurfiol, ar y cyd gyda'r sectorau LHDTh a cham-drin/trais rhywiol, ond dylent fod yn seiliedig ar asesiad o anghenion hyfforddi a chynnwys mesurau i sicrhau bod dysgu'n cael ei ymgorffori mewn sefydliadau.
13. Annog awdurdodau lleol, yr heddlu ac awdurdodau eraill y sector cyhoeddus i sicrhau bod staff sydd mewn cysylltiad â phobl sy'n cael profiad o gamdriniaeth yn cael eu sgilio yn anghenion a phrofiadau pobl LHDTh.

Monitro ac arfarnu [9]

14. Monitro lefelau atgyfeiriadau LHDTh i Linell Gymorth Trais Domestig a Rhywiol Cymru Gyfan, Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol ar draws Cymru ac mewn unrhyw wasanaethau trais domestig a rhywiol a ariennir

[9] Yn y rhan hon, mae'r argymhellion yn cyfeirio at ddata sydd eisoes yn cael ei gasglu, yn hytrach nag argymhelliad i gasglu data newydd. Ein hargymhelliad ni yw bod Llywodraeth Cymru'n monitro'r data hwn yn benodol i fesur cynnydd a gwella canlyniadau.

gan Lywodraeth Cymru, fel mesur o newid ym mynediad pobl LHDTh i wasanaethau priodol.

15. Monitro unrhyw atgyfeiriadau i Linell Gymorth Trais Domestig a Rhywiol Cymru Gyfan lle dynodwyd bod y dioddefwr yn berson trawsrywiol sy'n chwilio am lety argyfwng dros dro a chanlyniad yr alwad.

Ymchwil bellach

Datgelodd ein hymchwil fylchau pellach yn y dystiolaeth nad oedd modd mynd i'r afael â nhw'n llawn yn yr astudiaeth hon. Meysydd ar gyfer ymchwil bellach yw'r rhain, naill ai gan Lywodraeth Cymru neu gan randdeiliaid eraill yng Nghymru ac ar draws y DU.

16. Ymchwilio i ddibynadwyedd Rhestr Dynodi Risgiau Cam-drin Domestig, Stelcio ac Aflonyddu CAADA wrth fesur y risg i bobl LHDTh sy'n cael eu cam-drin yn y cartref, gan gynnwys mewn achosion o gam-drin domestig teuluol.
17. Mapio'r rhaglenni sydd ar gael ac y mae eu hangen i gyflawnwyr benywaidd, gan ystyried ydy diffyg argaeledd y rhaglenni hyn yn effeithio'n anghymesur ar fenywod lesbiaidd a deurywiol.
18. Ymchwilio a ydy pobl LHDTh o leiafrifoedd ethnig yn wynebu rhwystrau penodol wrth droi at wasanaethau priodol ar gyfer cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol.

Cyfeiriadau

Ard, K. L. & Makadon, H. J. (2011) “Addressing Intimate Partner Violence in Lesbian, Gay, Bisexual and Transgender Patients”, *Journal of General Internal Medicine*, 26(8), pp. 930-933.

Barker, M., Richards, C., Jones, R., Bowes-Catton, H. & Plowman, T. with Yockney, J. & Morgan, M. (2012). *The Bisexuality Report: Bisexual inclusion in LGBT Equality and Diversity.* Milton Keynes: The Open University.

Basile, K. C. & Saltzman, L. E. (2009) *Sexual Violence Surveillance: Uniform Definitions and Recommended Data Elements (2nd edition)*. Atlanta: Centers for Disease Control and Prevention, National Center for Injury Prevention and Control.

Berg, L. & Millbank, J. (2009) “Constructing the Personal Narratives of Lesbian, Gay and Bisexual Asylum Claimants”, *Journal of Refugee Studies*, 22(2), pp. 195-223.

Bornstein, D. R., Fawcett, J. & Sullivan, M. Se. (2006) “Understanding the experiences of lesbian, bisexual and trans survivors of domestic violence: A qualitative study”, *Journal of Homosexuality*, 51(1), pp159-182.

Broken Rainbow (2005) *Annual Report 2004-2005*. London: Broken Rainbow.

Burrowes, N. & Horvath, T. (2013) *The rape and sexual assault of men – a review of the literature*. London: Survivors UK.

CAADA (2013) *Practice briefing for IDVAs: Engaging and working with lesbian, gay, bisexual and transgender (LGBT) clients*. London: CAADA.

Ciarlante, M. & Fountain, K. (2010) *Why It Matters: Rethinking Victim Assistance for Lesbian, Gay, Bisexual, Transgender, and Queer Victims of Hate Violence and Intimate Partner Violence.* Washington and New York: National Center for Victims of Crime and the National Coalition of Anti-Violence Programs.

Constable, A., De Castro, N., Knapman, R. & Baulch, M. (2011) *One Size Does Not Fit All: Gap analysis of NSW domestic violence support services in relation to gay, lesbian, bisexual, transgender and intersex communities' needs*. Sydney: AIDS Council of New South Wales.

Crown Prosecution Service (online) “Honour Based Violence and Forced Marriage”, *Legal Guidance*. Available: http://www.cps.gov.uk/legal/h_to_k/honour_based_violence_and_forced_marriage/.

Donovan, C., Hester, M., Holmes, J., & McCarry, M. (2006) *Comparing Cam-drin domestig in Same Sex and Heterosexual Relationships*. University of Sunderland and University of Bristol.

Donovan, C. & Hester, M. (2008) "'Because she was my first girlfriend, I didn't know any different': making the case for mainstreaming same-sex sex-relationship education", *Sex Education: Sexuality, Society and Learning*, 8(3), pp. 277-287.

Donovan, C. (2010) *Barriers to Making Referrals of Lesbian, Gay, Bisexual and Transgendered (LGBT) victim/ survivors to the MARAC and Recommendations for Improvement: A Study of IDVAs, MARAC Coordinators and PPU Detective Inspectors in the Northumbria Police Force*. Sunderland: Gateshead Domestic Violence Partnership and the University of Sunderland.

Donovan, C. (2011) *Northern Pride: Barriers to help-seeking in LGBT domestic abuse*. Sunderland: University of Sunderland.

Donavon, C. & Hester, M. (2011), "Seeking help from the enemy: help-seeking strategies of those in same-sex relationships who have experienced domestic abuse", *Child and Family Law Quarterly*, 23(1), pp26-40.

Duke, A. & Davidson, M. M. (2009) "Same-Sex Intimate Partner Violence: Lesbian, Gay, and Bisexual Affirmative Outreach and Advocacy", *Journal of Aggression, Maltreatment & Trauma*, no. 18, pp. 795-816.

Equality and Human Rights Commission (2011) *Services, public functions and associations. Statutory Code of Practice.* London: The Stationery Office.

Faraz Bhula, M. (2012) *Analysis of Ending Violence against Women Engagement Events Report*. Available: http://wales.gov.uk/consultation/dsjlg/2012/legislationvaw/vawwhitepaper.

Finneran, C. & Stephenson, R. (2013) "Gay and Bisexual Men's Perceptions of Police Helpfulness in Response to Male-Male Intimate Partner Violence", *Western Journal of Emergency Medicine*, 14(4), pp. 354-362.

Forced Marriage Unit (2013) *What is forced marriage in the LGBT community?* London: Foreign & Commonwealth Office.

Girma, M., Radice, S., Tsangarides, N. & Walter, N. (2014) *Detained: Women Asylum Seekers Locked Up In The UK*. London: Women for Refugee Women.
Gooch, B. (2012) *Shining the Light: 10 Keys to Becoming a Trans Positive Organisation*. London: Galop.

Hardesty, J. L., Oswald, R. F., Khaw, L. & Fonseca, C. (2011) "Lesbian/Bisexual Mothers and Intimate Partner Violence: Help Seeking in the Context of Social and Legal Vulnerability", *Violence Against Women*, 17(1), pp. 28-46.

Henderson, L (2003) *Prevalence of domestic violence amongst lesbians and gay men*. London: Sigma Research.

HMIC (2014a) *Everyone's business: Improving the police response to domestic abuse.* London: Her Majesty's Inspectorate of Constabulary.

HMIC (2014b) *Dyfed-Powys Police's approach to tackling domestic abuse*. London: Her Majesty's Inspectorate of Constabulary.

HMIC (2014c) *Gwent Police's approach to tackling domestic abuse*. London: Her Majesty's Inspectorate of Constabulary.

HMIC (2014d) *North Wales Police's approach to tackling domestic abuse*. London: Her Majesty's Inspectorate of Constabulary.

HMIC (2014e) *South Wales Police's approach to tackling domestic abuse.* London: Her Majesty's Inspectorate of Constabulary.

Home Office (2012) "Circular: a change to the Protection from Harassment Act 1997" *Home Office Circular 018/2012*. Available: https://www.gov.uk/government/publications/a-change-to-the-protection-from-aflonyddwch-act-1997-introduction-of-two-new-specific-offences-of-stelcio.

Home Office (2013) "Domestic violence and abuse: new definition", *Domestic violence and abuse*. Available: https://www.gov.uk/domestic-violence-and-abuse.

Liang, B., Gooman, L., Tummala-Narra, P. & Weintraub, S. (2005) "A Theoretical Framework for Understanding Help-Seeking Processes Among Survivors of Intimate Partner Violence", *American Journal of Community Psychology*, 36(1/2), pp. 71-84.

McClennen, J. C. (2005), "Domestic violence between same-gender partners", *Journal of international violence*, 20(2), pp149 - 154.

Richards, A., Noret, N. & Rivers, I. (2003) "Violence & Abuse in Same-Sex Relationships: A Review of Literature", *Social Inclusion & Diversity Paper No 5 Research Into Practice*. York: York St John College, University of Leeds.

Robinson, A. & Rowlands, J. (2006) *The Dyn Project: Support Men Experiencing Domestic Abuse. Final Evaluation Report*. Cardiff: Cardiff University & The Dyn Project.

Robinson, A. & Rowlands, J. (2009) "Assessing and managing risk among different victims of domestic abuse: Limits of a generic model of risk assessment?", *Security Journal*, no. 22, pp. 190-204.

Roch, A., Ritchie, G. & Morton, J. (2010) *Out of Sight, Out of Mind? Transgender People's Experiences of Domestic Abuse*. Edinburgh: LGBT Youth Scotland and Equality Network.

Rowlands, J. (2006) *Domestic Abuse Among Gay and Bisexual Men: An Exploratory Study in South Wales*. Monograph: School of Social Work and Psychosocial Studies, University of East Anglia.

Rumney, P. N. S. (2009) “Gay male rape victims: law enforcement, social attitudes and barriers to recognition”, *The International Journal of Human Rights*, 13(2-3), pp. 233-250.

Schilt, K. & Westbrook, L. (2009) “’Gender Normals,’ Transgender People, and the Social Maintenance of Heterosexuality”, *Gender & Society*, 23(4), pp. 440-464.

Simpson, E. K. & Helfrich, C. A. (2007) “Lesbian Survivors of Intimate Partner Violence: Provider Perspectives on Barriers to Accessing Services”, *Journal of Gay & Lesbian Social Services*, 18(2), pp. 39-59.

Smee, S. & moosa, z. (2010) *Realising rights: increasing ethnic minority women's access to justice*. London: Fawcett Society.

Stephenson, R., Hall, C. D., Williams, W., Sato, K. & Finneran, C. (2013) “Towards the development of an intimate partner violence screening tool for gay and bisexual men”, *Western Journal of Emergency Medicine*, 14(4), pp. 390-400.

Sullivan, M. (2011) *An Exploration of Service Delivery to Male Survivors of Sexual Abuse.* London: Winston Churchill Memorial Trust.

Todahl, J.L., Linville, D., Bustin,& Wheeler. A., (2009) “Sexual assault support services and community systems: understanding critical issues and needs in the LGBTQ community”, *Violence Against Women*, 15(8), pp 952-975.

Walby, S. & Allen, J. (2004) “Domestic violence, sexual assault and stalking: Findings from the British Crime Survey”, *Home Office Research Study 276*. London: Home Office.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Guidance: Sex and Relationships Education in Schools*. Llywodraeth Cynulliad Cymru Cylchlythyr: 019/2010.

Llywodraeth Cymru (2013) *Yr Hawl i fod yn Ddiogel: Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig. Trydydd Adroddiad Blynyddol 2012-13.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Women's National Commission (2009) *Still We Rise: Report from the WNC Focus Groups to inform the Cross-Government Consultation 'Together We Can End Violence Against Women and Girls'*, London: Women's National Commission.

Women’s National Commission (2010) *Findings from the WNC survey on women-only services.* Available:

http://wnc.equalities.gov.uk/publications/cat_view/143-policy-documents/77-equalities.html.

Women's Resource Centre (2007) *Why women only? The value and benefit of by women, for women services.* London: Women's Resource Centre.

Atodiad A. Adolygiad Llawn o Dystiolaeth

Methodoleg

A.1. Cynhaliom Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth i ddynodi'r deunydd darllen sy'n berthnasol i bedwar cwestiwn ymchwil. Cynhaliwyd chwiliadau am ddeunydd darllen academaidd ar wyth cronfa ddata, gan gynnal chwiliadau trwy bum ffynhonnell arall ar gyfer deunydd darllen llwyd perthnasol, gyda chyhoeddiadau sydd eisoes yn hysbys i'r ymchwilwyr yn ychwanegu at y chwiliadau. Cyfyngwyd y chwiliadau i ymchwil a gyhoeddwyd ar ôl 1995, yn Saesneg gyda phoblogaethau sampl yn y DU, Ewrop, Gogledd America, Awstralia a Seland Newydd.

A.2. Dewiswyd 46 erthygl i'w hadolygu, ar ôl darparu gwybodaeth sy'n cyfrannu at o leiaf un o gwestiynau'r Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth, a chan roi ystyriaeth i gryfder yr ymchwil, gan gynnwys erthyglau sy'n cwmpasu ystod y categorïau camdriniaeth, gwahanol gyfeiriadeddau rhywiol a hunaniaethau rhyw a chan gynnwys deunydd darllen sy'n arbennig o berthnasol i Gymru.

Cwestiynau'r Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth

- Pa rwystrau cyffredinol y mae pobl yn eu hwynebu wrth droi at wasanaethau cymorth cam-drin domestig, stelcio, aflonyddu a thrais rhywiol?
- Beth yw'r rhwystrau penodol i droi at wasanaethau cymorth priodol cam-drin domestig, stelcio, aflonyddu a thrais rhywiol ar gyfer:
    - Lesbiaid a menywod hoyw
    - Dynion hoyw
    - Dynion a menywod deurywiol
    - Pobl drawsrywiol (gan gynnwys gwahaniaethau mewn rhwystrau rhwng menywod trawsrywiol a dynion trawsrywiol a'r rhai nad ydynt yn dynodi'r naill ryw neu'r llall)
- Oes unrhyw rwystrau ychwanegol i droi at y gwasanaethau hyn sy'n effeithio'n benodol ar bobl LHDTh sy'n ddu, o leiafrifoedd ethnig ac/neu'n ffoaduriaid?
- Pa enghreifftiau sydd o arfer effeithiol wrth liniaru'r rhwystrau hyn?

Rhwystrau cyffredinol i droi at wasanaethau

A.3. Cynigia Liang a'i gydweithwyr (2005) fframwaith damcaniaethol, gan esbonio tri cham o ofyn am gymorth mewn perthynas â thrais partner mynwesol: diffinio'r broblem, penderfynu gofyn am help a dewis ffynhonnell gymorth. Dadleuant fod ffactorau unigol, rhyngbersonol a chymdeithasol-ddiwylliannol yn dylanwadu ar wneud penderfyniadau ym mhob un o'r camau hyn, megis peidio â diffinio'r gamdriniaeth oherwydd cefnogaeth y teulu neu'r ffrindiau i'r camdriniwr (cymdeithasol-ddiwylliannol), penderfynu peidio â gofyn am help oherwydd bod hunanfeio'n gwneud iddynt deimlo y gallant ddatrys y broblem eu hunain (unigol) neu ddewis peidio ag adrodd y gamdriniaeth i'r heddlu oherwydd eu bod yn ofni wynebu eu camdriniwr yn y llys (rhyngbersonol).

A.4. Gellir cymhwyso fframwaith Liang a'i gydweithwyr yn ehangach i ymddygiad gofyn am help pobl sydd wedi cael profiad o fathau eraill o gamdriniaeth. Canfu ymchwil Comisiwn Cenedlaethol y Menywod (2008) gyda 300 o fenywod a merched ledled Lloegr i lywio strategaeth genedlaethol trais yn erbyn menywod a merched ystod o rwystrau unigol, rhyngbersonol a chymdeithasol-ddiwylliannol i adrodd ar drais seiliedig ar ryw, y manylir arnynt yn Nhabl 1.

Tabl 1. Rhwystrau i droi at wasanaethau cam-drin/stelcio ac aflonyddu/trais rhywiol

Unigol	**Rhyngbersonol**	**Cymdeithasol-ddiwylliannol**
– Peidio â dynodi eu profiad fel camdriniaeth. Noda Todahl a'i gydweithwyr (2009) hefyd fod dynion a menywod yn ystyried gorfodaeth rywiol yn arferol os nad oes grym corfforol ynghlwm ac felly nid ydynt yn adrodd ar y profiadau hyn. – Beio'u hunain am eu profiadau. – Ddim yn ymwybodol o'r	– Pryder am gyfrinachedd a rhannu gwybodaeth heb ganiatâd rhwng darparwyr gwasanaeth. – Ofn y byddai eu plant yn cael eu tynnu ymaith os byddant yn gofyn am help.	– Ofn y bydd pobl eraill yn eu beio am yr hyn a ddigwyddodd iddynt. Ychwanegir at hyn gan yr agweddau cyffredin o feio'r dioddefwr mewn cymdeithas. – Peidio ag ymddiried yn y gwasanaethau statudol, a phrofi teimladau o eithrio, ynysu a gwrthodiad pan fyddant yn cysylltu â'r gwasanaethau hyn. – Nid yw lleoliadau'r gwasanaeth o fewn cyrraedd hawdd iddynt, er enghraifft angen dal dau fws i'r gwasanaeth, neu'n byw mewn ardal wledig sydd heb wasanaethau. – Nid yw'r gwasanaethau o fewn cyrraedd pobl anabl. – Methu mynd at wybodaeth am gefnogaeth yn eu hiaith eu hunain. – Methu mynd at gronfeydd cyhoeddus ac felly nid ydynt yn gymwys i droi at y gwasanaethau.

gwasanaethau sydd ar gael iddynt.		– Byw mewn cymuned lle mae mathau penodol o drais, fel Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod, yn cael ei oddef. – Profiad o bwysau yn eu grŵp crefyddol neu ddiwylliannol i beidio â chwalu eu teulu.

A.5. Er bod tipyn o'r ymchwil bresennol ar y rhwystrau i droi at wasanaethau'n tynnu oddi ar samplau benywaidd, nododd rhai ymchwilwyr rwystrau penodol y mae dynion yn eu hwynebu, waeth beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol. Canfu Walsh a'i gydweithwyr (a ddyfynnwyd yn Burrowes a Horvath, 2013) fod dynion dipyn yn llai tebygol o wybod lleoliad gwasanaethau cymorth perthnasol ar gyfer trais o gymharu â menywod. Yn yr un modd, arsylwa Sullivan (2011) ddiffyg hysbysebu penodol ar gyfer gwasanaethau cymorth i ddynion, a dadleua bod gwasanaethau argyfwng trais yn tueddu i gael eu cyflwyno gan weithwyr cymorth sy'n fenywod mewn "lle diffiniedig i fenywod yn unig" gan greu'r potensial i ddynion deimlo'u bod yn cael eu heithrio. Awgrymodd ymchwil gan Survivors UK (dyfynnwyd yn Rumney, 2009) efallai nad yw dynion sy'n cael profiad o drais rhywiol yn gwybod bod y trais a brofwyd ganddynt yn drosedd, ac fel merched sy'n dioddef, maen nhw'n ofni na fydd neb yn eu credu. Gallai dynion sy'n cael eu treisio gan ddyn arall boeni hefyd y gallai eu rhywioldeb fod yn fater yn yr ymchwiliad (dyfynnwyd yn Rumney, 2009).

A.6. Yn olaf, rhwystr allweddol i unrhyw un sy'n mynd trwy brofiad o gam-drin domestig, stelcio, aflonyddu a thrais rhywiol rhag gofyn am help, yw'r ofn y bydd y camdriniwr yn dial (Roch, Ritchie & Morton, 2010).

Rhwystrau penodol i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol

A.7. Er y gall y rhwystrau a ddisgrifiwyd uchod fod yn berthnasol i unrhyw un sy'n cael profiad o gam-drin domestig, stelcio, aflonyddu neu drais rhywiol, mae'r dystiolaeth yn dangos fod pobl LHDTh yn wynebu rhwystrau penodol i droi at wasanaethau priodol. Er bod yr ymchwilwyr wedi canolbwyntio'n gynyddol ar fynd i'r afael â'r bwlch tystiolaeth ar brofiadau penodol pobl LHDTh dros y degawd diwethaf, mae'r ymchwil hyd yma wedi canolbwyntio'n bennaf ar gam-drin domestig mewn perthnasoedd mynwesol ac yn aml nid ydynt yn gwahanu'r canfyddiadau

rhwng profiadau penodol lesbiaid a menywod hoyw, dynion hoyw, dynion deurywiol, menywod deurywiol, dynion trawsrywiol, menywod trawsrywiol a phobl eraill a ddynodwyd ar y sbectrwm trawsrywiol.

Cam-drin domestig (gan bartner mynwesol presennol neu flaenorol)

Diffyg ymwybyddiaeth o gam-drin domestig mewn perthnasoedd un rhyw

A.8. At ei gilydd, nid yw pobl sy'n mynd trwy brofiadau cam-drin domestig yn gofyn am help oherwydd nid ydynt yn cydnabod mai cam-drin yw eu profiad nhw (WNC, 2009; Todahl et al, 2009). Fodd bynnag, gallai fod rhwystr ychwanegol fan hyn i bobl LHDTh nad ydynt yn ymwybodol y gall cam-drin domestig ddigwydd mewn perthnasoedd un rhyw (Rowlands, 2006; Donovan, 2011; Richards et al, 2003). Awgryma Richards a'i gydweithwyr (2003) y gallai menywod lesbiaidd a hoyw yn benodol feddu ar "farn ddelfrydol o berthnasoedd lesbiaidd, ac felly'n gwadu bodolaeth camdriniaeth, ond dadleua Chan (2005) fod yna "dawelwch cymharol" ymhlith y gymuned gwrywod hoyw am gam-drin domestig o gymharu â chymunedau lesbiaidd. Priodola hyn i draddodiadau diwylliannol menywod o hunanatgyrchedd mewn perthynas ag iechyd a lles (Chan, 2005).

A.9. Yn ei astudiaeth gyda dynion hoyw sy'n cael eu cam-drin yn y cartref yn Ne Cymru, canfu Rowlands (2006) fod diffyg dealltwriaeth, ymhlith ffrindiau a gweithwyr proffesiynol, y gall cam-drin domestig ddigwydd mewn perthnasoedd un rhyw ymddwyn fel rhwystr i adrodd. Adroddodd dynion hoyw yn Ne Cymru eu bod yn teimlo nad oedd yr heddlu "eisiau deall" camdriniaeth mewn perthnasoedd un rhyw (Rowlands, 2006). Mae Donovan (2011) yn gweld bod diffyg dealltwriaeth o berthnasoedd LHDTh ymhlith yr heddlu ac ymarferwyr eraill yn ymddwyn fel rhwystr i wneud atgyfeiriadau i Gynadleddau Asesu Risg Amlasiantaeth, ac yn aml ychydig ddealltwriaeth, os o gwbl, sydd gan ymarferwyr o "ymarferoldeb" perthnasoedd LHDTh a pha ymddygiadau neu ddeinameg perthynas allai gyfansoddi cam-drin domestig (Donovan a Hester, 2011; Constable et al, 2011).

A.10. At hynny, awgryma McClennen (2005) a Chan (2005) fod cred mewn "curo'i gilydd" yn hynod gyffredin ymhlith gweithwyr proffesiynol wrth

ymateb i bobl sy'n cael eu cam-drin gan bartner o'r un rhyw, ac adroddodd Rowlands (2006) fod dynion hoyw yng Nghymru'n ofni cael eu hystyried i fod cymaint ar fai am y gamdriniaeth a gawsant. Dadleua Richards a'i gydweithwyr (2006) a Hardesty (2011) y bodola gredoau ystrydebol hefyd ymhlith gweithwyr proffesiynol nad yw cam-drin domestig yn digwydd mewn perthnasoedd lesbiaidd, yn ogystal â'r ystrydeb fod menywod yn wan os ydynt yn gadael i fenyw arall eu cam-drin (Hardesty, 2011).

Gwasanaethau sydd ar gael i bobl LHDTh sy'n cael eu cam-drin yn y cartref

A.11. Mae pobl LHDTh yn adrodd na wyddant pa wasanaethau sy'n bodoli i bobl LHDTh sy'n cael eu cam-drin yn y cartref (Rowlands, 2006; Donovan, 2011; Constable et al, 2011). Mewn ymgyngoriadau cynnar ar y *Bil Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)*, dadleuodd yr ymatebwyr fod mynediad i wasanaethau LHDTh arbenigol yng Nghymru'n "loteri cod post" a bod naill ai diffyg gwasanaethau LHDTh arbenigol sy'n darparu cefnogaeth ar gyfer cam-drin domestig a rhywiol neu nid oedd pobl LHDTh yn ymwybodol o'r rhain os oeddent yn bodoli (Faraz Bhula, 2012).

A.12. Yn wir, mae'r darparwyr gwasanaeth eu hunain yn cydnabod diffyg allgymorth i ddioddefwyr LHDTh (Ciarlante a Fountain, 2010). Yn aml, mae'r wybodaeth sydd ar gael am gam-drin domestig yn cyfeirio'n unig at berthnasoedd heterorywiol (Bornstein et al, 2006; Donovan a Hester, 2011) a cheir diffyg gwybodaeth gyffredinol am gam-drin domestig mewn perthnasoedd un rhyw (Bornstein et al, 2006). Adroddodd dynion hoyw yn astudiaeth Rowlands (2006) yng Nghymru eu bod yn teimlo nad oedd ganddynt amser i wneud yr "ymchwil" angenrheidiol i ddarganfod pa wasanaethau sy'n bodoli iddynt. Canfu Roch a'i gydweithwyr (2010) fod pobl drawsrywiol o'r farn nad oedd sefydliadau cam-drin domestig yn fodlon nac yn gallu'u cynorthwyo.

A.13. Noda Ard a Makadon (2011) fod darparwyr gwasanaeth cam-drin domestig yn tueddu i edrych ar gam-drin domestig fel profiad a gyflawnir gan wrywod, heterorywiol ac mae prin yw'r gwasanaethau LHDTh arbenigol. Canfu Hardesty (2011) fod lesbiaid wedi dweud na wyddent eu

bod yn cael eu “cwmpasu” gan gyfreithiau cam-drin domestig a bod hawl ganddynt i ffonio’r heddlu. At hynny, er y gall menywod lesbiaidd a deurywiol fynd at wasanaethau prif ffrwd i fenywod yn unig, nid yw’r gwasanaethau hyn yn ddiogel o reidrwydd, oherwydd gall eu partner benywaidd sy’n cam-drin fynd at yr un gwasanaethau cymorth a hwyrach na fydd modd i’r gwasanaeth eu sgrinio allan (Bornstein et al, 2006).

Asesu risgiau

A.14. Yn eu hastudiaeth o ddioddefwyr gwrywaidd sy’n adrodd i wasanaethau yng Nghaerdydd a Glasgow, dadleua Robinson a Rowlands (2009) fod y defnydd o offer asesu risg sy’n benodol i ddioddefwyr LHDTh yn cyfansoddi “arfer heterorywiaethol”. Dyluniwyd yr offer asesu risg presennol i ddioddefwyr sy’n ferched ac felly’n awgrymu bod dioddefwyr sy’n ferched yn cael profiad o bob ffactor risg, ar wahân i ddefnyddio arfau, yn amlach na dioddefwyr sy’n ddynion (Robinson & Rowlands, 2009; Stephenson et al, 2013), ac asesir bod dynion hoyw mewn llai o risg na dynion heterorywiol (Robinson & Rowlands, 2009). Gan fod yr asesiad o lefel y risg yn ffactor allweddol wrth wneud penderfyniadau ynghylch pa wasanaethau fydd yn cael eu cynnig i ddioddefwr, gallai diffyg adnabyddiaeth arwain at lai o wasanaethau i fod ar gael i ddynion hoyw.

Darparu lloches

A.15. Mae diffyg darpariaeth lloches yn parhau i ddioddefwyr cam-drin domestig sy’n ddynion, gan gynnwys diffyg darpariaeth arbenigol i ddynion hoyw (Rowlands, 2006; Richards et al, 2003; Ard & Makadon, 2011; Constable et al, 2011; Ciarlante & Fountain, 2010; Sullivan, 2011). Er bod llochesi i fenywod yn unig ar gael i fenywod lesbiaidd a deurywiol, dadleua Chan (2005) y gallai’r llochesi prif ffrwd hyn fod yn amhriodol i lesbiaid, gyda Bornstein a’i gydweithwyr (2006) yn dadlau bod menywod lesbiaidd a deurywiol yn ystyried y gwasanaethau hyn fel rhai ar gyfer menywod heterorywiol yn unig. Awgryma Richards a’i gydweithwyr (2003) y gallai lesbiaid hefyd brofi homoffobia yn llochesi menywod y brif ffrwd. Awgryma Ard a Makadon (2011) nad yw menywod trawsrywiol yn cael eu derbyn i lochesi i fenywod yn unig weithiau ar sail hanes eu rhyw.

Pryderon am yr ymateb y gallent ei gael gan wasanaethau

A.16. Adroddodd dynion hoyw yn ne Cymru a gafodd brofiad o gam-drin domestig iddynt gael ymatebion homoffobig gan asiantaethau, yn enwedig yr heddlu, a theimlant iddynt brofi "erledigaeth ddwbl" am na chawsant eu cymryd o ddifrif gan yr heddlu pan roesant wybod eu bod yn cael eu cam-drin (Rowlands, 2006). Wrth gwrs, nid yw ofn ymatebion homoffobig gan yr heddlu ac asiantaethau eraill yn benodol i Gymru nac i ddynion hoyw, ond adroddir yn ei gylch yn gyson gan bobl LHDTh sy'n cael eu cam-drin yn y cartref (Robinson & Rowlands, 2006; Hester et al, 2012; Donovan, 2011; Richards et al, 2003; Bornstein, 2006; Duke & Davidson, 2009; Miles-Johnson, 2013; Constable et al, 2011).

A.17. Mae ofnau pobl LHDTh o gael profiad o homoffobia/ffobia deurywiol/trawsrywiol gan ddarparwyr gwasanaeth wedi'u seilio ar eu profiadau blaenorol o wahaniaethu cymdeithasol (Chan, 2005) a thrawma seicolegol a chorfforol, gan gynnwys cael eu gwrthod gan y teulu, areithiau casineb, troseddau casineb a bwlio (Ard & Makadon, 2011). Mae'r profiadau hyn yn llywio'r gred fod rhagfarn yn "treiddio" i'r ddarpariaeth gwasanaeth (Richards et al, 2003) a phryderon ynghylch gorfod "datgelu'ch rhywioldeb" er mwyn gofyn am help (Robinson & Rowlands, 2006; Ard & Makadon, 2011).

Yr Heddlu

A.18. Yn eu hadolygiad diweddar o ymatebion heddluoedd Cymru a Lloegr i gam-drin domestig, ychydig iawn gyfeiriodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC, 2014a) at ymatebion penodol i ddioddefwyr LHDTh, ar wahân i awgrymu bod angen i heddweision feddu ar ddealltwriaeth o wasanaethau LHDTh arbenigol er mwyn gallu atgyfeirio'n briodol. Yn eu hadroddiadau unigol ar heddluoedd Dyfed-Powys (HMIC, 2014b), Gwent (HMIC, 2014c), Gogledd Cymru (HMIC, 2014d), De Cymru (HMIC, 2014e), ni chyfeiriwyd at unrhyw fesur sydd ar waith a ddyluniwyd i ddarparu'n benodol ar gyfer dioddefwyr LHDTh. Nid oes modd dweud ydy hyn oherwydd nad ydynt yn bodoli yn heddluoedd Cymru neu oherwydd nad ymchwiliodd HMIC i hyn.

A.19. Mae pobl LHDTh yn hynod wyliadwrus ynghylch cysylltu â'r heddlu, gyda lesbiaid yn astudiaeth Comisiwn Cenedlaethol y Menywod (2009) yn adrodd iddynt fod ar "ochr anghywir y system gyfiawnder" oherwydd eu hunaniaeth. Canfu Finneran a Stephenson (2013) fod dynion hoyw'n ystyried fod cysylltu â'r heddlu'n llai defnyddiol i ddioddefwr gwryw hoyw nag i ddioddefwr benywaidd. Roedd pobl drawsrywiol yn disgwyl y byddent yn cael profiad naill ai o ddifaterwch neu hyd yn oed trais gan yr heddlu neu ddarparwyr gwasanaeth eraill (Bornstein at al, 2006). Adroddodd pobl drawsrywiol a ymatebodd i astudiaeth Roch a'i gydweithwyr (2010) nad oedd yr heddlu'n cymryd eu profiad o gam-drin domestig o ddifrif, gan wneud iddynt deimlo'n gyfrifol, a bod eu hunaniaeth drawsrywiol yn cael ei dylanwadu'n negyddol gan y ffordd yr oedd camdriniaeth ddomestig yn cael ei hymchwilio. Roeddent yn poeni hefyd am ddatgelu eu statws trawsrywiol wrth yr heddlu a'r ffobia trawsrywiol y gallent gael profiad ohono o ganlyniad i hynny (Roch et al, 2010). At hynny, hwyrach na fydd pobl LHDTh ond yn poeni am brofi gwahaniaethu eu hunain, ond yn hytrach canfu Bornstein a'i gydweithwyr (2006) eu bod yn poeni am roi eu partner sy'n cam-drin trwy "gydadweithiau gwahaniaethol a pheryglus" gyda'r heddlu.

A.20. Mae Donovan (2010) yn dadlau bod ofn pobl LHDTh o wahaniaethu gan yr heddlu'n cael effaith ar nifer y bobl LHDTh sy'n cael eu cyfeirio at y Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol, gan fod mwyafrif yr atgyfeiriadau hyn yn cael eu gwneud gan yr heddlu.

Darparwyr gwasanaeth eraill

A.21. Canfu Donovan (2011) fod diffyg ffydd yng ngallu'r gwasanaethau i ddarparu ymateb priodol i bobl LHDTh, tra chanfu Hardesty (2011) fod lesbiaid yn ofn cael camdriniaeth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn benodol. Mynega pobl drawsrywiol bryder na fydd darparwyr gwasanaeth yn deall cymhlethdod materion trawsrywiol a byddant yn wynebu rhagfarn ganddynt (Roch et al, 2010). Teimlai ymatebwyr yn astudiaeth Hester a'i gydweithwyr (2012) efallai na fydd darparwyr gwasanaeth trais domestig a rhywiol wedi'u hyfforddi'n uchel mewn "materion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar rywioldeb", lle na fydd gan

ddarparwyr gwasanaeth LHDTh arbenigedd o bosibl mewn trais domestig a rhywiol. Noda Ard a Makadon (2011) nad yw darparwyr gwasanaeth yn gofyn yn aml am gyfeiriadedd rhywiol na hunaniaeth rhyw, sy'n ei gwneud hi'n anodd datgelu cam-drin domestig mewn perthynas LHDTh heb gael y sicrwydd blaenorol hwn na fydd y darparwr yn feirniadol. Dadleua Simpson a'i gydweithwyr (2007) fod lesbiaid yn cael profiad o rwystrau mewn gwasanaethau megis cael eu penodi i aelodau staff penodol, neu ddefnyddio iaith heterorywiaethol.

Pryderon am blant

A.22. Yn aml, mae pobl â phlant sy'n cael profiad o gam-drin domestig yn adrodd eu bod yn ofni y bydd eu plant yn cael eu tynnu oddi wrthynt fel rhwystr rhag troi at gymorth (WNC, 2009). Canfu astudiaeth Hardesty (2011) gyda mamau lesbiaidd iddynt gael ymatebion stigmateiddio a dirymol gan ddarparwyr gwasanaeth, yn ogystal â bygythiadau gan yr heddlu y byddai eu plant yn cael eu tynnu oddi wrthynt. Arweiniodd bygythiadau'r heddlu o dynnu plant o'r cartref atynt i beidio â ffonio'r heddlu yn y dyfodol (Hardesty, 2011). Adroddodd mamau lesbiaidd oedd mewn cysylltiad â thad eu plant eu bod yn ofni y byddai'n cael gwarchodaeth lawn pe datgelid eu bod yn cael profiad o gam-drin domestig (Hardesty, 2011). Dadleua Constable a'i gydweithwyr (2011) fod yna ddiogelwch annigonol ar gyfer plant o deuluoedd hoyw, lesbiaidd, deurywiol, trawsrywiol a rhyngrywiol dan ddeddfwriaeth cyfraith deuluol Awstralia, sef mater y dylid ei ystyried hefyd yng nghyd-destun cyfreithiol Cymru.

Trais pellach gan y camdriniwr

A.23. Mae pawb sy'n cael profiad o gamdriniaeth ddomestig yn cael profiad o gamdriniaeth barhaus neu gynyddol gan bartner camdriniol pan fyddant yn gofyn am help (Walby & Allen, 2004), ac mae hyn yn wir hefyd ar gyfer pobl LHDTh sy'n cael eu cam-drin (Rowlands, 2006; Donovan, 2011; Richards et al 2003). Fodd bynnag, gallai'r camdrinwyr ddefnyddio tactegau'n seiliedig ar gyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw, fel "datgelu rhywioldeb" rhywun fel lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol (Hester et al, 2012; Ard & Makadon, 2011; Duke &

Davidson, 2009). Gallai'r camdriniwr geisio ynysu'r dioddefwr (Constable et al, 2011), a allai wedyn gyfrannu at ofnau o fod ar eu pen eu hunain (Donovan, 2011), ofn o gael eu hanwybyddu gan eu cymuned (Hardesty, 2011) neu o golli eu cysylltiad mwyaf sicr gyda'r gymuned LHDTh (Duke & Davidson, 2009), a theimlad o ymrwymiad i'r partner sy'n cam-drin (Bornstein et al, 2006).

Pwysau sy'n gysylltiedig â hunaniaeth fel person LHDTh

A.24. Mae pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol yn adrodd eu bod yn teimlo'n ansicr, neu gywilydd ynghylch eu rhywioldeb (Hardesty, 2011; Robinson & Rowlands, 2006), a gallai camdrinwyr ddefnyddio synnwyr negyddol y goroeswr o'i hun i ymarfer rheolaeth (Duke & Davidson, 2009). Hwyrach fod gan bobl drawsrywiol euogrwydd heb ei ddatrys a hunangasineb ynghylch bod yn drawsryweddol, sy'n ei gwneud hi'n anodd derbyn eu bod yn haeddu cefnogaeth (Roch et al, 2010). Awgryma Bornstein a'i gydweithwyr (2006) y gallai'r gwarthnod o gael diagnosis o "anhwylder hunaniaeth rhyw" waethygu'r cywilydd a'r hunanamheuaeth sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.

A.25. Yn olaf, gallai pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol sy'n cael profiad o gamdriniaeth boeni fod datgelu cam-drin domestig mewn perthynas un rhyw atgyfnerthu agweddau homoffobig cymdeithasol (Duke & Davidson, 2009; Chan, 2005).

Cam-drin domestig (gan aelod arall o'r teulu)

A.26. Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth ar y rhwystrau penodol i droi at wasanaethau ar gyfer pobl LHDTh sy'n cael profiad o gam-drin domestig gan rywun ar wahân i bartner mynwesol, ond mae'r bobl hyn yn debygol o gael profiad o lawer o'r un rhwystrau â phobl eraill sy'n cael profiad o gam-drin domestig.

A.27. Mae canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron ar briodas dan orfod a mathau eraill o drais seiliedig ar "anrhydedd" yn awgrymu y gallai pobl LHDTh wynebu'r mathau hyn o gamdriniaeth gan berthnasau neu bobl eraill yn eu cymuned o ganlyniad i'r ffordd yr ystyrir eu cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhyw. Noda Gwasanaeth Erlyn y Goron y gallai hyn gynnwys defnyddio priodas dan orfod i "drin" pobl LHDTh, neu

ddefnyddio trais “cywirol”. Mae taflen wybodaeth yr Uned Priodasau dan Orfod ar bobl LHDTh a phriodasau dan orfod yn rhoi manylion astudiaethau achos o bobl hoyw a lesbiaidd sy’n cael eu gorfodi neu eu twyllo gan berthnasau i deithio i wledydd De Asia a’r Dwyrain Canol a’u gorfodi i briodi. Yn yr astudiaethau achos hyn, mae pobl yn disgrifio nid yn unig briodasau dan orfod ond eu profiad o drais corfforol, carchariad a bygythiadau i ladd gan aelodau’r teulu.

Stelcio ac aflonyddu

A.28. Ychydig iawn o dystiolaeth y canfuwyd gennym sy’n gysylltiedig yn benodol â phrofiad LHDTh o stelcio ac aflonyddu. Nododd Rowlands (2006) mewn sampl heb fod yn gynrychioliadol o ddynion hoyw oedd wedi cael profiad o gam-drin domestig yng Nghymru, fod chwarter ohonynt wedi cael profiad o stelcio gan eu partner camdriniol.

A.29. Adroddodd menywod trawsrywiol a gymerodd ran yn ymchwil Comisiwn Cenedlaethol y Menywod (2009) brofiad o fod ofn mynd allan yn gyhoeddus yn eu hardal leol, er enghraifft oherwydd ymosodiad diweddar ar fenyw drawsrywiol arall neu yn sgil aflonyddwch a gawsant gan blant ysgol. Teimlai menywod trawsrywiol fod diffyg gorfodaeth yn erbyn pobl oedd yn cam-drin menywod trawsrywiol yn eiriol (WNC, 2009).

Trais rhywiol

Diffyg ymwybyddiaeth o drais rhywiol yn erbyn pobl LHDTh

A.30. Mae Todahl a’i gydweithwyr yn dadlau bod pobl LHDTh sy’n cael profiad o drais rhywiol yn wynebu diffyg ymwybyddiaeth ar ddwy wedd: diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol o gymunedau LHDTh mewn cymdeithas, a thrafodaeth agored gyfyngedig am drais rhywiol yn y gymuned LHDTh. Canfu Allen (dyfynnwyd yn Rumney, 2009) fod dynion hoyw’n amharod i edrych ar eu profiad o ryw heb ganiatâd fel “trais”. Canfu Hester a’i gydweithwyr (2012) o fewn y gymuned drawsrywiol, fod trais rhywiol yn cael eu “guddio” yn benodol ac yn annhebygol o gael ei drafod.

Stereoteipiau rhywiol negyddol am bobl LHDTh

A.31. Adroddodd pobl LHDTh fod y pryder am gael profiad o stereoteipiau negyddol yn eu hatal rhag adrodd ar eu profiadau o drais rhywiol (Todahl et al, 2009; Rumney, 2009). Dynodwyd ystod o stereoteipiau negyddol, sy'n bennaf gysylltiedig ag ymddygiad rhywiol pobl LHDTh ar draws nifer o astudiaethau:

- Y gred y gall trais ddigwydd dim ond rhwng dyn a menyw (Todahl et al, 2009)
- Y gred fod dynion yn rhy gorfforol gryf i gael eu gorfodi i gael rhyw (Rumney, 2009)
- Y gred fod trais yn llai trawmatig i ddynion hoyw na dynion neu fenywod heterorywiol (Rumney, 2009)
- Y gred fod dynion hoyw'n llac eu moesau (Todahl et al, 2009) neu fod menywod deurywiol yn rhywiol "farus" ac felly mae'n rhaid eu bod yn "gofyn" am gael eu treisio (WNC, 2009)
- Y gred nad yw lesbiaid hŷn yn rhywiol (Todahl et al, 2009)
- Y gred na all dynion hoyw na lesbiaid gael eu treisio (Todahl et al, 2009; WNC, 2009)
- Y gred fod pobl drawsrywiol yn rheibus (Todahl et al, 2009) a'u bod wedi 'twyllo'r' cyflawnydd yn fwriadol (Gooch, 2012)
- Y gred y dylai menywod trawsrywiol allu amddiffyn eu hunain "fel dynion" (Gooch, 2012).

Argaeledd a phriodoldeb y gwasanaethau

A.32. Mae Todahl a'i gydweithwyr (2009) yn adrodd fod dynion hoyw'n llai tebygol o fod yn ymwybodol o wasanaethau cyfeillgar i bobl LHDTh na menywod, ond nododd y lesbiaid yr ymgynghorodd Comisiwn Cenedlaethol y Menywod (2009) â nhw fod sawl ymarferwr yn y sector trais rhywiol yn rhan o'r gymuned lesbiaidd, a allai greu rhwystr yn ei hun.

A.33. Adroddodd menywod lesbiaidd a deurywiol i Hester a'i gydweithwyr (2012) o gael eu treisio gan fenyw, gall darparwyr gwasanaeth ei chael hi'n "anodd dychmygu" menyw yn tramgwyddo.

A.34. Noda Abdullah-Khan (dyfynnwyd yn Rumney, 2009) fod dynion hoyw'n ystyried bod gwasanaeth yr heddlu'n "sefydliad gwrywaidd" ac felly'n credu y gallai'r heddlu herio'u natur wrywaidd petaen nhw'n rhoi gwybod

am drais rhywiol. Mae Rumney'n awgrymu hefyd bod heddweision yn ystyried nad yw dynion hoyw sy'n adrodd ar drais rhywiol yn gredadwy.

A.35. Dywed menywod deurywiol eu bod yn cael profiad o ddiffyg cymuned a hunaniaeth y tu allan i'w hymddygiad rhywiol, sy'n golygu y cânt eu rhywioli pan ofynnant am help a'u stigmateiddio pan chwiliant am gymuned (WNC, 2009).

A.36. Noda Gooch (2012) y gallai pobl drawsrywiol gael eu heithrio o wasanaethau oherwydd eu hanes rhyw, wrth i Todahl a'i gydweithwyr ddadlau yr ystyrir bod gan feddygon a nyrsys ddiffyg parch at bobl drawsrywiol, gan arwain at bobl drawsrywiol yn cael profiad o gywilydd pellach wrth roi gwybod am drais rhywiol.

Croestorri ymyleiddio

Pobl dduon, o leiafrifoedd ethnig a ffoaduriaid

A.37. Canfu arfarniad 2006 o wasanaeth arbenigol Cymru ar gyfer dynion (hoyw gan mwyaf) oedd yn cael profiad o gam-drin domestig fod dynion o gymunedau pobl dduon, lleiafrifoedd ethnig a ffoaduriaid yn cael eu tangynrychioli yn y prosiect (Robinson & Rowlands, 2006), ond ni chyhoeddwyd gwybodaeth ddiweddarach o ran ydy hyn wedi newid.

A.38. Wyneba pobl LHDTh o leiafrifoedd ethnig rwystrau rhag troi at wasanaethau oherwydd y croestoriad o brofiadau hiliaeth a homoffobia mewn sefydliadau, ac weithiau oherwydd homoffobia yn eu cymunedau eu hunain. Noda Miles-Johnson (2013) fod aelodau o gymunedau lleiafrifol yn fwy amharod i roi gwybod am droseddau'n gyffredinol oherwydd erledigaeth gan yr heddlu ac mae Chan (2005) yn cytuno bod gan bobl hoyw o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig resymau ychwanegol i beidio ag ymddiried yn yr heddlu, oherwydd profiadau o hiliaeth, a darpariaeth ddiwylliannol neu ieithyddol amhriodol.

A.39. Canfu ymchwil Hardesty (2011) gyda mamau lesbiaidd fod y bobl sy'n byw mewn "cilfach ethnig" oedd yn anoddefgar o gyfunrhywiaeth yn ei chael hi'n hynod anodd gofyn am help. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw pob cymuned sy'n anoddefgar o gyfunrhywiaeth yn ddu neu o leiafrif ethnig, ac nid yw pob cymuned ddu a lleiafrif ethnig yn anoddefgar o gyfunrhywiaeth.

A.40. Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches LHDTh wedi cael profiad mynych o drais rhywiol ac wrth hawlio lloches ar sail eu cyfeiriadedd rhywiol, gallent weld bod eu “naratif hunaniaeth” yn cael ei rywioli yn y broses gyfreithiol (Berg & Millbank, 2009). Canfu ymchwil Girma a’i gydweithwyr (2014) ar gyfer Menywod i Fenywod sy’n Ffoaduriaid fod bron bob ceiswraig lloches lesbiaidd yn y DU wedi’u treisio, gan gynnwys cael eu treisio gan bobl mewn swyddi swyddogol fel gwarcheidwad yn y carchar, yn eu gwlad enedigol. Gallai hyn arwain at ofn y byddant yn cael eu treisio eto gan bobl mewn swyddi o awdurdod yn y DU (Girma et al, 2014).

Pobl ifanc

A.41. Awgryma Donovan a Hester (2008) fod pobl ifanc LHDTh (dan 25 oed) yn hynod agored i gam-drin domestig am nifer o resymau: gallent ystyried bod eu perthynas gyntaf yn cadarnhau eu hunaniaeth; nid oes ganddynt unrhyw fodelau o ran sut mae perthynas un rhyw yn edrych; caiff eu perthynas ei hymgorffori yn eu rhwydweithiau cyfeillgarwch LHDTh ac mae ganddynt ddiffyg adnoddau i ofyn am help.

Defnyddio sylweddau ac iechyd meddwl

A.42. Wrth ddadansoddi eu set data genedlaethol o ddioddefwyr cam-drin domestig oedd yn troi at wasanaethau Cynghorwr Annibynnol ar Drais Domestig sy’n rhan o raglen Insights, canfu CAADA (2013) fod y nifer fach o bobl LHDTh sy’n mynd at y gwasanaethau hyn wedi cael profiad o lefelau camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl uwch na dioddefwyr cam-drin domestig heterorywiol. Awgryma CAADA mai un esboniad i hyn allai fod y rhwystrau y mae pobl LHDTh yn eu hwynebu wrth droi at wasanaethau sy’n golygu eu bod yn gofyn am help yn nes ymlaen a bod eu hanghenion wedyn yn mynd yn fwy “cymhleth”.

Arfer effeithiol wrth liniaru rhwystrau

A.43. Mae’r dystiolaeth sydd ar gael ar arfer effeithiol wrth liniaru rhwystrau i fynediad pobl LHDTh i wasanaethau cam-drin domestig, stelcio, aflonyddu a thrais rhywiol yn seiliedig ar arfer yn bennaf, gan dynnu oddi ar brofiad yr ymarferwyr o’r hyn fu’n effeithiol yn eu gwasanaethau, neu’n

seiliedig ar fyfyrdodau pobl LHDTh sydd wedi'u cam-drin ynghylch yr hyn helpodd nhw neu'r hyn yr hoffent ei weld yn cael ei wneud yn wahanol.

Codi ymwybyddiaeth mewn cymunedau LHDTh

A.44. Mae Donovan (2011) yn argymell cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth mewn cymunedau LHDTh o gam-drin domestig, felly gall y rhai sy'n cael profiad ohono ei gydnabod a gofyn am help a helpu ffrindiau a theulu i'w gydnabod. Gallai hyn gynnwys ymgyrchoedd addysg ac allgymorth ymwybyddiaeth y cyhoedd cenedlaethol a lleol (Ciarlante & Fountain, 2010), neu ymgyrchoedd hysbysebu sy'n defnyddio lluniau o gyplau un rhyw, geirfa niwtral o ran rhyw (Duke & Davidson, 2009). Dadleua McClennan (2005) fod argaeledd ehangach gwybodaeth ffeithiol yn lleihau gwarthnod "person un rhyw" rhag gofyn am help.

A.45. Mae Roch a'i gydweithwyr (2010) yn awgrymu hefyd y dylai sefydliadau LHDTh gynyddu ymwybyddiaeth a gweledd yn eu sefydliadau eu hunain o fater pobl drawsrywiol sy'n cael eu cam-drin yn y cartref trwy ymgymryd â hyfforddiant gyda staff ar ymgyrchoedd cam-drin domestig penodol i bobl drawsrywiol, gan gynnwys dulliau ar-lein.

Gwella gwasanaethau'r brif ffrwd

A.46. Mae canfyddiadau Duke a Davidson (2009) yn cefnogi "Model Rhaglennu Cadarnhaol Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol" sy'n cynnwys hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sy'n darparu gwasanaethau i oroeswyr, hysbysebu effeithiol, croescydweithredu rhwng asiantaethau cymunedol ac adnoddau ac atgyfeiriadau lesbiaidd, hoyw a deurywiol cadarnhaol (Duke & Davidson, 2009). Yn fras, cefnogir y model hwn gan ganfyddiadau ac argymhellion ymchwilwyr eraill, fel y disgrifir isod.

Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i ddarparwyr gwasanaeth

A.47. Mae Donovan (2010 & 2011) yn argymell gweithgareddau codi ymwybyddiaeth sydd wedi'u targedu at asiantaethau cam-drin domestig, yr heddlu a Chynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol ynghylch cam-drin domestig mewn perthnasoedd l LHDTh. Dadleua Donovan y dylai codi ymwybyddiaeth gynnwys hyfforddiant penodol i aelodau staff:

- Dylai swyddogion ym mhob Uned Diogelwch y Cyhoedd gael hyfforddiant arbenigol mewn cam-drin domestig pobl LHDTh (Donovan, 2010)
- Dylai staff gael hyfforddiant ar brofiadau unigryw ac anghenion penodol pobl drawsryweddol sy'n cael eu cam-drin yn y cartref (Roch et al, 2010)
- Dylai heddweision gael hyfforddiant penodol ar anghenion pobl drawsryweddol (Roch et al, 2010).

A.48. Awgrymwyd hyfforddiant ymwybyddiaeth LHDTh i ymarferwyr cam-drin domestig a rhywiol y rheng flaen hefyd gan ymatebwyr mewn ymgyngoriadau cynnar ar y *Bil Rhoi Terfyn ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)* (Faraz Bhula, 2012).

Gweithio mewn partneriaeth

A.49. Argymhellir gwell cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau LHDTh a cham-drin domestig, stelcio, aflonyddu a thrais rhywiol ar raddfa eang (Ciarlante & Fountain, 2010; Constable et al, 2011), gan gynnwys sicrhau bod y partneriaethau hyn yn llywio dyluniad y gwasanaethau cam-drin (Roch et al, 2010). Noda Gooch (2012) bwysigrwydd cysylltu ystod eang o bobl drawsrywiol mewn sefydliadau a deall bod y gymuned drawsrywiol yn fyrhoedlog.

Amgylcheddau gwasanaeth croesawgar a chynhwysol

A.50. Mae iaith niwtral o ran rhyw, gynhwysol mewn deunyddiau hysbysebu, ar arwyddion mewn ardaloedd aros ac ar ffurflenni derbyn yn helpu creu amgylchedd croesawgar i bobl LHDTh (Ard & Makadon, 2011; Constable, 2011). Yn ogystal â sicrhau nad yw deunyddiau'n tybio heterorywioldeb (Constable, 2011) ac yn cynnwys pobl drawsrywiol (Roch et al, 2010), mae Roch a'i gydweithwyr yn argymell bod asiantaethau'n hysbysebu'n amlwg y byddant yn gweithio gyda phobl drawsrywiol (neu fenywod trawsrywiol, i sefydliadau menywod yn unig). Awgryma Gooch (2012) roi posteri i fyny sy'n cadarnhau pobl drawsrywiol yn ogystal â phobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol mewn gwasanaethau, a rhoi ystyriaeth i doiledau yn y gwasanaeth fel safle

cam-drin posibl i bobl drawsrywiol a chymryd camau i fynd i'r afael â hyn (Gooch, 2012).

A.51. O gymharu â menywod heterorywiol, canfu Hester a'i gydweithwyr (2012) fod y ddarpariaeth gwasanaeth penodol i ryw yn cael ei ystyried yn llai pwysig i bobl LHDTh, gan ei bod hi'n bwysicach i ymarferwyr fod yn fedrus ac i wasanaethau cynnig dewis yn rhyw'r ymarferwr.

A.52. Canfu Hester a'i gydweithwyr (2012) hefyd fod pobl LHDTh eisoes yn defnyddio lleoedd ar-lein i ofyn am gefnogaeth, gan awgrymu'r potensial i ddatblygu ymyriadau ar-lein ymhellach.

Ymholiadau fel mater o drefn ac asesu risgiau

A.53. Mae Ard a Makadon (2011) yn argymell y dylai gweithwyr proffesiynol holi'n sensitif ynghylch cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhyw cyn sgrinio ar gyfer cam-drin domestig, a dadleuant lle nad yw ymholi arferol eisoes wedi'i defnyddio, y gallai trothwy is ar gyfer ymholiadau cam-drin domestig gael ei sicrhau i bobl drawsrywiol yr ymddengys eu bod yn profi cyfraddau uwch o drais nag aelodau eraill y gymuned LHDTh. Mae Donovan (2010) yn argymell gan fod nifer y bobl LHDTh sy'n rhoi gwybod am gam-drin domestig yn anghymesur o isel, dylai'r heddlu ystyried y posibilrwydd bod achosion yn risg uchel ar sail achos, gan fod y person sy'n rhoi gwybod am y gamdriniaeth wedi gwneud hynny er gwaetha'r risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â chael eu "datgelu" a'r risg o gael ymateb amhriodol.

A.54. Yn seiliedig ar eu canfyddiadau o ddynodiad risg is ymhlith dynion hoyw sy'n cael eu cam-drin yn y cartref yng Nghymru, awgryma Robinson a Rowlands (2009) fod angen offer sgrinio penodol sy'n adlewyrchu ffactorau risg unigryw, fel y bygythiad i "ddatgelu". Yn ddiweddar, treialodd Stephenson a'i gydweithwyr (2013) arf asesu risg ffurflen fer, chwe eitem i ddynion hoyw oedd yn dal cyffredinolrwydd sylweddol uwch o brofiad diweddar o drais partner mynwesol o gymharu ag arf sgrinio cyfredol ac a ddefnyddir yn fynych.

Gwasanaethau a rhaglenni arbenigol

A.55. Yn ogystal â'r angen am ddarpariaeth brif ffrwd fwy cynhwysol, mae cefnogaeth hefyd i raglenni cam-drin domestig, stelcio, aflonyddu a thrais

rhywiol arbenigol i bobl LHDTh. Canfu Bornstein a'i gydweithwyr (2006) na fyddai pobl LHDTh sy'n cael eu cam-drin yn y cartref a drodd at raglenni cam-drin domestig pobl LHDTh wedi gofyn am gefnogaeth gan raglen y brif ffrwd.

A.56. Noda Robinson a Rowlands (2006) fod dynion hoyw'n fwy tebygol o droi at linellau cymorth, fel llinell gymorth Cynllun Dyn yng Nghymru a'r Llinell Gyngor i Ddynion yn genedlaethol. Dadleuodd yr elusen cam-drin domestig i bobl LHDTh, Broken Rainbow (2005), bron i ddeng mlynedd yn ôl dros gynyddu'r staff yn ei linell gymorth arbenigol, sydd ond ar agor pedwar diwrnod a dwy noson yr wythnos o hyd. Adroddodd dynion hoyw a drodd at wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru cyn 2006 fod yr ymyriadau canlynol o gymorth: y defnydd o'r Olwyn Pŵer a Rheolaeth i Lesbiaid a Hoywon, dyfalbarhad y gweithiwr arbenigol wrth ddilyn i fyny gyda nhw, cael gwybodaeth am yr hyn fyddai'n digwydd pan fyddent yn ffonio'r heddlu, cadw cwmni iddynt yn y llys a'u cefnogi i droi at yr adran dai (Robinson & Rowlands, 2006). Canfu Rowlands (2006) hefyd fod yn well gan ddynion hoyw gael eu cefnogi gan weithiwr hoyw.

A.57. Canfu Hester a'i gydweithwyr (2012) fod angen ymyriadau tebyg ar fenywod lesbiaidd a deurywiol â menywod heterorywiol, ond roedden nhw hefyd am allu trafod effaith eu profiadau o gamdriniaeth ddomestig ar eu rhywioldeb.

A.58. Mae Constable a'i gydweithwyr (2011) hefyd yn amlygu'r angen am arferion diogel gyda phobl LHDTh sy'n cael eu cam-drin yn ddomestig sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, gan sicrhau y gallant droi at gefnogaeth gan weithwyr ar wahân, o bosibl y tu allan i'r gymuned leol. Dylai llinellau cymorth hefyd fod yn hysbys o'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl LHDTh mewn ardaloedd gwledig (Constable et al, 2011).

Addysg rhyw a pherthnasoedd (ARhPh)

A.59. Dadleua Donovan a Hester (2008) fod ARhPh yn cael ei hyrwyddo'n aml fel arf i atal cam-drin domestig a thrais rhywiol, ond bod ARhPh yn canolbwyntio amlaf ar ryw a pherthnasoedd heterorywiol yn unig. Codwyd y diffyg cynrychiolaeth hwn hefyd o berthnasoedd un rhyw gan gyfranogwyr yn ymgynghoriad Comisiwn Cenedlaethol y Menywod

(2009) i hysbysu'r strategaeth genedlaethol Trais yn Erbyn Menywod. Felly, cynigia Donovan a Hester y dylid cynnwys perthnasoedd un rhyw mewn ARhPh, cynnig a adlewyrchir yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru (2010) ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion, sy'n datgan y dylai ysgolion yn benodol gynnig cefnogaeth a chanllawiau i ddysgwyr LHDTh sy'n "teimlo'n ansicr ynghylch mynegi eu rhywioldeb."

I gloi a goblygiadau

A.60. Darpar y dystiolaeth bresennol ddealltwriaeth eang o'r rhwystrau a wyneba dioddefwyr LHDTh o gam-drin wrth droi at wasanaethau, ond mae'r unig dystiolaeth benodol i Gymru sydd ar gael ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar ddynion hoyw. Mae ein hymchwil ansoddol yn rhoi cyfle i ddiweddaru'r dystiolaeth ar brofiadau dynion hoyw sy'n cael eu cam-drin yn y cartref yng Nghymru, a phrofi defnyddioldeb y canfyddiadau ymchwil am bobl lesbiaidd deurywiol a thrawsrywiol sy'n cael eu cam-drin yn y cartref i'r cyd-destun Cymreig. Mae llai o dystiolaeth ar gael am y rhwystrau i droi at wasanaethau i bobl LHDTh sy'n cael profiad o stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol, ac o'r rhwystrau penodol i bobl LHDTh gan gymunedau pobl dduon, lleiafrifoedd ethnig a ffoaduriaid. Yn hyn o beth, bydd yr ymchwil ansoddol yn ceisio mynd i'r afael â'r bwlch tystiolaeth hwn, gan lywio polisi Llywodraeth Cymru a chan gyfrannu at y sail dystiolaeth ehangach y gall gwneuthurwyr polisi eraill dynnu oddi wrthynt.

Atodiad B. Sampl a gyflawnwyd

Tabl atodiad B1: Sampl a gyflawnwyd o gyfweliadau ffôn ansoddol gyda gweithwyr proffesiynol

	Cymru Gyfan	Gogledd Cymru	De Cymru	**Cyfanswm**
Gwasanaethau cam-drin domestig (gwirfoddol)	3	0	1	**4**
Llinellau cymorth	3	0	0	**3**
Sefydliadau cymunedol LHD(Th)	2	0	1	**3**
Yr Heddlu/Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol	0	1	0	**1**
Gwasanaethau cam-drin rhywiol (statudol)	0	1	1	**2**
Gwasanaethau cam-drin rhywiol (sector gwirfoddol)	1	0	0	**1**
Gwasanaethau cam-drin domestig LHDTh arbenigol	1	0	0	**1**
Sefydliadau cymunedol trawsrywiol	0	1	1	**2**
Gwasanaethau cam-drin arbenigol pobl dduon, lleiafrifoedd ethnig a ffoaduriaid	1	0	0	**1**
Cyfanswm	**11**	**3**	**4**	**18**

Tabl atodiad B2: Sampl a gyflawnwyd o ymatebion ysgrifenedig ar-lein

	Oedran						
	18-25	25-36	36-45	46-55	56-65	Heb nodi	**Cyfanswm**
Cyfeiriadedd rhywiol							
Lesbiad/menyw hoyw	3	2	3	1	3	1	**13**
Dyn hoyw	1	0	7	3	0	0	**11**
Menyw ddeurywiol	1	2	1	0	0	0	**4**
Dyn deurywiol	1	0	0	0	0	0	**1**
Person deurywiol (heb fod yn ddeuaidd)	0	0	0	0	0	1	**1**
Arall	1	0	1	0	0	1	**3**
Heb ddatgelu	0	0	0	1	0	0	**1**
Hunaniaeth rhyw							
Menyw cis	3	4	3	1	3	1	**15**
Dyn cis	1	0	7	3	0	0	**11**
Dyn trawsrywiol	1	0	0	0	0	0	**1**
Menyw drawsrywiol	1	0	1	0	0	0	**2**

Pobl eraill y dynodwyd eu bod yn drawsrywiol	1	0	1	0	0	2	**4**
Dyn (rhyngrywiol adeg geni)	0	0	0	1	0	0	**1**
Cyfanswm	**7**	**4**	**12**	**5**	**3**	**3**	**34**

Ethnigrwydd	
Gwyn Cymraeg	23
Gwyn Saesneg	6
Gwyn Gwyddelig	1
Gwyn Arall	4

Lleoliad	
De Cymru	27
Canolbarth Cymru	4
Gogledd Cymru	3

Profiadau o gam-drin	
Unrhyw gam-drin	26
Dim cam-drin	8
Heb ddatgelu	0
Math heb ei ddatgelu	*2*
Cam-drin domestig	*14*
Stelcio	*9*
Aflonyddu	*15*
Trais rhywiol	*9*

Rhestr o gyfranogwyr proffesiynol

Rydym yn ddiolchgar i'r sefydliadau canlynol a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn yr astudiaeth, naill ai drwy gyfweliad dros y ffôn, mynychu'r gweithdy i randdeiliaid, neu'r ddau. Roedd hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol o'r sefydliadau canlynol a gytunodd gael eu henwi yn yr adroddiad, ond nid rhestr gynhwysfawr mohoni o'r holl gyfranogwyr oedd yn rhan o'r astudiaeth.

Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Amethyst
BAWSO
Broken Rainbow
Heddlu Dyfed-Powys
Hafan Cymru
National Stalking Helpline
Heddlu Gogledd Cymru
Pride Cymru

Merthyr Tudful Mwy Diogel

Cymru Ddiogelach Cynllun Dyn

Shelter Cymru

Stonewall Cymru

The Survivors Trust

Cyngor Abertawe

Transgender Awareness Wales

Unique

Unity Group Wales

Cymorth i Fenywod Cymru a Llinell Gymorth Cam-drin Domestig a Thrais

Rhywiol Cymru Gyfan

Cymorth i Fenywod Gorllewin Cymru

Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Ynys Saff

Atodiad C. Canllawiau pynciau cyfweld a chwestiynau ar-lein

Canllawiau pynciau cyfweld

Cefndir a chyd-destun
Nod: Deall cefndir a chyd-destun y cyfranogwr lle darperir cefnogaeth i bobl LHDTh sy'n cael eu cam-drin

- Cyd-destun y gwasanaeth
- Rôl benodol y cyfranogwr mewn perthynas â phobl LHDTh sy'n cael eu cam-drin

Gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael i bobl LHDTh sy'n cael eu cam-drin yng Nghymru
Nodau: Trafod gwybodaeth y cyfranogwyr am y gwasanaethau sydd ar gael yng Nghymru i bobl LHDTh sy'n cael eu cam-drin

- gwasanaethau cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol sy'n cefnogi pobl LHDTh
- gwasanaethau LHDTh sy'n rhoi cefnogaeth mewn perthynas â cham-drin
- Y gwahaniaethau sydd ar gael yn y ddarpariaeth i wahanol grwpiau LHDTh
- Enghreifftiau o arfer da y gwyddant amdanynt

Y rhwystrau y mae pobl LHDTh yn eu hwynebu wrth droi at wasanaethau cam-drin priodol
Nodau: Trafod profiad y cyfranogwr o'r rhwystrau y mae pobl LHDTh yn eu hwynebu wrth droi at wasanaethau cam-drin

- Y rhwystrau o droi at gefnogaeth broffesiynol mewn perthynas â phrofiadau cam-drin
- Y rhwystrau ychwanegol i droi at gefnogaeth broffesiynol mewn perthynas â phrofiadau stelcio ac aflonyddu
- Y rhwystrau ychwanegol i droi at gefnogaeth broffesiynol mewn perthynas â phrofiadau trais rhywiol
- Rhwystrau ychwanegol ar gyfer grwpiau penodol o bobl LHDTh:
  - Pobl dduon, o leiafrifoedd ethnig a ffoaduriaid
  - Pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig
  - Pobl anabl
  - Pobl o grefyddau neu gredoau penodol
  - Pobl ddigartref
  - Pobl gyda phroblemau defnyddio sylweddau
  - Pobl gyda phroblemau iechyd meddwl

- Enghreifftiau astudiaeth achos o'r rhwystrau hyn o brofiad y cyfranogwr ei hun o gefnogi pobl LHDTh sy'n cael eu cam-drin

Gwasanaethau cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol yn unig:

- Yr heriau y mae eu gwasanaeth wedi'u hwynebu wrth ddarparu cefnogaeth briodol i bobl LHDTh

Gwasanaethau LHDTh yn unig:

- Yr heriau y mae eu gwasanaeth wedi'u hwynebu wrth ddarparu cefnogaeth briodol ar gyfer pobl sy'n mynd trwy gam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu a thrais rhywiol

Enghreifftiau o arfer effeithiol wrth liniaru rhwystrau
Nodau: Dynodi enghreifftiau o arfer effeithiol wrth liniaru'r rhwystrau a drafodir uchod, naill ai yng Nghymru neu yn rhywle arall

- Enghraifft o arferion sy'n ceisio mynd i'r afael â'r rhwystrau i bobl LHDTh sy'n cael eu cam-drin

Argymhellion ar gyfer datblygiad i'r dyfodol
Nodau: Trafod safbwyntiau'r cyfranogwyr ar ddatblygiad gwasanaethau i'r dyfodol a rôl Llywodraeth Cymru yn y broses hon

- Argymhellion ar gyfer datblygu gwasanaethau i'r dyfodol
  - Yr hyn ddylai Llywodraeth Cymru fod yn ei wneud
  - Yr hyn ddylai darparwyr gwasanaethau fod yn ei wneud

Cwestiynau ar-lein

1. Os ydych chi erioed wedi troi at wasanaethau am gymorth gyda'ch profiadau o gamdriniaeth, dywedwch wrthym sut oedd hyn. Rydym am glywed beth oedd o gymorth i chi, yn ogystal ag unrhyw beth nad oedd o gymorth (Os nad yw hyn yn berthnasol i chi, ewch ymlaen i'r cwestiwn nesaf).

2. Petai angen cymorth proffesiynol arnoch mewn perthynas â phrofiadau cam-drin yn y dyfodol, pa fath o wasanaethau fyddech chi'n troi atynt a pham?

3. Pa fath o wasanaethau fyddech chi'n osgoi mynd atynt petai angen help arnoch yn y dyfodol a pham?

4. Beth ydych chi'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru fod yn ei wneud i wella'r gefnogaeth i bobl LHDTh sy'n cael profiad o gam-drin domestig, stelcio, aflonyddu neu drais rhywiol?